Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Plant sydd ar yr ymylon

Rhagfyr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Plant sydd ar yr ymylon

Rhagfyr 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS ***
Llafur Cymru

* Mae Carolyn Thomas AS yn aelod o'r Pwyllgor ond ni chymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn.

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Lesley Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru

Cyfrannodd yr Aelod a ganlyn at yr ymchwiliad hwn hefyd:



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o’r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Cyn-Gadeirydd y Pwyllgor:**
**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **7**

**Argymhellion** .......... **9**

**1. Y cefndir** .......... **14**

Ein hymchwiliad i ddiwygiad radical o'r system ofal .......... 14

'Plant sydd ar yr ymylon' .......... 15

Rhai termau a ddefnyddir gennym yn yr adroddiad hwn .......... 16

**2. Grwpiau o blant sydd ar yr ymylon** .......... **18**

Plant sy'n mynd ar goll .......... 18

- Diffinio 'mynd ar goll' .......... 18
- Graddfa a data .......... 20
- Pam mae plant yn mynd ar goll .......... 23
- Y peryglon o fynd ar goll .......... 25
- Ymateb i achosion o fynd ar goll .......... 26
- Ein barn ni .......... 33

Plant sy'n destun camfanteisio troseddol .......... 37

- Diffiniad o Gamfanteisio Troseddol ar Blant .......... 37
- Camfanteisio Troseddol ar Blant yn ymarferol .......... 40
- Graddfa a data .......... 44
- Ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant .......... 48
- Ein barn ni .......... 60

Plant eraill sydd ar yr ymylon .......... 62

- Plant digartref .......... 62
- Plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol .......... 65
- Ein barn ni .......... 69

**3. Themâu trawsbynciol sy'n berthnasol i blant sydd ar yr ymylon** **71**

Gwaith amlasiantaeth ....... 71
Y tu hwnt i wasanaethau cymdeithasol ....... 71
Yr heddlu ....... 76
Cyrff iechyd ....... 77
Rhannu gwybodaeth ....... 79
Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol ....... 82
Manteision ymyrraeth gynnar ....... 82
Ysgolion fel safleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar ....... 85
Gwasanaethau cymdeithasol ....... 87
Materion ynghylch y gweithlu ....... 87
Diogelu cyd-destunol ....... 91
Rôl y trydydd sector ....... 92
Cyllid ....... 94
Ein barn ni ....... 97
Gwaith amlasiantaeth ....... 97
Y byrddau diogelu ....... 98
Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol ....... 103
Gwasanaethau cymdeithasol ....... 104
**4. Ffactorau risg o ran gwthio i'r ymylon ....... 106**
Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg ....... 106
Rôl amddiffynnol ysgolion ....... 106
Plant sy'n cael eu haddysgu gartref ....... 110
Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ....... 111
Plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ....... 117
Plant niwroamrywiol (a phlant sydd ag anableddau dysgu) ....... 120
Plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ....... 122
Plant sy'n byw mewn tlodi ....... 124

Plant sydd wedi profi trawma neu esgeulustod yn y cartref ....... 125

Plant sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol ....... 127

Plant sy'n wynebu gwahaniaethu systemig ....... 128

Ffactorau risg eraill ....... 129

Ein barn ni ....... 130

Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg ....... 130

Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ....... 131

Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ....... 133

Plant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu ....... 134

Plant sy'n byw mewn tlodi ....... 134

**Atodiad 2: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau i randdeiliaid ....... 138**

15 Mai 2024 (plant sydd ar goll) ....... 138

19 Mehefin 2024 (plant sy'n cael eu troseddoli) ....... 138

**Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ....... 140**

**Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ....... 141**

Gwybodaeth ychwanegol ....... 142

# Rhagair y Cadeirydd

Er gwybodaeth, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trafodaethau ynghylch camfanteisio troseddol a chynnwys a all beri gofid i rai darllenwyr.

Ar ddechrau'r Senedd hon, fe wnaethom gytuno i ganolbwyntio ar effeithiau negyddol anfantais, a blaenoriaethu gwrando ar blant sydd ddim bob amser yn cael eu clywed.

Mewn sawl ffordd, mae'r ymchwiliad hwn yn ymgorfforiad o'r ymrwymiadau hynny.

Mae nifer y plant sy'n destun y camfanteisio a'r cam-drin ffiaidd a nodir yn yr adroddiad hwn yn y lleiafrif. Ond gall profiadau'r plant hynny fod yn annirnadwy o ofnadwy. Bydd y camfanteisio a brofir ganddynt yn llywio eu bywydau yn sylfaenol. Gall siapio bywydau aelodau'r teulu, ffrindiau ac eraill sy'n byw yn eu cymunedau hefyd.

Ni fydd rhai plant yn goroesi'r camfanteisio a'r cam-drin y maent yn ei brofi.

Yn ystod 2022 a 2023 fe wnaethom gynnal ymchwiliad manwl i'r system ofal. Yn ein hadroddiad, fe wnaethom nodi tystiolaeth glir a chryf bod y system ofal yn methu llawer gormod o blant. Gwnaethom argymhellion beiddgar, uchelgeisiol a phenodol sydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu maint y newid sydd ei angen i wella bywydau plant mewn gofal yn sylweddol.

Mae'r darn newydd hwn o waith yn rhannu llawer o'r un themâu â'n gwaith ar y system ofal. Rydym yn trafod ffactorau risg tebyg ar gyfer plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, megis tlodi, cam-drin a thrawma. Ac rydym yn trafod canlyniadau dilynol rhianta corfforaethol gwael unwaith y bydd plant mewn gofal.

Ond mae'r ymchwiliad hwn yn taflu rhwyd ehangach na phlant mewn gofal a'u teuluoedd. Mae rhai ffactorau risg sy'n golygu bod gwthio rhywun i'r ymylon yn fwy tebygol. Ond yn y pen draw, gall *unrhyw* blentyn gael ei wthio i'r ymylon. Gall *unrhyw* blentyn fynd ar goll, a gall *unrhyw* blentyn ddioddef camfanteisio.

Gellir darllen yr adroddiad hwn fel stori am golli cyfleoedd. Colli cyfleoedd i nodi a chefnogi plant sy'n wynebu risg. Colli cyfleoedd i gael sgyrsiau pwysig yn dilyn yr arwyddion cyntaf o rywun yn cael ei wthio i'r ymylon. Colli cyfleoedd i ymateb yn effeithiol pan fydd pethau'n gwaethygu, a cholli cyfleoedd i gymryd camau pendant ar adegau tyngedfennol.

Ceir bwriadau da ar draws y sector, ac mae enghreifftiau o arfer da, hefyd. Felly nid yw'r adroddiad hwn yn galw am chwyldro yn yr ymateb i blant sydd ar yr ymylon. Yn lle hynny, rydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol fod yn fwy ymwybodol, yn fwy cyson, gyda mwy o ffocws, i ofyn mwy ohonynt eu hunain ac eraill, ac i fod yn atebol am wneud hynny.

Credwn y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, os cânt eu derbyn a'u gweithredu yn y Senedd hon a thu hwnt, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a diriaethol i fywydau'r plant sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffem ddiolch i'r holl weithwyr proffesiynol a sefydliadau a roddodd eu hamser a'u harbenigedd gwerthfawr i gyflwyno tystiolaeth inni, a fynychodd ein digwyddiadau rhanddeiliaid, ac a drefnodd ymweliadau ymgysylltu. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich mewnbwn.

A hoffem ddiolch yn arbennig i'r bobl ifanc y gwnaethom gwrdd â hwy ac a ymgysylltodd â ni drwy gydol yr ymchwiliad hwn. Nid ydym yn tanamcangyfrif yr hyn a gymerodd ichi wneud hynny. Fe wnaeth eich barn a'ch arbenigedd ein helpu i ddeall effaith bersonol camfanteisio, a'r methiannau systemig sy'n gwneud camfanteisio'n bosibl.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a heddluoedd i gymryd camau cadarn, ar unwaith i sicrhau bod y data y mae'n eu cyhoeddi am blant sydd ar goll o ofal a chyfnodau o fynd ar goll ymhlith plant sy'n derbyn gofal a chymorth (a geir gan awdurdodau lleol) yn gywir ac yn ddibynadwy. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion a nodwyd gan y bartneriaeth a'r camau a gymerwyd. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu datganiad data sydd mor gywir, dibynadwy a chynhwysfawr â phosibl, ac sy'n cwmpasu pob cyfnod o blant sy'n mynd ar goll yng Nghymru. Dylid dadansoddi'r data ar wahân yn ôl oedran, profiad o fod mewn gofal, awdurdod lleol, y prif reswm dros fynd ar goll (os yw'n hysbys), ac ar y cyd â rhanddeiliaid, unrhyw ffactorau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn ddefnyddiol at ddibenion datblygu polisi. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio deddfwriaeth i wneud y cynnig o gyfweliad dychwelyd yn ofyniad statudol ar ôl pob cyfnod o fynd ar goll. Dylai'r plentyn gael yr hawl i benderfynu pwy sy'n cynnal y cyfweliad hwnnw o blith cronfa o oedolion cymwys y gellir ymddiried ynddynt, a dylid cyhoeddi canllawiau statudol cadarn i ymarferwyr i nodi'n glir sut y dylid cynnal cyfweliadau dychwelyd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru greu ffurflen i ymarferwyr ei defnyddio sy'n nodi a gafodd cynnig cyfweliad dychwelyd ei dderbyn neu ei wrthod, er mwyn gallu rhannu'r data hyn yn hawdd â rhanddeiliaid perthnasol. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at Lywodraeth y DU i eirioli dros ddiffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant fel rhan o'i Bil Troseddu a Phlismona sydd ar ddod. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni gyda'r ymateb a ddaw i law, a ddylai hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol sydd wedi'u cynnal ers mis Medi 2024. ........ Tudalen 61

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar fanteision neu fel arall strategaeth genedlaethol i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn sgil y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch arferion anghyson ledled Cymru. ........ Tudalen 62

**Argymhelliad 6.** Yn ei deddfwriaeth sydd ar ddod, dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, yn cael blaenoriaeth mewn perthynas â chategorïau eraill o ymgeiswyr; a
- chreu categori 'dewis rhesymol' gorfodol ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal (ni waeth beth fo'u statws digartrefedd) yng nghynlluniau tai cymdeithasol awdurdodau lleol. ..............................Tudalen 69

**Argymhelliad 7.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon cadw statws angen blaenoriaethol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai gynnal a chyhoeddi, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, asesiad cadarn o effeithiau dileu statws angen blaenoriaethl ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.............................................................................................................................................. Tudalen 70

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau llywodraethu'r Adolygiad Diogelu Sengl er mwyn sicrhau bod y broses yn:

- cynnwys mecanwaith clir, effeithlon a thryloyw ar gyfer lledaenu argymhellion adroddiadau ar unwaith i bob asiantaeth unigol berthnasol ledled Cymru gyfan i'w rhoi ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob asiantaeth unigol berthnasol yn cael gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i roi'r argymhellion ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr argymhelliad hwnnw *yn* cael ei weithredu;
- nodi'n glir pa gamau gorfodi a gymerir os na chaiff argymhellion eu gweithredu, pwy fydd yn cymryd y camau gorfodi hynny, a phryd a sut y cânt eu cymryd. ...........................................................................................................Tudalen 98

**Argymhelliad 9.** Ar gyfer pob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24:

- dyddiadau cyfarfodydd gwirioneddol;
- cofnodion o ba asiantaethau/sefydliadau a fynychodd bob cyfarfod; ac

- agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys camau gweithredu y cytunwyd arnynt (wedi'u golygu fel y bo'n briodol). ............................Tudalen 99

**Argymhelliad 10.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o effeithiolrwydd y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o ran dod â phartneriaid lleol a chenedlaethol ar draws asiantaethau statudol ac anstatdol, datganoledig ac fel arall, ynghyd i gyflawni gwelliannau diriaethol mewn arferion diogelu. .................................... Tudalen 99

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol ac anstatudol, gan ddefnyddio gwaith sy'n bodoli eisoes, megis Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru Prifysgol Caerdydd, i ddatblygu cyfres o adnoddau a deunyddiau hyfforddi iwella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol y rheng flaen o gamfanteisio troseddol a'r mathau eraill o wthio rhywun i'r ymylon a drafodir yn yr adroddiad hwn, a'u hymateb iddynt. Dylai'r adnoddau a'r deunyddiau hyn gael eu targedu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau ac sydd â chyswllt uniongyrchol â phlant sy'n agored i niwed (fel gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, sefydliadau addysg, byrddau iechyd, ac ati). Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol y rheng flaen ar draws y sector statudol – gan gynnwys y rhai a gyflogir gan sefydliadau a gomisiynir gan y sector statudol, megis elusennau – yn cael yr hyfforddiant hwnnw. ................................................Tudalen 100

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â byrddau iechyd, heddluoedd ac asiantaethau statudol ac anstatudol perthnasol eraill i ddatblygu offeryn asesu risg camfanteisio troseddol ar blant Cymru gyfan i'w ddefnyddio gan staff y rheng flaen, gan gynnys mewn lleoliadau gofal iechyd. Dylai'r rhaglen o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yr ydym yn ei hargymell yn Argymhelliad 11 gyd-fynd â chyflwyno'r offeryn asesu risg. .................................Tudalen 101

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb llwyfan rhannu gwybodaeth diogelu Cymru gyfan, megis Traciwr Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, i wella trefniadau rhannu gwybodaeth ledled Cymru. .............................................................................................................................................. Tudalen 102

**Argymhelliad 14.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl ei dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth diogelu data ar waith amlasiantaeth mewn perthynas â diogelu plant sy'n agored i niwed er mwyn helpu cyrff statudol ac anstatudol i ddeall eu rhwymedigaethau diogelu data wrth gydweithio i gefnogi plant sydd ar yr ymylon a'u teuluoedd. ....................................................... Tudalen 103

**Argymhelliad 15.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol hirdymor Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, gan amlinellu pa ddarpariaeth a ariennir yn ganolog, os o gwbl, fydd yn disodli'r fenter hollbwysig hon. .......... Tudalen 104

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar rinweddau neu ddiffyg rhinweddau timau arbenigol o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, y camfanteisir arnynt yn rhywiol a/neu'n drosddol.......... Tudalen 105

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru canllawiau gwahardd i ysgolion er mwyn adlewyrchu ffactorau risg ehangach camfanteisio, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn, a sicrhau bod pob ysgol yn cael ei hatgoffa o ganlyniadau posibl gwahardd ac amserlenni rhan-amer. Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cronfa o enghreifftiau lle mae ysgolion wedi llwyddo i gefnogi plant sy'n agored i niwed i aros yn yr ysgol, gan rannu'r astudiaethau achos hynny i lywio arfer gorau ar draws y sector.
.......... Tudalen 130

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ac adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis ar y defnydd o'r gronfa ddata plant sy'n colli addysg er mwyn i awdurdodau lleol nodi a diogelu plant nad ydynt mewn lleoliadau addysg ac a allai, o ganlyniad, fod yn wynebu risg o gafanteisio.......... Tudalen 131

**Argymhelliad 19.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ar ôl ystyried effaith (neu fel arall) y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol ar ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i osod ei Siarter Rhianta Corfforaethol ar sail statudol; ac
- unrhyw gamau pellach y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â rhianta corfforaethol, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.
.......... Tudalen 132

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa gymorth y mae wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w helpu i ysgogi/mabwysiadu arloesiadau digidol sy'n gwella cyfathrebu â phlant mewn gofal; ac

- a yw'n ystyried y gallai'r ap a ddefnyddir yn Sir Ddinbych (neu lwyfannau tebyg a ddefnyddir mewn mannau eraill) warantu ymchwiliad pellach, gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar draws awdurdodau lleol ledled y wlad. ........Tudalen 133

**Argymhelliad 21.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa gynnydd y mae wedi'i wneud o ran sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a sut ac erbyn pryd y bydd y gwaith hwnnw'n myd rhagddo. ......Tudalen 134

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i ddeall yn well natur a graddfa camfanteisio ar blant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu, a maint y broblem honno, gyda'r bwriad o weithio ochr yn ochr ag asiantaethau perthnasol i ddatblygu ymateb mwy effeithiol i ddiogelu'r grwpiau hyn o blant. ........Tudalen 134

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod:

- y cysylltiadau sylfaenol a chynhenid rhwng tlodi a cham-drin a chamfanteisio ar blant;
- er bod yr ysgogiadau mwyaf pwerus ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn gorwedd mewn mannau eraill, *mae* ganddi bwerau i ddarparu cymorth ac i ddiogelu plant sy'n cael eu gwneud yn agored i niwed o ganlyniad i dlodi, a dylai gael ei dwyn i gyfrif, yn gwbl briodol, am ei llwyddiannau a'i methiannau wrth wneud hynny. ........Tudalen 135

# 1. Y cefndir

## Ein hymchwiliad i ddiwygiad radical o'r system ofal

**1.** Ym mis Hydref 2022, gwnaethom lansio ymchwiliad yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn ei faniffesto arweinyddiaeth, roedd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, wedi ymrwymo i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.[1] Roedd Rhaglen Lywodraethu ddilynol Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal."[2] Ond er gwaethaf yr ymrwymiadau beiddgar, nid oeddem yn glir beth oedd ystyr "cyfleoedd radical".

**2.** Daeth ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ar ôl ymgysylltu'n helaeth â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gweithwyr proffesiynol y rheng flaen ac academyddion, i'r casgliad a ganlyn:

> *"Dylai unrhyw un sy'n honni bod y wladwriaeth yn gwneud ei gwaith rhianta corfforaethol yn dda ystyried a fyddent yn hapus i'w plentyn eu hunain gael gofal gan y system honno… Rhaid i rieni corfforaethol yng Nghymru wneud llawer, llawer yn well".*

Gwnaethom 27 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 12 o 'ddiwygiadau radical'.[3]

**3.** Roeddem yn siomedig iawn ag ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, a oedd, yn ein barn ni, wedi methu ag amgyffred maint y newid radical sydd ei angen i wella bywydau plant yn y system ofal a'u teuluoedd mewn modd ystyrlon. [4] Gwnaethom ymrwymo i barhau i wthio am y diwygiad radical y credwn sydd ei angen mor ddirfawr. Ers hynny, fel rhan o'n corff ehangach o waith ar y system ofal, rydym wedi:

---

[1] Mark Drakeford,'Mark Drakeford ar gyfer yr arweinydd (Saesneg yn unig)', Tachwedd 2018, tudalen 31

[2] Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Ionawr 2021, tudalennau 3 a 9

[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalen 6

[4] Llywodraeth Cymru, 'Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023

- Cyfnewid gohebiaeth ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ynghylch cau cynllun peilot 'datrys problemau' y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd a'r Fro.[5]

- Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.[6] Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cynnwys dileu'r categori cyffredinol o 'angen blaenoriaethol' o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd, categori sydd ar hyn o bryd yn rhoi blaenoriaeth ar gyfer llety i bobl ifanc 18-20 oed sy'n gadael gofal.

- Ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fynegi pryderon ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd.[7] Bydd y Bil yn cyfyngu ar wneud elw wrth ofalu am blant sy'n derbyn gofal, ymhlith pethau eraill.

**4.** Dylid edrych ar yr adroddiad hwn yng nghyd-destun ein hymrwymiad parhaus i daflu goleuni ar yr heriau a wynebir gan ein plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed ac sydd ar yr ymylon.

## 'Plant sydd ar yr ymylon'

**5.** Yn ystod ein gwaith ar y system ofal, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch rhai plant sy'n mynd ar goll o ofal. Clywsom fod y plant hyn yn arbennig o agored i gamfanteisio troseddol.[8] Roedd y materion hollbwysig hyn y tu allan i'r cylch gorchwyl ar gyfer ein hymchwiliad i'r system ofal, ac felly nid oeddent yn gallu rhoi'r sylw yr oeddent yn ei haeddu bryd hynny.

**6.** Yn dilyn hynny, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad ar wahân i 'blant sydd ar yr ymylon', gan ganolbwyntio ar blant sy'n mynd ar goll a phlant sy'n cael eu troseddoli. Gwnaethom hefyd ofyn i randdeiliaid dynnu sylw at grwpiau eraill o blant yr oeddent yn credu eu bod hefyd wedi'u gwthio i'r ymylon gan gymdeithas

[5] 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol', 19 Rhagfyr 2023
[6] 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Newid Hinsawdd', 10 Ionawr 2024
[7] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 18 Gorffennaf 2024
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC8 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)

i'n helpu i ddeall y cyd-destun ehangach lle mae plant yn mynd ar goll a/neu lle mae pobl yn camfanteisio'n droseddol arnynt.[9]

**7.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn, rydym wedi siarad ag ymarferwyr y rheng flaen a phobl ifanc drwy gyfres o weithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys amrywiaeth o ymweliadau, ac wedi cynnal digwyddiadau i randdeiliaid gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyfweliadau â phobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad byw o gamfanteisio troseddol ar blant.[10] Y dystiolaeth ymgysylltu hon - ochr yn ochr â'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom mewn ymateb i'n galwad am dystiolaeth, ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth wedi'i thargedu, a gwybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor amdani[11] - yw'r brif sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8.** Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn, yn enwedig i'r bobl ifanc y cawsom y pleser o'u cyfarfod ac y mae eu profiadau wedi llywio ein hargymhellion. Yn benodol, hoffem ddiolch i'r sefydliadau hynny a ymrwymodd amser ac arbenigedd staff hanfodol i gynnal ymweliadau ymgysylltu ac ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth ychwanegol.

Er gwybodaeth, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trafodaethau ynghylch camfanteisio troseddol a chynnwys a all beri gofid i rai darllenwyr.

Os ydych yn meddwl bod plentyn yn cael ei niweidio, neu mewn perygl uniongyrchol o gael ei niweidio, ffoniwch 999, cysylltwch ag adran gofal cymdeithasol eich awdurdod lleol, neu cysylltwch ag NSPCC (drwy ffonio 0808 800 5000 neu e-bostio help@NSPCC.org.uk).

## Rhai termau a ddefnyddir gennym yn yr adroddiad hwn

**'Plentyn' neu 'blant':** Pan fyddwn yn cyfeirio at 'blentyn' neu 'blant' yn yr adroddiad hwn rydym yn golygu unrhyw unigolyn sy'n iau na 18 oed. Pan fyddwn yn cyfeirio at 'bobl ifanc' rydym yn golygu unrhyw un sy'n 18-25 oed. Rydym wedi penderfynu defnyddio'r diffiniadau hyn i bwysleisio bod unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn. Mae hwn yn wahaniaeth hollbwysig, oherwydd mae'n llywio'r ymateb

[9] I weld y cylch gorchwyl llawn, ewch i, Senedd Cymru, 'Plant sydd ar yr ymylon'
[10] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024
[11] Am yr holl dystiolaeth a gawsom yn ymwneud â'r ymchwiliad hwn, gan gynnwys linc i dudalen yr ymgynghoriad, ewch i: Senedd Cymru, 'Plant sydd ar yr ymylon'

statudol a’r ymateb mewn perthynas ag amddiffyn plant i gyfnodau o fynd ar goll ac ymddygiad troseddol, fel y trafodir isod.

**‘Niwroamrywiaeth’:** Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio’r term ‘niwrowahanol’ i gyfeirio at bobl y mae eu hymennydd yn prosesu gwybodaeth yn wahanol i’r hyn y mae cymdeithas yn ei ystyried yn ‘niwronodweddiadol’. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae hynny’n cynnwys pobl sy’n ddyslecsig, awtistig, sydd ag ADHD, ac ati.

**‘Anabledd dysgu’:** Pan fyddwn yn sôn am ‘anableddau dysgu’ yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at bobl sydd â llai o allu deallusol ac anhawster gyda gweithgareddau bob dydd, sy’n effeithio ar rywun am eu bywyd cyfan. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd â Syndrom Down a rhai pobl sydd ag awtistiaeth.[12]

**9.** Os nad ydych yn gyfforddus ag unrhyw ran o’r derminoleg yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni – rydym bob amser yn croesawu adborth i wella hygyrchedd yr iaith a ddefnyddir gennym.

[12] Mencap,’Beth yw anabledd dysgu? (Saesneg yn unig)‘

# 2. Grwpiau o blant sydd ar yr ymylon

Mae mynd ar goll, bod yn rhan o weithgarwch troseddol, a'r peryglon eraill a drafodir gennym yn y bennod hon yn symptomau ac yn achosion pan fo rhywun yn cael i wthio i'r ymylon. Mae plentyn sy'n mynd ar goll yn wynebu risg uwch o gamfanteisio troseddol, ac i'r gwrthwyneb. Rydym yn ystyried y peryglon hyn ar wahân yn y bennod hon at ddibenion ystyried eu natur a'u maint, eu cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, a'r ymateb mewn perthynas ag amddiffyn plant gan asiantaethau statudol ac anstatudol.

## Plant sy'n mynd ar goll

### Diffinio 'mynd ar goll'

**10.** Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn defnyddio diffiniad yr Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (ffynhonnell swyddogol ymarfer proffesiynol ar gyfer plismona) o unigolyn coll:

> *"Anyone whose whereabouts cannot be established will be considered as missing until located and their wellbeing or otherwise confirmed."*[13]

**11.** Clywsom dystiolaeth gyson gan amrywiaeth o randdeiliaid ac academyddion, er gwaethaf diffiniad cyson a chanllawiau sylweddol o amrywiaeth o ffynonellau, yn ymarferol nid oes dealltwriaeth gyson o'r hyn y mae'n ei olygu i fod ar goll.[14]

[13] Coleg Plismona, 'Unigolion coll (Saesneg yn unig)', diweddarwyd ddiwethaf ar 22 Rhagfyr 2023
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 46-49

Adroddodd ymchwilwyr o Brifysgol Lerpwl a Phrifysgol John Moores Lerpwl adborth gan swyddogion yr heddlu am heriau'r diffiniad presennol o unigolyn coll:

> *"When asked to define what the term 'missing' meant, all participants provided a similar definition that corresponded with the UK CoP (2021) definition, that missing refers to 'anyone whose whereabouts cannot be established'. Nevertheless, feedback from police officers interviewed highlighted that, in practice, 'whereabouts unknown' was insufficient for classifying a person as missing. Police believed that 'out of character' was an important factor, despite this no longer being part of the national policing definition."*[15]

**12.** Dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym y gall trothwyon adrodd amrywio ar draws asiantaethau,[16] a mynegodd Barnardo's Cymru bryder ynghylch tangofnodi cyfnodau o rai grwpiau o blant sy'n mynd ar goll, sy'n fwy tebygol nag eraill o lithro drwy'r rhwyd.[17]

**13.** Ymddengys bod gweithdrefnau adrodd arbennig o amrywiol ar gyfer plant sydd ar goll o ofal. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym y gall pwysau ar weithwyr cymdeithasol arwain at ymddygiad gwrth-risg o ran pryd i adrodd bod plentyn mewn gofal ar goll.[18] Roedd Voices from Care Cymru yn cytuno, gan ddadlau y gall staff gofal preswyl – a gofalwyr maeth i raddau llai – roi gwybod bod plentyn ar goll pan maent yn syml yn ymddwyn fel rhywun yn ei arddegau – yn cymdeithasu gyda ffrindiau yn y parc, yn mynd yn ôl i dŷ ffrind ac yn anghofio dweud wrth eu gofalwyr. Maent yn nodi y byddai'n well gan bobl ifanc mewn gofal yn aml pe bai eu gofalwyr yn ceisio dod o hyd iddynt yn anffurfiol yn gyntaf, oherwydd gall yr heddlu yn eu casglu o dŷ ffrind fod yn brofiad 'gwarthus a gofidus'.[19]

**14.** Dywedodd Ymddiriedolaeth St Giles wrthym, yn wahanol i blant sydd ar goll o ofal, yn aml mae oedi sylweddol cyn rhoi gwybod bod plant nad ydynt mewn gofal ar goll.[20] Roedd rhai gweithwyr proffesiynol eraill yn cytuno, gan nodi bod

---

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM22 Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) (Saesneg yn unig)
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[18] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 46-49
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)

rhai teuluoedd yn amharod i adrodd bod eu plentyn ar goll oherwydd eu bod yn ofni y bydd y plentyn yn cael ei roi mewn gofal.[21]

**15.** Amlinellodd Cymdeithas Seicolegol Prydain sut mae'r gwahanol ddulliau o adrodd am gyfnodau o fynd ar goll yn cyfrannu at ddiffyg cysondeb yn y cymorth a gynigir i bobl ifanc:

> *"The classification of "missing" covers a broad range of circumstances, where a child may go missing for a few hours but return at night, go missing for several days only to eventually return, or a child who goes missing on a regular basis. Many of these children and young people may not be captured in our support system if they return quickly or if there are differing perceptions about when or why someone might be considered missing."*[22]

## Graddfa a data

**16.** Mae Uned Personau Coll y DU (UKMPU) yn casglu ac yn cyhoeddi data ar bob plentyn coll. Mae'r data hyn yn cael eu dadansoddi mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys oedran a rhywedd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am bryderon iechyd meddwl ymhlith plant sy'n mynd ar goll, a'r niwed a ddioddefir yn ystod cyfnodau o fynd ar goll. Mae'r data hyn yn anghyflawn, ar gyfer heddluoedd Cymru.[23] Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod data UKMPU yn cael eu hystyried fel y data mwyaf cyson sydd ar gael gan eu bod yn defnyddio diffiniad[24] yr heddlu o'r hyn sy'n gyfystyr â chyfnod o fynd 'ar goll'. Mae'n adrodd bod Cymru wedi cofnodi 10,204 o ddigwyddiadau, yn 2021-22, gyda 3,249 ohonynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc unigol. Roedd 1,138 o'r plant a'r bobl ifanc hyn mewn gofal ar yr adeg yr adroddwyd eu bod ar goll.[25]


**17.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu ac yn cyhoeddi data ar blant sydd ar goll o ofal, wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol. Mae'r ystadegau hyn wedi'u

---

[21] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 5 a 15
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[23] Er enghraigfft, gweler data 'Ar goll o ofal' heddluoedd Cymru: Uned Personau Coll, Adroddiad Ystadegol Uned Personau Coll y DU ar gyfer 2021-22' (Saesneg yn unig), tudalen 38 ac Uned Personau Coll y DU, 'Adroddiad Ystadegol yr Uned Personau Coll ar gyfer 2022-23' (Saesneg yn unig), tudalen 27
[24] Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 'Uned Personau Coll y DU: Adroddiad Data Personau Coll 2021/22 (Saesneg yn unig)'
[25] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalennau 4-5 a 7

rhestru ar hyn o bryd fel rhai "arbrofol".[26] Mae'r data hyn yn nodi bod 1,422 o blant wedi mynd ar goll o ofal o leiaf unwaith yn ystod 2021-22, gan godi i 2,097 yn 2022-23. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y bydd data cyhoeddedig sydd wedi'u casglu gan awdurdodau lleol ac sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2023-24 ymlaen yn cyfeirio at nifer y plant sy'n derbyn 'gofal a chymorth' sy'n mynd ar goll. Mae hwn yn ddiffiniad ehangach na phlant sy'n mynd ar goll o ofal. Gall awdurdodau lleol Cymru hefyd weld eu casgliad data yn amlach nag y byddai data UKMPU ar gael, gan gefnogi "ymatebion mwy prydlon o safbwynt strategaeth ac ymarfer".[27]

***Ffigur 1: Cyfradd fesul 1,000 o blant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn 2022-2023, yn ôl awdurdod lleol.***[28]




**18.** Mae rhai asiantaethau eraill wedi cyhoeddi data am blant coll. Gan ddefnyddio data gan heddluoedd Cymru, mae Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru a Chymdeithas y Plant yn nodi bod pob ardal heddlu

[26] StatsCymru, 'Plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol'
[27] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalennau 4-5 a 7
[28] StatsCymru, 'Plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol'. Defnyddir y data hyn yn unol â: Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland (Saesneg yn unig)', 8 Hydref 2024

yng Nghymru wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynd ar goll yn eu hardal ddaearyddol rhwng 2016 a 2021, gyda Gwent yn gweld y gostyngiad mwyaf (46 y cant) dros y cyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag:

> *"… the average child that goes missing in Gwent does so over ten times, a rate which has doubled since 2016 when children went missing an average of 4.7 times. This has happened because the number of missing incidents has increased, while the number of individual children being reported missing each year has almost halved."*[29]

Mae hyn yn gyson â'r dystiolaeth lafar a gawsom gan Arolygiaeth Gofal Cymru. [30]

**19.** Cytunodd rhanddeiliaid nad oes un ffynhonnell ddibynadwy i nodi nifer y plant coll yng Nghymru.[31] Clywsom fod yr adrodd anghyson am gyfnodau o fynd ar goll, fel y trafodwyd uchod, ynghyd ag anghysondebau mewn adrodd ar draws awdurdodau lleol a heddluoedd, yn golygu y dylem droedio'n ofalus wrth ddehongli data sydd wedi'u cyhoeddi.[32] Awgrymwyd dro ar ôl tro, er eu bod yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r plant sy'n mynd ar goll, fod plant mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli yn y data sydd ar gael. O ganlyniad i hyn, dadleuodd rhai gweithwyr proffesiynol na ddylai llunwyr polisi ganolbwyntio eu holl sylw ar blant mewn gofal, oherwydd bod y gronfa o blant sy'n mynd ar goll yn llawer ehangach, ac felly gall y rhesymau dros y cyfnod coll fod yn fwy amrywiol.[33]

**20.** Clywsom amrywiaeth o safbwyntiau am broffil plant sy'n mynd ar goll yn ystod ein trafodaethau â gweithwyr proffesiynol. Sylwodd rhai bod oedran y plant sy'n mynd ar goll yn mynd yn iau. Awgrymodd un gweithiwr proffesiynol mai plant rhwng 12 a 14 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf. Dywedodd eraill eu bod yn gweld mwy o ferched yn mynd ar goll nag o'r blaen. [34]

---

[29] NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant, 'Missing the Point (Saesneg yn unig)', Tachwedd 2020, tudalennau 9-10
[30] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 46-53
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 3
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4
[34] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 3

**21.** Yn rheolaidd roedd rhanddeiliaid yn argymell dull cyson, cenedlaethol o gasglu data er mwyn deall yn well graddfa a natur cyfnodau o fynd ar goll ledled Cymru a sicrhau bod gennym yr ymateb polisi cywir ar waith.[35]

**22.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a oedd yn meddwl bod casglu data am blant coll yng Nghymru yn ddigon cadarn, o ystyried nad yw data yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru am blant sy'n mynd ar goll nad ydynt mewn gofal. Cytunodd mai data yw'r sail a all lywio sut yr ymdrinnir â pholisi, yn enwedig ynghylch diogelu. Eglurodd fod data yn cael eu casglu gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru, yr heddlu a'r Swyddfa Gartref. Eglurodd fod y data hyn yn llywio arfer, mewn perthynas â phlant yr adroddir eu bod ar goll a phlant y camfanteisir arnynt.[36]

**23.** Fodd bynnag, cydnabu Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod angen i'r data aeddfedu ymhellach, a bod gan Lywodraeth Cymru grwpiau llywio i edrych ar sut i ehangu adroddiadau data awdurdodau lleol fel eu bod yn bwydo i mewn i ystadegau Llywodraeth Cymru am yr *holl* blant sy'n mynd ar goll.[37]

**24.** Gwnaethom fynegi pryder hefyd i'r Gweinidog ynghylch ansawdd y data a gasglwyd ac a gyhoeddwyd ers 2020-21 fel rhan o Fframwaith Perfformiad a Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaethom nodi bod y data hyn gan Lywodraeth Cymru yn dangos mai dim ond 16 o blant a aeth ar goll o ofal yng Nghaerdydd yn 2022-23, er bod ystadegau eraill a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod ganddi dros 1,000 o blant mewn gofal yn ystod yr un cyfnod hwnnw. Yng Nghonwy, adroddir bod 273 o blant unigol wedi mynd ar goll, er mai dim ond 215 o blant unigol oedd yn ei ofal ar y pryd. Cadarnhaodd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod rhai gwallau yn y data, a bydd canllawiau'n cael eu diweddaru i wella ansawdd y data.[38]

## Pam mae plant yn mynd ar goll

**25.** Cyflwynodd Llamau, sy'n cynnal gwasanaethau dadfriffio ar ran Gwasanaeth Heddlu Dyfed Powys, ddata ynghylch pam mae plant yn rhedeg i ffwrdd, a ddaw

[35] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4
[36] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 11-16
[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 11-21
[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20-22

o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda phlant a aeth ar goll rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023:

- Dywedodd 24 y cant o'r plant a aeth ar goll eu bod wedi gwneud hynny oherwydd eu bod eisiau bod gyda ffrindiau.
- Dywedodd 12 y cant o'r plant a aeth ar goll eu bod wedi gwneud hynny oherwydd nad oeddent yn hapus/bod problemau yn yr ysgol.
- Dywedodd 11 y cant o'r plant a aeth ar goll eu bod wedi gwneud hynny oherwydd dadleuon gartref/gwthio ffiniau.[39]

**26.** Yn 2019 dadansoddodd NYAS Cymru ei gontractau cyfweliad dychwelyd ei hun gydag awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr, a daeth i gasgliadau tebyg. Ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal, canfu yr ymddengys mai'r ffactor 'gwthio' mwyaf cyffredin yw 'methiant mewn cyfathrebu', a'r ffactor 'tynnu' mwyaf cyffredin yw 'grwpiau cyfeillgarwch'.[40] Yn y cyfamser, dadleuodd Cymdeithas y Plant y gallai plant fynd ar goll oherwydd profiadau sy'n eu gwthio i ffwrdd o'u cartref neu leoliad, megis cam-drin domestig neu leoliad yn methu.[41]

**27.** Nododd Llywodraeth Cymru fod y rhesymau pam yr adroddir bod plant ar goll yn cynnwys:

- ymateb i ddigwyddiad neu newid yn eu bywydau, megis newid mewn amgylchiadau teuluol neu brofedigaeth;
- problemau gartref;
- teimlo'n anhapus ynghylch penderfyniadau/efallai na fydd rhywun yn gwrando arnynt;
- mynd ar goll i ardaloedd lle mae ganddynt deulu neu gysylltiadau;
- gall fod yn profi esgeulustod neu gamdriniaeth gartref;
- cael eu hannog neu eu gorfodi i fynd ar goll gan oedolion peryglus neu gan blant eraill.[42]

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM16 Llamau (Saesneg yn unig)
[40] NYAS Cymru, 'Ymchwiliad i leoliadau gofal 'y tu allan i'r ardal' ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (Saesneg yn unig)', Ebrill 2019, tudalen 8
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[42] Llywodraeth Cymru,'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 9

Yn ystod gwaith craffu ar lafar, ychwanegodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

> *"… one of the things that we do know is that many children that are reported as missing are often children that are trying to get back home; they're trying to get back to the place and the people that they know."*[43]

### Y peryglon o fynd ar goll

**28.** Mewn adroddiad ar y cyd, mae NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant yn dadlau:

> *"When children go missing, we must see that as an indication that something is going wrong in their life. When they go missing repeatedly, we must see that as a signal that the problem has still not been addressed."*[44]

Rhannodd CASCADE safbwyntiau tebyg, gan ddadlau mai cyfnodau o fynd ar goll yw'r 'cliw mwyaf oll' ar gyfer camfanteisio, a dywed y gall fod yn rhybudd i weithwyr proffesiynol bod plentyn yn cael ei ddefnyddio neu ei ynysu'n gymdeithasol, gall fod yn ymgais i guddio'r plentyn rhag goruchwyliaeth broffesiynol neu'n ymgais y plentyn i ddianc rhag y bobl sy'n camfanteisio arno.[45]

**29.** Roedd rhanddeiliaid eraill yn cytuno'n gyson bod mynd ar goll ynddo'i hun yn rhoi'r plentyn mewn perygl o gamfanteisio neu niwed pellach, gan gynnwys camfanteisio troseddol a/neu rywiol.[46] Ysgrifennodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *"We know that children with multiple missing episodes and those who go missing for prolonged periods are at high risk of child sexual exploitation and/or criminal exploitation and may be trafficked while they are missing."*[47]

---

[43] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[44] NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant, 'Missing the Point (Saesneg yn unig)', Tachwedd 2020, tudalen 7
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 14; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 3
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)

**30.** Nododd Cymdeithas y Plant y gallai mynd ar goll hefyd fod yn arwydd bod rhywun eisoes yn camfanteisio ar y plentyn.[48] Rhannodd eraill dystiolaeth debyg: canfu Gweithredu dros Blant o ddata a gasglwyd rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Mawrth 2024 fod 63 y cant o'i garfan gwasanaethau ymyrraeth gynnar troseddau cyfundrefnol difrifol yn Sir y Fflint wedi profi cyfnodau o fynd ar goll a gofnodwyd.[49] Yn y cyfamser, rhannodd CASCADE ganfyddiadau astudiaeth o blant yr effeithiwyd arnynt gan gamfanteisio troseddol ar blant rhwng 2020 a 2023, a ganfu fod 71 y cant o'r 44 yr effeithiwyd arnynt gan gamfanteisio troseddol wedi cofnodi o leiaf un cyfnod o fynd ar goll.[50] A chyfeiriodd Voices from Care Cymru a Cymorth Cymru at ddadansoddiad Llamau o'i wasanaethau dadfriffio ei hun yn 2020, a ganfu fod plant mewn 25 y cant o'r holl sesiynau dadfriffio yn nodi arwyddion posibl o gamfanteisio rhywiol ar blant, gydag eraill yn dangos risgiau sylweddol o ymddygiad troseddol.[51]

## Ymateb i achosion o fynd ar goll

### Y fframwaith deddfwriaethol a pholisi

**31.** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i ymchwilio a chymryd camau i ddiogelu plant sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed.[52] Mae rheoliad 60 ac Atodlen 3 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal preswyl i blant hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yr awdurdod lleoli a'u hawdurdod lleol eu hunain pan fydd plentyn yn mynd ar goll neu pan mae ganddo absenoldeb na ellir ei egluro.[53] Mae gan gyrff eraill hefyd ddyletswyddau i hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol os ydynt yn credu bod plentyn yn wynebu risg.[54]

**32.** Fodd bynnag, mae'r fframwaith sylfaenol ar gyfer ymateb i blant sy'n mynd ar goll wedi'i nodi yng Nghanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2021. I grynhoi, mae'r camau y dylid eu dilyn unwaith yr adroddir bod plentyn ar goll fel a ganlyn:

---

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[52] Leiglsation.gov.uk, 'Deddf Plant 1989 (Saesneg yn unig)', adran 47
[53] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 5
[54] Legislation.gov.uk, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014', adran 130

- Dylid gwneud ymdrech resymol i geisio canfod a sefydlu lleoliad y plentyn cyn cysylltu â'r heddlu.

- Os bydd pob ymdrech resymol i gysylltu â'r plentyn, neu ddod o hyd i'r plentyn, yn aflwyddiannus, yna dylid rhoi gwybod i'r heddlu bod y plentyn ar goll. Mae pobl eraill y dylid eu hysbysu yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, a chartref gofal preswyl y plentyn.

- Bydd yr heddlu yn cynnal asesiad risg i benderfynu ar ymateb priodol i adroddiad bod y plentyn ar goll. Yn y cyfamser, tra bydd y plentyn ar goll, dylai pob asiantaeth berthnasol gysylltu â'i gilydd er mwyn helpu i ddod o hyd i'r plentyn.

- Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal wedi cael ei ddarganfod, bydd yr heddlu yn cynnal 'Gwiriad Diogel ac Iach' i sicrhau bod y plentyn yn iawn. Nid yw hyn yr un fath â 'Chyfweliad Dychwelyd Adref'.

- Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol perthnasol ddychwelyd y plentyn i'w gartref, neu gymryd y camau priodol yn unol â gweithdrefnau diogelu.

- Pan fydd yn barod, dylid rhoi cyfle i'r plentyn siarad am y profiad o fynd ar goll. Gelwir hyn yn Gyfweliad Dychwelyd Adref. Caiff y cyfweliadau hyn weithiau eu cynnal gan sefydliadau'r trydydd sector mewn partneriaeth â'r heddlu.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyfeirio at Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan a roddwyd gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar unrhyw faterion cysylltiedig perthnasol fel Camfanteisio Rhywiol ar Blant, Masnachu Plant neu Gamfanteisio Troseddol ar Blant.[55]

**33.** Clywsom farn gymysg ar ba mor effeithiol y mae asiantaethau statudol yn ymateb i gyfnodau o fynd ar goll. Roedd rhai'n teimlo bod arfer adweithiol amlasiantaeth yn gymharol slic ac yn gweithio'n dda. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd yn cael eu cynnal am y plentyn yn dilyn cyfnod o fynd ar goll.

**34.** Fodd bynnag, teimlai eraill nad yw pob corff statudol yn cyflawni ei ddyletswyddau i hysbysu'r awdurdod lleol yn effeithiol, a all amharu ar

[55] Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu ofal', diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2021

ddigonolrwydd yr ymateb amlasiantaeth i ddigwyddiadau penodol. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod cartrefi gofal preswyl yn adrodd bod gwahanol awdurdodau lleol yn ymateb yn wahanol i gyfnodau o fynd ar goll. Ychwanegodd, yn dibynnu ar yr awdurdod lleol, nad yw staff gofal preswyl plant yn cymryd rhan yn gyson mewn cyfarfodydd pwysig am blant sy'n wynebu risg yn eu cartref. Roedd teimlad bod hyn yn anodd ei ddeall o ystyried mai hwy yw'r rhai sy'n rhoi gofal sylfaenol i'r plentyn.[56]

**35.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym eu bod yn cael trafferth monitro plant sy'n mynd ar goll.[57] Yn gyffredinol, roedd cytundeb nad yw'n briodol rhoi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant os yw wedi cael nifer o gyfnodau o fynd ar goll oni bai ei fod wedi wynebu risg sylweddol o niwed yn ystod y cyfnod ei hun. Fodd bynnag, clywsom nad oes systemau eraill ar waith i gadw golwg ar blant sy'n mynd ar goll yn rheolaidd. Dywedodd un rhanddeiliad wrthym fod Heddlu De Cymru wedi datblygu ei gofrestr ei hun o bobl coll risg uchel, y mae'n ei defnyddio i dargedu ymweliadau â phobl sy'n wynebu risg, a all atal niwed pellach.[58]

**36.** Yn ei phapur tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi comisiynu gwaith ymchwil i gynorthwyo â gwaith polisi yn y dyfodol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll. Mae'r gwaith ymchwil hwnnw wedi arwain at ffurfio grŵp cynghori polisi mewnol a grŵp rhanddeiliaid i ystyried sut yr ydym yn archwilio'r materion a godwyd yn y gwaith ymchwil yn ehangach gyda'r holl randdeiliaid allweddol. Disgwylid i'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal cyn diwedd mis Medi. Bydd y grŵp yn ystyried cyfweliadau dychwelyd (trafodir hyn ymhellach isod) ac yn cynorthwyo yn y gwaith adolygu a diwygio Canllawiau Arfer Cymru Gyfan. [59]

### Y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

**37.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a chyhoeddi Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol newydd, a fyddai'n cynnwys safonau ar gyfer yr ymateb i blant coll.[60] Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai'r "Fframwaith fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru,

---

[56] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 4-5
[57] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4
[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 4-5
[59] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 15
[60] Llywodraeth Cymru, 'Rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant', 1 Rhagfyr 2023

gan ategu {…} gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan”.[61] Mae’r fframwaith drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac nid yw wedi’i gyhoeddi.

**38.** Fodd bynnag, yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym ei bod yn ymddangos bod y gwaith o ddatblygu’r fframwaith wedi dod i ben am y tro. Nid yw’n glir pa gam yr oedd y gwaith hwnnw wedi’i gyrraedd, a beth yw’r camau nesaf. Ysgrifennodd Gweithredu dros Blant fel a ganlyn:[62]

> *“While the National Practice Framework Missing Standard is a positive step, there is room for improvement. A more child-focused and welfare-based approach would enhance its effectiveness.”*[63]

**39.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod gwaith “yn mynd rhagddo’n dda” i ddatblygu a chyflwyno’r fframwaith ymarfer. Mae’n ychwanegu mai diben y fframwaith yw “[c]yflawni mewn dull mwy cyson a gweithio mewn modd mwy di-dor ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan ddarparu’r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd wrth i ni newid i ddull sy’n sicrhau bod gwasanaethau’n bodloni gofynion pobl yn hytrach na bod pobl yn gorfod bodloni gofynion gwasanaethau.”[64] Fodd bynnag, eglurodd Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod awdurdodau lleol wedi adrodd yn ôl y gallai’r cynllun gwreiddiol – i greu 26 o safonau ychwanegol – greu dryswch. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi:

> *“… refocused that now into five standards that are very much looking at that multi-agency working: infrastructure, strategy, learning, governance and delivery. We’ve redrafted now that framework. It’s about to go out for further engagement and we will be underpinning that framework with a number of practice notes, and missing children will be within that first tranche that will be delivered by March next year. So, the plan is that we go back out, we’ve got feedback already that it’s in much better shape. We will then publish that by the end of the year, then we*

[61] Llywodraeth Cymru, ‘Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant – Cylchlythyr Newyddion‘, Medi 2023
[62] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ‘Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid‘, Medi 2024, tudalen 4
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[64] Llywodraeth Cymru, ‘Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg‘, Medi 2024, tudalen 11

> *will have the practice notes, and there will be a wide range of those."*

Ychwanegodd y bydd y safonau newydd yn gryno ac yn canolbwyntio ar ymarferwyr, ac y byddai hyfforddiant a datblygiad yn cyd-fynd â hwy er mwyn sefydlu'r fframweithiau ymarfer ar draws awdurdodau lleol.[65]

**'Cyfweliadau dychwelyd'**

**40.** Cawsom swm sylweddol o dystiolaeth am gyfweliadau dychwelyd (cyfeirir atynt fel 'Cyfweliadau Dychwelyd Adref' yng Nghanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, fel y nodir uchod). Cytunodd y sefydliadau a fynychodd ein digwyddiadau i randdeiliaid fod cyfweliadau dychwelyd yn arf diogelu hanfodol.[66] Dywed CASCADE wrthym fod cyfweliadau wedi datgelu gwybodaeth hanfodol ar gyfer diogelu ac ar gyfer targedu'r rhai sy'n uwch i fyny'r gadwyn camfanteisio.[67] Dywed Voices from Care Cymru wrthym fod mewnwelediadau a geir drwy gyfweliadau dychwelyd yn 'amhrisiadwy' o ran deall cymhlethdodau achosion plant coll a theilwra ymyriadau i ddiwallu anghenion penodol pob unigolyn.[68] Ysgrifennodd Cymdeithas y Plant y gall cyfweliadau dychwelyd helpu i nodi ffactorau 'gwthio a thynnu', i benderfynu ble'r oeddent, gyda phwy, ac i ddeall y rhesymau pam yr aethant ar goll. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i roi cymorth ar unwaith i'r person ifanc ac i atal cyfnodau o fynd ar goll yn y dyfodol.[69] Amlygodd NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant hefyd y gall cyfweliadau dychwelyd roi cyfle i blant sy'n ceisio lloches roi gwybod am gamfanteisio neu fasnachu mewn pobl cyn gynted â phosibl.[70]

**41.** Fodd bynnag, clywsom hefyd fod cyfweliadau dychwelyd yn cael eu cynnal yn anghyson ledled Cymru, ac mewn rhai achosion nad ydynt yn cael eu cynnal o gwbl.[71] Roedd Voices from Care Cymru, Cymdeithas y Plant a Cymorth i Ferched Cymru i gyd yn cytuno nad yw arferion cyfweld yn gyson, a bod profiadau pobl ifanc yn amrywio yn dibynnu ar ble maent yn byw.[72] Ar gyfer NYAS Cymru, mae'r

---

[65] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 34-39
[66] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[70] NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant, 'Missing the Point (Saesneg yn unig)', Tachwedd 2020, tudalen 15
[71] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 4
[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)

anghyfartaledd o ran mynediad at wasanaethau cyfweliad dychwelyd a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn rhannol oherwydd trefniadau comisiynu anghyson. Roeddent yn galw am fanyleb gwasanaeth Cymru gyfan o fewn fframwaith comisiynu.[73] Fe wnaethant, ochr yn ochr â Chymdeithas y Plant, egluro nad yw cyllid ar gyfer cyfweliadau dychwelyd yn gyson, ychwaith. Gallant gael eu hariannu gan yr heddlu lleol, awdurdodau lleol, neu hyd yn oed o grantiau neu ffynonellau incwm eraill.[74]

**42.** Ar gyfer Cymdeithas y Plant, mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn annigonol i sicrhau dull cyson a chadarn o ran cyfweliadau dychwelyd ledled Cymru:

> *"Here [are] key questions for which current [sic] the practice guide offers no advice: Who should conduct the return home interview? Does the interviewee need to be independent of the child's care? How quickly should a return home interview take place? Where should the return home interview happen? What is discussed in a return home interview and what happens next? What happens if a child refuses to take part in a return home interview? Who is responsible for a return home interview if a child lives 'out of area'? How is information from return home interviews to be collated and analysed?"*[75]

**43.** Ers 2014, mae cynnig cyfweliad dychwelyd annibynnol i'r holl bobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll wedi bod yn ddyletswydd statudol yn Lloegr. Clywsom nifer o alwadau am i gyfweliadau dychwelyd gael eu rhoi ar sail statudol yng Nghymru hefyd, er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau ymarferol.[76] Rhoddodd Barnardo's Cymru eu cefnogaeth i wneud cyfweliadau dychwelyd yn statudol, ond dim ond fel ffordd o wella cysondeb, arfer a chyllid:

> *"The priority for Return Home Interviews is for investment, training and support for staff, and for an embedded approach that is trauma-informed, relationship-based, child-centered [sic] and, importantly, independent. If the means to achieving*

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[74] NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant, 'Missing the Point (Saesneg yn unig)', Tachwedd 2020, tudalen 8
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant,'Missing the Point' (Saesneg yn unig), Tachwedd 2020, tudalen 15; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 5-6

> *this is by creating a statutory requirement, then we would support this."*[77]

**44.** Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y dylai plant a phobl ifanc allu penderfynu a ydynt yn derbyn y cynnig o gyfweliad dychwelyd, sut mae'n cael ei gynnal, a gyda phwy y mae'n cael ei gynnal.[78] Adroddodd Voices from Care Cymru farn gymysg iawn am gyfweliadau dychwelyd gan ei ddefnyddwyr gwasanaeth, gan ddod i'r casgliad y dylai'r cyfweliadau fod yn ddewisol.[79] Roedd NYAS Cymru yn cytuno. Fodd bynnag, ychwanegodd y dylai'r cynnig cyntaf o gyfweliad gael ei wneud o fewn 72 awr i'r cyfnod o fynd ar goll, ac os bydd y person ifanc yn gwrthod, dylid gwneud cynnig arall o fewn 1-2 wythnos.[80]

**45.** Dadleuodd NYAS Cymru, Voices from Care Cymru ac eraill y dylai pobl ifanc allu dewis pwy sy'n cynnal y cyfweliad dychwelyd, ac, yn hollbwysig, y dylai'r cyfwelydd fod yn annibynnol ar wasanaethau statudol, os yw'n well gan y person ifanc.[81]

**46.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol bod yr asiantaethau perthnasol yn gweithredu ar yr hyn y mae plant yn ei ddatgelu yn ystod cyfweliadau dychwelyd.[82] Dyfynnodd Voices from Care Cymru un person ifanc, a ddywedodd wrthynt:

> *"What was the point of me doing interview after interview saying that I'm not happy there and I didn't want to stay when no one took any notice and nothing changed. I just kept doing what I could do - running away from there."*

Roedd yn honni bod angen inni wrando ar blant sy'n mynd ar goll, a gweithredu'n unol â hynny.[83] Dadleuodd NYAS Cymru o blaid system adrodd ganolog ar gyfer cyfweliadau dychwelyd, er mwyn caniatáu i'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau gael ei rhannu ymhlith gweithwyr proffesiynol. Awgrymwyd y dylai

---

77 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
78 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 4
79 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
80 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
81 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM4 Education Otherwise (Saesneg yn unig)
82 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 6
83 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)

fod yn ofyniad statudol bod cyflwyniadau i'r system adrodd yn cael eu gwneud o fewn 72 awr i gynnal y cyfweliad.[84]

**47.** Fodd bynnag, er gwaethaf cysondeb y dystiolaeth a gawsom am gyfweliadau dychwelyd, dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wrthym na chanfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gonsensws ynghylch a ddylai cyfweliadau dychwelyd adref fod yn orfodol a phwy ddylai eu cynnal. Rydym yn nodi nad yw'r gwaith ymchwil hwn wedi'i roi yn y parth cyhoeddus ac rydym wedi gwthio'r Gweinidog am eglurder ar y pwynt hwn, gan bwysleisio bod y dystiolaeth yr ydym wedi'i chael yn argymell gofyniad o ran *cynnig* gorfodol, nid cyfweliad gorfodol. Ailddatganodd y Gweinidog farn Llywodraeth Cymru nad yw cynnig gorfodol yn gyson â'r hyn y mae plant a phobl ifanc eu hunain yn galw amdano.[85]

### Ein barn ni

#### Dangosydd trallod, a ffactor risg a symptom gwthio i'r ymylon

**48.** I lawer o blant, mae mynd ar goll yn arwydd o drallod. Ffordd o gyfathrebu i'r bobl o'u cwmpas bod rhywbeth yn mynd o'i le. Mae'n bosibl y bydd rhai plant, yn enwedig y rhai mewn gofal, yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond pleidleisio â'u traed. Efallai y byddant yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed, neu nad oes unrhyw un yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud. Yn y cyd-destun hwnnw, mae mynd ar goll yn rhybudd cynnar i asiantaethau bod angen cymorth ar blentyn sy'n agored i niwed.

**49.** Rydym hefyd yn nodi bod mynd ar goll yn ffactor risg ynddo'i hun. Roeddem yn bryderus o glywed am ganfyddiadau gwaith ymchwil gan Llamau sy'n nodi bod cyfran uchel o'r plant y maent yn eu cyfweld yn dilyn cyfnod o fynd ar goll yn dangos arwyddion o gamfanteisio rhywiol neu droseddol. Mae llawer o blant hefyd yn mynd ar goll o ganlyniad i'w rhan mewn gweithgareddau troseddol, y byddwn yn eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**50.** Mae cryfder yr ymatebion a gawsom gan asiantaethau statudol ac anstatudol i'n galwadau am dystiolaeth yn galonogol inni. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i weithio gyda phlant i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol cyfnodau o fynd ar goll, ac

[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)
[85] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 42-47

yn dangos bod plant sy'n mynd ar goll yn uchel ar agenda y rhai sydd ar y rheng flaen.

**51.** Yn anffodus, nid ydym yn credu bod dull gweithredu presennol Llywodraeth Cymru yn dangos dealltwriaeth lawn o sut mae cyfnodau o fynd ar goll yn cyd-fynd â'r darlun ehangach o gamfanteisio a gwthio plant a phobl ifanc i'r ymylon. Nid ymddengys ychwaith bod Llywodraeth Cymru yn dangos ymdeimlad o frys yn ei hymateb polisi y dylai amgylchiadau'r plant hyn fynnu. Gall Llywodraeth Cymru wneud mwy, a dylai wneud mwy.

**Data**

**52.** Rydym yn cydnabod gwerth a phŵer data fel arf hollbwysig ar gyfer datblygu polisi. Mae pryderon ynghylch casglu data yn llinyn sydd wedi rhedeg drwy gydol ein gwaith yn ystod y Senedd hon. Ailadroddwn yma yr hyn yr ydym wedi'i ganfod dro ar ôl tro: heb gasglu a chyhoeddi data cywir a dibynadwy mae'n amhosibl deall natur yr heriau sy'n ein hwynebu, heb sôn am weithio gyda'n gilydd ar sut i'w goresgyn.

**53.** Yn amlwg, nid yw rhywbeth yn gweithio fel y dylai pan fo awdurdod lleol yn adrodd am fwy o blant unigol sy'n mynd ar goll o ofal na chyfanswm y plant a oedd mewn gofal ar y pryd. Neu os mai dim ond 16 o blant sy'n adrodd eu bod wedi mynd ar goll o awdurdod lleol sydd â dros 1,000 o blant mewn gofal. Mae'n awgrymu inni nad oes unrhyw arolygiaeth wirioneddol gan unrhyw un o'r hyn y mae'r ystadegau hyn fel y'u cyhoeddwyd yn ei ddweud wrthym.

**54.** Ni chredwn y gellir dod i unrhyw gasgliadau o ddata y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi ar hyn o bryd ar blant sydd ar goll o ofal. Yn waeth: mae'n ymddangos efallai nad yw'r data yn bodloni hyd yn oed trothwyon ansawdd sylfaenol. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr anghywirdebau hyn, ac yn diweddaru ei chanllawiau yn unol â hynny. Ond credwn y dylai fynd ymhellach.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a heddluoedd i gymryd camau cadarn, ar unwaith i sicrhau bod y data y mae'n eu cyhoeddi am blant sydd ar goll o ofal a chyfnodau o fynd ar goll ymhlith plant sy'n derbyn gofal a chymorth (a geir gan awdurdodau lleol) yn gywir ac yn ddibynadwy. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion a nodwyd gan y bartneriaeth a'r camau a gymerwyd.

**55.** Rydym yn deall bod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn arbennig o agored i fynd ar goll. O'n holl waith ar y system ofal hyd yma rydym yn cydnabod bod gan y bregusrwydd hwn sawl achos: y trawma y mae llawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i brofi, diffyg system cymorth teulu cariadus, a'r lleoliadau o ansawdd gwael a hyd yn oed amhriodol yn rhy aml y mae llawer o blant yn cael eu gorfodi i'w dioddef. Rydym yn drist, ond nid ydym yn synnu, bod cyfran sylweddol o gyfnodau o fynd ar goll yn ymwneud â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**56.** Rydym hefyd yn rhannu pryderon rhanddeiliaid nad yw llawer – os nad y rhan fwyaf – o blant sy'n mynd ar goll mewn gofal. Ar hyn o bryd, mae'r plant hyn yn gwbl absennol o ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd gweld sut y gellir datblygu ymatebion polisi da heb ffeithiau cadarn. Nodwn fod data am gyfnodau o fynd ar goll yn gyffredinol ar gael gan yr UKMPU. Fodd bynnag, nid yw data UKMPU yn cael eu dadansoddi ar lefel y manylder sydd ei angen arnom ar gyfer datblygu polisi yma yng Nghymru, ac yn anffodus mae llawer o'r data ar goll ar gyfer heddluoedd Cymru.

**57.** Mae gan ddata Llywodraeth Cymru a gafwyd gan awdurdodau lleol fylchau mawr ac amlwg a fydd yn parhau hyd yn oed os caiff y materion o ran ansawdd y data a nodir uchod eu hunioni. Rydym yn cydnabod y gall fod heriau wrth weithio ochr yn ochr â heddluoedd ac awdurdodau lleol i ddod â'r holl ddata hyn i un lle a sicrhau eu bod yn addas i'w cyhoeddi. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai fynd i'r afael â'r diffygion hyn a gweithio tuag at un datganiad data dibynadwy a chynhwysfawr sy'n cwmpasu'r holl gyfnodau o fynd ar goll yng Nghymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu datganiad data sydd mor gywir, dibynadwy a chynhwysfawr â phosibl, ac sy'n cwmpasu pob cyfnod o blant sy'n mynd ar goll yng Nghymru. Dylid dadansoddi'r data ar wahân yn ôl oedran, profiad o fod mewn gofal, awdurdod lleol, y prif reswm dros fynd ar goll (os yw'n hysbys), ac ar y cyd â rhanddeiliaid, unrhyw ffactorau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn ddefnyddiol at ddibenion datblygu polisi.

### Gwella cysondeb yn yr ymateb i gyfnodau o fynd ar goll

**58.** Mae meysydd gwaith hanfodol bwysig a fydd yn cefnogi ymdrechion asiantaethau i leihau graddfa ac effaith cyfnodau o fynd ar goll, megis gwella presenoldeb yn yr ysgol, osgoi unrhyw ddarpariaeth answyddogol 'oddi ar y gofrestr' a darpariaeth EOTAS amser llawn amgen, gan ddarparu lleoliadau o

ansawdd uchel i blant mewn gofal, ymyrraeth gynnar i deuluoedd mewn argyfwng, ac ati. Trafodir y materion hyn mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

**59.** Ond o ran yr ymateb uniongyrchol i gyfnodau o fynd ar goll, rydym wedi clywed tystiolaeth aruthrol bod cyfweliadau dychwelyd yn arf hanfodol i asiantaethau diogelu ddeall yn well beth sydd wedi arwain at y plentyn yn mynd ar goll, pa beryglon a wynebodd tra roedd ar goll, ac – yn hollbwysig – sut i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn mynd ar goll eto. Felly, rydym yn bryderus iawn ynghylch yr anghysondeb o ran cynnal cyfweliadau dychwelyd ledled Cymru.

**60.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym y bydd y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol sydd wedi'i ohirio yn gwella cydweithredu a chysondeb ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol drwy gynnwys dull ymarfer safonol o ymdrin â phlant sy'n mynd ar goll. Er ein bod yn croesawu'r potensial hwnnw ar gyfer gwella, rydym wedi nodi nad yw oedi i'r fframwaith wedi bod ymhlith prif bryderon y sefydliadau y cawsom dystiolaeth ganddynt. Nid ydym yn argyhoeddedig mai'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol diwygiedig yw'r newid hollbwysig sydd ei angen ar y sector.

**61.** Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth hynod gyson am yr angen i gynnig cyfweliadau dychwelyd i bob plentyn sy'n mynd ar goll, ac i'r cyfweliadau gael eu cynnal yn fwy cyson. Clywsom mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai gwneud y cynnig o gyfweliad dychwelyd yn orfodol, yn ôl y gyfraith.

**62.** Felly, cawsom ein synnu pan ddywedodd y Gweinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym nad oes consensws ynghylch a ddylid cael cynnig gorfodol o gyfweliad dychwelyd yn dilyn pob cyfnod o fynd ar goll. Rydym yn cydnabod na fydd pob plentyn eisiau cyfweliad dychwelyd, ond os bydd *cynnig* yn orfodol – nid y cyfweliad – bydd plant yn gallu gwrthod cyfweliad os ydynt am wneud hynny. Nid ydym wedi clywed unrhyw ddadl argyhoeddedig eto ynghylch pam y bydd cynnig sgwrs i bob plentyn sy'n mynd ar goll gydag oedolyn yr ymddiriedir ynddo i ddysgu mwy am y cyfnod o fynd ar goll yn gwneud unrhyw beth heblaw gwella arferion diogelu.

**63.** Rydym hefyd yn cefnogi galwadau i'r plentyn allu enwebu pwy sy'n cynnal y cyfweliad: aelod o'r heddlu, gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth neu weithiwr elusen annibynnol. Rhaid i gyfweliadau dychwelyd barhau i ganolbwyntio ar y plentyn. Mae rhoi'r hawl i'r plentyn ddewis pwy y mae'n siarad ag ef o blith amrywiaeth o oedolion sydd wedi'u hyfforddi ac y gellir ymddiried ynddynt yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y plentyn yn teimlo ei fod yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses.

**64.** Fodd bynnag, rydym yn wyliadwrus y gallai cael amrywiaeth o oedolion yn cynnal cyfweliadau dychwelyd ei gwneud yn fwy anodd cael dull gweithredu cyson ledled Cymru. Felly, dylai Llywodraeth Cymru gynnig canllawiau clir a phendant ar sut y dylid cynnal cyfweliadau dychwelyd i gyd-fynd â gofyniad statudol newydd am y cyfweliadau hyn.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio deddfwriaeth i wneud y cynnig o gyfweliad dychwelyd yn ofyniad statudol ar ôl pob cyfnod o fynd ar goll. Dylai'r plentyn gael yr hawl i benderfynu pwy sy'n cynnal y cyfweliad hwnnw o blith cronfa o oedolion cymwys y gellir ymddiried ynddynt, a dylid cyhoeddi canllawiau statudol cadarn i ymarferwyr i nodi'n glir sut y dylid cynnal cyfweliadau dychwelyd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru greu ffurflen i ymarferwyr ei defnyddio sy'n nodi a gafodd cynnig cyfweliad dychwelyd ei dderbyn neu ei wrthod, er mwyn gallu rhannu'r data hyn yn hawdd â rhanddeiliaid perthnasol.

## Plant sy'n destun camfanteisio troseddol

### Diffiniad o Gamfanteisio Troseddol ar Blant

**65.** Nid oes diffiniad cyfreithiol penodol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Yn lle hynny, mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â chamfanteisio troseddol ar blant yn dod o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, Deddf Herwgydio Plant 1984 a Deddf Plant 1989.[86] Daw diffiniad mwyaf diweddar Llywodraeth y DU o Gamfanteisio Troseddol ar Blant o'i Strategaeth Trais Difrifol 2018:

> *"Child Criminal Exploitation occurs where an individual or group takes advantage of an imbalance of power to coerce, control, manipulate or deceive a child or young person under the age of 18 into any criminal activity (a) in exchange for something the victim needs or wants, and/or (b) for the financial or other advantage of the perpetrator or facilitator and/or (c) through violence or the threat of violence. The victim may have been criminally exploited even if the activity appears consensual. Child Criminal Exploitation does not always involve*

[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig);

*physical contact; it can also occur through the use of technology".*[87]

**66.** Mae llawer o agweddau ar y fframweithiau cyfreithiol wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU a Senedd y DU. Fodd bynnag, mae diffiniad anstatudol o gamfanteisio troseddol ar blant yng Nghymru, a dynnwyd o Ganllaw Ymarfer Cymru Gyfan, sy'n cefnogi Gweithdrefnau Diogelu Cymru:

> ***"Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB)…***
>
> ***… Mae'n fath o gam-drin plant sy'n cynnwys camfanteisio troseddol ac sydd eisiau ymateb diogelu***
>
> *Mae plant yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys cludo cyffuriau neu arian sy'n arwain at enillion personol ar gyfer unigolyn, grŵp neu gang troseddol cyfundrefnol*
>
> ***… Mae'n cynnwys plentyn***
>
> *Mae'n digwydd i'r rheiny sydd hyd at 18 oed.*
>
> ***… Mae'n cynnwys gweithgareddau denu a/neu orfodi***
>
> *Mae'n cynnwys elfen o gyfnewid a gall fod yn weithgaredd camfanteisio hyd yn oed os yw'n ymddangos yn wirfoddol.*
>
> *Gall gynnwys dulliau gorfodi a/neu ddenu i gydymffurfio a bydd yn aml yn mynd law yn llaw â bygythiadau a thrais.*
>
> *Mae'n nodweddiadol gyda rhyw ffurf o anghydbwysedd pŵer sy'n ffafrio'r rheiny sy'n camfanteisio.*[88]

**67.** Clywsom yn gyson, gan amrywiaeth o wahanol randdeiliaid, fod diffyg diffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn llesteirio ymdrechion cyrff statudol ac anstatudol i amddiffyn plant rhag camfanteisio.[89] Dywedodd rhanddeiliaid wrthym, heb ddiffiniad statudol:

[87] Llywodraeth EF, 'Strategaeth Trais Difrifol (Saesneg yn unig)', Ebrill 2018, tudalen 48
[88] Wedi'i addasu o: Gweithdrefnau Diogelu Cymru,'Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB)', diweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2021
[89] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5

- Nad oes dealltwriaeth gyson o gamfanteisio troseddol na dangosyddion cynnar meithrin perthynas amhriodol ar draws asiantaethau diogelu. O ganlyniad i hyn, nid oes dealltwriaeth gydlynol bod plant sy'n cyflawni troseddau oherwydd camfanteisio yn ddioddefwyr, yn hytrach na'n gyflawnwyr trosedd. Gall hyn gyfyngu ar ffocws asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar y rhai sy'n trin, twyllo, neu'n defnyddio gorfodaeth a rheoli plant i ymgymryd â gweithgarwch troseddol.[90]

- Nid yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi digon o ffocws ar fathau difrifol, ond llai adnabyddus, o gamfanteisio (fel plant lle mae aelodau o'r teulu neu unigolion lleol yn camfanteisio arnynt, neu grwpiau mewn ardaloedd o Gymru sydd wedi cadw dulliau mwy traddodiadol o gyflenwi cyffuriau).[91]

- Nid oes sail gyfreithiol gadarn i wasanaethau ymyrryd, ac nid oes unrhyw asiantaeth arweiniol glir i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant.[92]

- Mae anghysondebau yn y ddealltwriaeth o effaith camfanteisio troseddol ar blant, gan rwystro gwaith amlasiantaeth,[93] a diffyg ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant[94].

- Mae dulliau anghyson o gofnodi data sy'n ymwneud â Chamfanteisio Troseddol ar Blant, sy'n ei gwneud yn anodd mesur y gwir natur a graddfa (trafodir data a graddfa yn fanylach isod).[95]

**68.** Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ("Ysgrifennydd y Cabinet") am ei barn ynghylch a ddylai fod diffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant, cyfeiriodd at Fil Troseddu a Phlismona Llywodraeth y DU sydd ar ddod. Dywedodd wrthym ei bod yn 'ddyddiau cynnar' i Lywodraeth Cymru ddod i farn ar ddiffiniad statudol, ac y

[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[92] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), March 2024, page 41; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[95] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)

byddai angen iddi weld beth sy'n dod i'r amlwg o'r ddeddfwriaeth ddrafft, a'i goblygiadau i Gymru.[96]

## Camfanteisio Troseddol ar Blant yn ymarferol

**69.** Efallai mai 'llinellau cyffuriau' yw'r math o Gamfanteisio Troseddol ar Blant sy'n cael ei grybwyll amlaf, ac sy'n cael ei ddeall yn gyffredinol. Nodir yn Adolygiad Jay:

> *"County lines is referred to regularly by government strategy and national agencies… with well-networked, well-funded professional groups operating at a national or international level to bring large quantities of drugs into the UK, and a chain of command running down to local areas in which children provide an expendable workforce."*[97]

**70.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Cymorth i Ferched Cymru inni yn nodi bod adroddiadau cynyddol am gangiau llinellau cyffuriau yn lledu ar draws y ffin ac yn camfanteisio ar bobl ifanc mewn cymunedau mwy gwledig yng Nghymru.[98] Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol y gall plant gael eu masnachu ledled Cymru, a hyd yn oed ar draws ffiniau. Soniodd un gweithiwr proffesiynol y rheng flaen wrthym am un person ifanc a oedd wedi cael ei dagio'n electronig o ganlyniad i orchymyn llys, yr oedd asiantaethau wedyn yn gallu olrhain ei symudiadau. Gallent weld yr aed â'r plentyn allan i'r môr, gan ddocio yn Lerpwl, yna cafodd ei olrhain yn ôl i ogledd Cymru. Clywsom fod plant mor ifanc ag 11 oed yn cael eu targedu, ac roedd phryderon bod rhai gangiau'n cael eu hystyried mor llwyddiannus wrth recriwtio fel eu bod ymhlith cyflogwyr mwyaf pobl ifanc mewn rhai ardaloedd.[99]

**71.** Fodd bynnag, nid yw pob achos o Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn dod o dan y diffiniad o 'linellau cyffuriau'. Soniodd rhanddeiliaid am ystod eang o weithgarwch troseddol yn ymwneud â phlant, ar wahanol ffurfiau mewn gwahanol rannau o Gymru. Cytunodd Voices from Care Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod ymwneud â gangiau neu droseddau cyfundrefnol yn tueddu i fod yn amlycach mewn ardaloedd trefol sydd â lefelau uwch o

[96] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 60-64
[97] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 15
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[99] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 7-9

amddifadedd cymdeithasol a gweithgarwch gangiau.[100] Sylwodd Gweithredu dros Blant, yng Nghaerdydd yn arbennig, fod lefelau cyson uchel o drais a chystadleuaeth yn ymwneud â gangiau, gyda grwpiau troseddau cyfundrefnol lleol yn rheoli gweithrediadau yn bennaf – gan gynnwys camfanteisio ar blant – yn yr ardal ei hun, yn hytrach nag ar draws siroedd/gwledydd.[101] Dywedodd Ymddiriedolaeth St Giles fod yr achosion yn ardal ehangach Casnewydd yn llai tebygol o fod i'w priodoli i weithgarwch gangiau. Canfuwyd bod y rhwydweithiau dosbarthu cyffuriau lleol presennol wedi'u hen sefydlu ac felly mae gwahanol fathau o gamfanteisio ar blant wedi datblygu, gan gynnwys nifer yr achosion o aelodau ehangach o deulu'r plentyn yn camfanteisio fel rhan o batrymau camfanteisio rhwng cenedlaethau. Roedd gweithwyr proffesiynol eraill yn ein digwyddiadau i randdeiliaid yn cytuno.[102] Mynegodd Barnardo's Cymru bryder ynghylch y cynnydd mewn camfanteisio sy'n cael ei hwyluso ar-lein, gan greu mwy o risgiau i blant a phobl ifanc pan fyddant yn gorfforol ddiogel yn y cartref.[103]

**72.** Clywsom hefyd fod dulliau camfanteisio ar blant mor amrywiol â natur y gweithgarwch troseddol ei hun. Yn gyffredinol, bydd technegau camfanteisio mwy soffistigedig yn cael eu defnyddio gan grwpiau troseddol mwy proffesiynol sydd wedi'u hariannu'n dda, o gymharu â 'deinameg mwy anhrefnus' gangiau stryd trefol.[104]

**73.** Dywedodd Voices from Care Cymru wrthym y gall cyflawnwyr gamfanteisio ar wendidau ariannol plant, diffyg cyfleoedd cyflogaeth, neu awydd am eiddo materol i'w troi at weithgareddau anghyfreithlon.[105] Eglurodd CASCADE fod camfanteisio yn aml yn argyhoeddi'r plentyn bod y rhai sy'n camfanteisio arnynt yn ffrindiau, yna'n sicrhau bod rhieni'n derbyn negeseuon rheolaidd o ffôn y plentyn i dawelu ofnau'r rhieni os yw'r plentyn wedi mynd ar goll, a'u gwneud yn llai tebygol o gysylltu â'r heddlu.[106] Mae Gweithredu dros Blant wedi dogfennu ehangder y gweithgarwch troseddol y gall plant fod yn rhan ohono:

> *"The methods of exploitation vary widely, but most children are drawn into activities such as drug dealing and distribution,*

[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 9
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[104] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 15
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)

*burglary, violence, disorder offences, and motor offences. Many of these children carry weapons, either because they are instructed to do so by exploiters or for their own safety. During sessions, children often wear stab-proof vests, reflecting their sense of vulnerability within their local communities."*[107]

**74.** Fodd bynnag, mae adolygiad Jay yn egluro, er gwaethaf yr amrywiadau helaeth hyn, unwaith y bydd y broses o feithrin perthynas amhriodol wedi dechrau, mae'n tueddu i ddilyn patrwm nodweddiadol:

*"The process of exploitation unfolds through a series of incremental steps, marked by a mix of incentives, coercion and threats. The Children's Society explains the cycle of exploitation through stages of 'target', 'test', 'trap', which provides a useful approach to understand children's experiences."*[108]

**75.** Fel enghraifft o sut mae plant yn cael eu 'caethiwo', clywsom am yr hyn a elwir yn 'gaethiwed dyled', lle mae plant sydd wedi'u troseddoli yn mynd i ddyled ariannol i'r rhai sy'n camfanteisio arnynt, ac o ganlyniad maent yn rhwym i'r bobl hyn ac i weithgarwch troseddol parhaus i dalu eu dyled. Gall y caethiwed dyled gael ei greu os caiff y plentyn ei arestio â chyffuriau a atafaelir wedyn gan yr heddlu, neu os caiff y plentyn ei fygio gan aelodau o gangiau cystadleuol.[109] Bydd rhai gangiau troseddol hyd yn oed yn cynhyrchu dyled ariannol yn fwriadol i ddal y plentyn mewn caethiwed dyled, er enghraifft drwy drefnu i fygio'r person ifanc tra bod ganddo gyffuriau neu arian parod y gang.[110]

**76.** Amlygodd Cymdeithas Seicolegol Prydain, unwaith y bydd y plentyn yn colli ei fyffrau amddiffynnol arferol (fel teulu a ffrindiau), efallai y bydd yn ceisio perthyn i rywle arall ac yn dueddol o gael cymunedau ac amgylcheddau sy'n anniogel neu'n beryglus.[111] Roedd rhanddeiliaid eraill yn cytuno, gan ddweud wrthym, i

[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[108] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 27, yn dyfynnu Cymdeithas y Plant, 'Counting Lives: Responding to children who are criminally exploited' (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2019, tudalennau 8-9
[109] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 9
[110] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 28
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)

lawer o fechgyn ifanc, mai eu cymhelliad dros gael eu denu i gangiau yw cael ymdeimlad o berthyn sydd ei angen yn fawr, yn hytrach nag arian.[112]

**77.** Ategwyd y dystiolaeth ysgrifenedig hon gan y bobl ifanc sydd â phrofiad byw o droseddoli a siaradodd â'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Gwnaethant ddisgrifio patrwm cyffredin lle mae gangiau troseddol yn targedu ac yn dylanwadu ar bobl ifanc sy'n agored i niwed, gan eu denu'n raddol i fywyd o droseddu. Pwysleisiwyd nad yw'r broses recriwtio hon yn digwydd ar hap, ac mae'n dibynnu ar ymwybyddiaeth y gang o'r ardal leol a'u gallu i adnabod plant sydd i'w gweld wedi'u hynysu neu heb oruchwyliaeth. Mae aelodau'r gang yn gwylio'r plant hyn dros amser i asesu pa rai sy'n debygol o fod yn agored i'w dylanwad. Cawsom wybod bod gangiau'n aml yn camfanteisio ar anghenion emosiynol y bobl ifanc hyn, gan gyflwyno eu hunain fel ffigurau tadol neu fentoriaid gofalgar i blant a allai fod heb gefnogaeth deuluol sefydlog. Mae'r ymdeimlad ffug hwn o berthyn a gofal yn denu llawer o bobl ifanc i fywyd mewn gang. Unwaith y byddant yn cymryd rhan, mae'r bobl ifanc yn cael eu tynnu'n ddyfnach drwy dasgau a ffafrau bach, sy'n cynyddu'n gyflym i ddod yn weithgareddau troseddol mwy difrifol. Yn raddol, mae cylch dyled, rhwymedigaethau, a dibyniaeth yn cael ei greu, gan ei gwneud yn fwyfwy anodd i'r person ifanc adael.[113]

**78.** Unwaith y bydd plant yn gysylltiedig â gweithgarwch troseddol difrifol, maent yn aml yn agored i lefelau creulon o drais, fel y mae Adolygiad Jay yn ei ddogfennu:

> *"The level of violence described by children and parents in evidence was shocking. We heard examples of children being hit by cars, stabbed, burned with acid, sexually assaulted and beaten. Often their attackers were other children, sometimes those they had previously viewed as friends."*[114]

**79.** Pwysleisiodd Gweithredu dros Blant ac eraill y gall y camfanteisio difrifol y gall plant ei brofi achosi trallod seicolegol, trais corfforol, aflonyddwch teuluol, a

[112] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5
[113] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalennau 7-8
[114] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 33

chael eu symud o'u cymunedau. Mae'r trawma hwn yn cael effeithiau sy'n newid bywydau ein plant, pobl ifanc a theuluoedd.[115]

## Graddfa a data

**80.** Ar hyn o bryd mae'n amhosibl gwybod yn bendant beth yw gwir raddfa Camfanteisio Troseddol ar Blant. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes gan Camfanteisio Troseddol ar Blant ddiffiniad statudol, fel y trafodir uchod, ac yn rhannol oherwydd nad oes dull swyddogol, wedi'i ddilysu o gasglu data ledled y DU.[116] Mae datganiad data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) ar blant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn rhybuddio nad oes un ffynhonnell ddata sy'n meintioli'n gywir nifer y plant sy'n ddioddefwyr yn y DU. Dywed ar hyn o bryd fod y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (y Fframwaith), sef fframwaith DU gyfan ar gyfer nodi ac atgyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern, yn darparu'r mesur gorau o ddioddefwyr posibl, er ei fod yn hysbys ei fod yn dangyfrif.[117] Mae'r data hyn wedi'u nodi yn ffigur 1. Rydym yn trafod y Mecanwaith ei hun yn fanylach isod.

***Ffigur 2: Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau i'r Fframwaith, gyda phenderfyniadau ar sail atgyfeirio cadarnhaol gan blant mewn print bras ac mewn cromfachau, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ôl blwyddyn galendr.*** [118]

| | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| **Lloegr** | 4,159 (**3,648**) | 4,583 (**4,260**) | 4,979 (**4,516**) |
| **Yr Alban** | 156 (**149**) | 119 (**103**) | 104 (**97**) |
| **Cymru** | 175 (**159**) | 217 (**209**) | 291 (**264**) |
| **Heddlu Trafnidiaeth Prydain** | 47 (**40**) | 82 (**76**) | 53 (**53**) |

**81.** Mae Llywodraeth Cymru yn egluro bod yn rhaid i ddarparwyr cartrefi gofal preswyl a darparwyr gwasanaethau maethu hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yr

[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children', Mawrth 2024, tudalen 35
[116] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 51
[117] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Plant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn y DU: Mawrth 2022' (Saesneg yn unig), 29 Mawrth 2022
[118] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Plant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn y DU' (Saesneg yn unig), 29 Mawrth 2022. Nid yw Gogledd Iwerddon wedi'i chynnwys gan nad yw'r

awdurdod lleoli, eu hawdurdod lleol eu hunain a'r heddlu am unrhyw achos (neu achos a amheuir) o Gamfanteisio Rhywiol ar Blant neu Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Mae'r papur yn nodi bod 89 o hysbysiadau o'r fath yn 2022-23, ac 82 yn 2023-24.[119]


**82.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu ac yn cyhoeddi data am nifer yr achosion o gamfanteisio ar blant mewn cyfarfodydd strategaeth (a gynhelir pan fo achos i gredu y gallent fod yn wynebu risg neu'n dioddef niwed sylweddol). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhybuddio bod "rhai pryderon ynghylch y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cofnodi ac yn adrodd ar y data hwn", gan ychwanegu bod "gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu'n ddibynadwy ac yn gyson ar draws pob rhanbarth."[120] Mae ffigur 3 isod yn cyfuno'r data hyn gyda data poblogaeth plant i gymharu cyfradd yr achosion o Gamfanteisio Troseddol ar Blant fesul 1,000 o blant ar draws awdurdodau lleol.

rhan fwyaf o'r data cyfatebol ar gael. Cafodd atgyfeiriadau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain eu rhannu o Loegr yn 2019.

[119] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 6

[120] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Phrif Chwip a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024

***Ffigur 3. Y gyfradd fesul 1,000 o blant o gyfarfodydd strategaeth am blentyn lle'r oedd 'camfanteisio troseddol ar blant' yn un ffactor camfanteisio (ar gyfer blynyddoedd 2020-21 a 2021-22)/y prif ffactor camfanteisio (ar gyfer 2022-23).[121] Gall yr un plentyn fod yn gysylltiedig â sawl achos o gamfanteisio troseddol ar blant.***




**83.** Gan wneud sylw ar raddfa Camfanteisio Troseddol ar Blant, awgrymodd Cymorth i Ferched Cymru fod gwahaniaethau rhanbarthol o ran mynychder a chyffredinolrwydd ledled Cymru, gyda hyn yn hynod gyffredin mewn rhai ardaloedd ond yn gymharol brin mewn eraill.[122] Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod 2,612 o blant rhwng 10 a 17 oed wedi'u harestio am droseddau hysbysadwy (troseddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gofnodi digwyddiad fel trosedd ac adrodd am y digwyddiad i'r Swyddfa Gartref) yng Nghymru yn 2020-21, ond nododd gafeat ar gyfer y ffigur hwnnw drwy egluro y bydd llawer o

[121] StatsCymru, 'Nifer y plant a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd camfanteisio ar blant yn ffactor, yn ôl awdurdod lleol', diweddarwyd ddiwethaf 9 Ebrill 2024. Er gwybodaeth, gallai cyfarfodydd strategaeth lluosog fod wedi cael eu cynnal am yr un plentyn dros gyfnod o flwyddyn. Ar gyfer 2020-21 a 2021-22, cafodd unrhyw ffactorau camfanteisio ar blant a godwyd am blentyn yn yr un cyfarfod strategaeth eu cynnwys yn y data (e.e., pe bai camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio rhywiol ar blant yn cael eu cofnodi am yr un plentyn yn ystod yr un cyfarfod strategaeth, byddai'r ddau ffactor wedi'u cofnodi). Fodd bynnag, ar gyfer 2022-23, dim ond y prif ffactor camfanteisio a gafodd ei gynnwys (e.e. pe bai camfanteisio troseddol ar blant a chamfanteisio rhywiol ar blant yn cael eu cofnodi am yr un plentyn yn ystod yr un cyfarfod strategaeth, byddai naill ai camfanteisio troseddol ar blant neu camfanteisio rhywiol ar blant wedi'i gofnodi, yn dibynnu ar ba un oedd y prif ffactor).
[122] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)

bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol ond heb gael eu cyhuddo.[123] Ceisiodd Barnardo's Cymru gasglu data am raddfa Camfanteisio Troseddol ar Blant yn 2021 drwy gais Rhyddid Gwybodaeth i heddluoedd, ond dim ond un heddlu oedd yn gallu darparu unrhyw ddata.[124]

**84.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod diffyg data dibynadwy yn llesteirio ymdrechion i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yng Nghymru.[125] Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrthym fod Camfanteisio Troseddol ar Blant yn fath hynod gudd o gam-drin sy'n golygu ei bod yn anodd cael darlun cywir o'i gyffredinrwydd.[126] Nodir yn Adolygiad Jay:


> *"… a lack of local and national data, information sharing and systemic learning is hindering the ability of practitioners, agencies and government to understand the scale and extent of the criminal exploitation of children, patterns of criminal activity, priority areas of focus and whether progress is being made."*[127]

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg data, mae rhanddeiliaid, gan gynnwys NYAS Cymru, yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella tryloywder data, drwy gasglu'n annibynnol a gwthio data ar Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn flynyddol, gan gynnwys data ar atgyfeiriadau o Gymru i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.[128]

**85.** Yn ystod gwaith craffu ar lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod yn rhaid inni fod yn bryderus iawn ynghylch y ffaith bod camfanteisio troseddol ar blant yn fath o gamfanteisio a nodir yn aml yng Nghymru. Ychwanegodd fod 59 y cant o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024 ar gyfer plant, a bod 49 y cant o atgyfeiriadau ar gyfer camfanteisio troseddol.[129] Wedi hynny, darparodd ragor o fanylion i'r Pwyllgor mewn gohebiaeth: gweler ffigur 4 isod.

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[124] Barnardo's,'Child Exploitation: A Hidden Crisis (Saesneg yn unig)', Mehefin 2023, tudalen 4
[125] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[127] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 67
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 13
[129] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 52-59

***Ffigur 4: Atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer plant sy'n rhoi gwybod am gamfanteisio troseddol yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn 2023 ledled rhanbarthau Cymru.***[130]




## Ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant

### Gweithio ar draws awdurdodaethau: y fframwaith deddfwriaethol

**86.** Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael eu darparu gan amrywiaeth o wahanol asiantaethau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru (e.e. addysg, tai, camddefnyddio sylweddau, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol). Felly, caiff arweinyddiaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ei darparu fel partneriaeth rhwng sefydliadau datganoledig a sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli.[131]

**87.** Mae Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn gynllun gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, neu sy'n wynebu risg o fynd i mewn iddi.[132] Mae'r glasbrint yn nodi ei fod yn defnyddio dull 'plant yn gyntaf' sy'n seiliedig ar drawma, gyda

[130] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024
[131] Tystiolaeth ysgrifenedig, MJW 11 Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Saesneg yn unig)
[132] Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi pobl ifanc sy'n troseddu', 21 Mai 2019

ffocws ar atal i "[O]stwng nifer y plant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid trwy ddargyfeirio'n effeithiol ac atal troseddu trwy fynd i'r afael â'r bregusrwydd sy'n arwain at droseddu yn aml."[133]

**88.** Pwysleisiodd Cymdeithas Seicolegol Prydain inni bwysigrwydd y glasbrint i greu system fwy effeithiol, teg a thosturiol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau pobl ifanc.[134] Roed Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru yn cytuno, gan nodi bod polisi ac arferion Cyfiawnder Ieuenctid dros y ddegawd ddiwethaf yng Nghymru wedi dangos llwyddiant sylweddol wrth ddargyfeirio plant rhag dod i gysylltiad â'r gyfraith/dod yn droseddwyr.[135] Nododd Cymdeithas Seicolegol Prydain ostyngiad o 28 y cant yn nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2021 o gymharu â 2020,[136] a gydnabu gan Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd, gan ychwanegu y gallai'r gostyngiad egluro'n rhannol y pwysau mewn rhannau eraill o'r system amddiffyn plant.[137]

**89.** Fodd bynnag, nid yw osgoi troseddoli pobl ifanc o reidrwydd yn golygu bod y rhai sy'n cyflawni Camfanteisio Troseddol ar Blant yn cael eu collfarnu. Nododd Adolygiad Jay fod nifer y cyflawnwyr a gafwyd yn euog o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf i un person yn unig yn 2020-21. Mae'n dod i'r casgliad, o ystyried y cynnydd cyflym yn nifer y plant sy'n wynebu'r risg o gael rhywun yn camfanteisio arnynt, nad yw ymwybyddiaeth o gamfanteisio wrth ddiogelu plant yn troi'n gamau gweithredu yn y system cyfiawnder troseddol.[138]

**90.** Clywsom bryderon tebyg yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu. Dadleuodd un rhanddeiliad nad yw oedolion sy'n ymwneud â Chamfanteisio Troseddol ar Blant fel ecsbloetwyr yn cael eu collfarnu am gam-drin plant, a'u bod yn cael eu collfarnu ar gyhuddiadau'n ymwneud â chyffuriau neu droseddau tebyg eraill. Yn ei farn ef, mae hyn yn dangos nad yw'r system yn cydnabod eto bod Camfanteisio Troseddol ar Blant yn fath o gam-drin plant.[139] Yn yr un modd, mewn sgwrs â phobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad byw o Gamfanteisio Troseddol ar Blant, clywodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd fod yr heddlu yn

[133] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 'Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru', 21 Mai 2019
[134] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[135] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[137] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, paragraff 62
[138] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 48
[139] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5

canolbwyntio ei ymdrechion ar bobl ifanc yn hytrach na'r unigolion ar y lefel uchaf sy'n trefnu gweithgareddau troseddol. Mae gangiau'n gwybod hyn, yn ôl y cyfranogwyr, ac felly byddant yn defnyddio pobl ifanc mewn modd strategol i gludo arian neu gyffuriau. Clywsom, drwy ganolbwyntio eu gweithgareddau gorfodi ar blant sy'n agored i niwed, mae'r heddlu yn wynebu risg o roi plant mewn mwy o berygl gan y rhwydweithiau troseddol y maent yn eu gwasanaethu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.[140]

**91.** Er mwyn atal y rhai sy'n camfanteisio rhag cael mynediad at blant sy'n wynebu'r risg o gael eu hecsbloetio, dadleuodd CASCADE o blaid 'Gorchymyn Camfanteisio Troseddol ar Blant', a fyddai'n atal cyflawnwyr rhag bod yng nghartref y dioddefwr neu'n agos ato am 28 diwrnod, i roi cyfle i weithwyr proffesiynol ddatblygu ymddiriedaeth gyda phlant a'u teuluoedd fel y gallant gael mynediad at gymorth arbenigol.[141] Roedd eraill yn ein digwyddiadau i randdeiliaid yn argymell yn gryf tynnu'r sawl sy'n camfanteisio oddi wrth y plentyn, yn hytrach na symud y plentyn o amgylchedd ei gartref. Roeddent yn dadlau nad yw'r arfer presennol o symud y plentyn yn cydnabod mai'r sawl sy'n camfanteisio, yn hytrach na'r plentyn, y dylid tarfu arno. Clywsom fod y dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gyda Chamfanteisio Rhywiol ar Blant, a bod angen i asiantaethau statudol ei fabwysiadu mewn perthynas â Chamfanteisio Troseddol ar Blant hefyd.[142]

### Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

**92.** Mae'r Fframwaith yn rhywbeth sy'n anelu at nodi ac atgyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern at Swyddfa Gartref y DU a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol. Mae rhai sefydliadau, a elwir yn 'ymatebwyr cyntaf', wedi'u hawdurdodi i atgyfeirio dioddefwr posibl drwy borth ar-lein.[143] Os yw'r Swyddfa Gartref yn credu bod digon o wybodaeth i awgrymu bod y plentyn yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern, bydd hyn yn arwain at 'Benderfyniad Seiliau Rhesymol Cadarnhaol' (neu Benderfyniad Seiliau Rhesymol Negyddol os nad yw'r Swyddfa Gartref yn credu bod digon o wybodaeth i awgrymu bod y plentyn yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern). Bydd Penderfyniadau Cadarnhaol ar Seiliau Rhesymol yn arwain at waith ymchwilio pellach, gan arwain at 'Benderfyniad ar Seiliau

[140] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Hydref 2024, tudalennau 11-12
[141] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[142] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 6
[143] Gov.uk, 'Canllawiau ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol: oedolion (Cymru a Lloegr) (Saesneg yn unig)', 14 Mai 2024

Diwrthbrawf, a all, unwaith eto, fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Gall Penderfyniad Cadarnhaol ar Seiliau Diwrthbrawf roi pwerau ychwanegol i'r heddlu arestio pobl y credir eu bod yn camfanteisio ar y plentyn, a gall amddiffyn y plentyn rhag cael ei gyhuddo o rai troseddau.[144]

**93.** Clywsom farn gymysg iawn am y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Daw Adolygiad Jay i'r casgliad, er nad yw Penderfyniad Cadarnhaol ar Seiliau Diwrthbrawf yn gyfreithiol rwymol, y gall fod yn ffactor arwyddocaol o ran a yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn derbyn bod y plentyn yn ddioddefwr.[145] Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod proses y Mecanwaith wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio Troseddol ar Blant ymhlith ymarferwyr dros y tair blynedd diwethaf.[146]

**94.** Fodd bynnag, dadleuodd rhai nad yw'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn addas at y diben, ac fe'i cynlluniwyd yn bennaf ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl, yn hytrach na dioddefwyr camfanteisio troseddol domestig.[147] Mynegodd eraill bryderon ynghylch yr oedi hir – hyd at 30 mis – wrth aros am Benderfyniad ar Seiliau Diwrthbrawf. Ychwanegodd rhai rhanddeiliaid, yn eu barn hwy, hyd yn oed os rhoddir Penderfyniad Cadarnhaol ar Seiliau Diwrthbrawf, nad yw o reidrwydd yn golygu bod y plentyn yn cael unrhyw gymorth, gan ei adael yn agored i ddychwelyd i weithgareddau camfanteisiol.[148] Dywedodd eraill wrthym hyd yn oed pan fydd y rhai sy'n camfanteisio yn gwybod bod plentyn wedi cael Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn ei enw y byddant yn rhoi cyfrifoldebau troseddol ychwanegol i'r plentyn hwnnw, gan wybod bod y tebygolrwydd y bydd yn cael ei ddyfarnu'n euog yn is.[149]

**95.** Clywsom alwadau am gyflwyno hyfforddiant i staff sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol , ac i weithwyr proffesiynol sy'n cyflwyno atgyfeiriadau ddefnyddio mewnbwn ystod o asiantaethau wrth

---

[144] Barnardo's, 'What is an NRM? A guide for children and young people (Saesneg yn unig)'
[145] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 13; Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalennau 46-47
[146] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalennau 46-47
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalennau 46-47
[149] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 7

wneud eu hatgyfeiriad, er mwyn rhoi pob cyfle i broses y Mecanwaith fod o fudd gwirioneddol i'r plentyn.[150]

**96.** Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet am ei barn ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 'diffygion sylweddol' yn y system, gan gynnwys amseroedd aros sylweddol ar gyfer penderfyniadau. Dywedodd wrthym ei bod wedi tynnu sylw'r Swyddfa Gartref dro ar ôl tro at yr angen i ddiwygio system y Mecanwaith, ac wedi tynnu sylw at gynllun peilot gweithredol yng Nghymru i wneud y Mecanwaith yn broses gyflymach a symlach.[151]

### Cydweithredu rhwng asiantaethau heb eu datganoli ac asiantaethau datganoledig

**97.** Mewn llythyr manwl atom, nododd Plismona yng Nghymru sut mae heddluoedd yng Nghymru yn ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant ac yn canolbwyntio ar droseddoli fel rhan o'i waith cynllunio strategol. Mae rhai heddluoedd, fel Gwent a Gogledd Cymru, wedi blaenoriaethu eu hymatebion i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn benodol, ac wedi cymryd camau i weithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill i gefnogi plant a'u teuluoedd yn adweithiol a chydag ymyriadau ataliol. Mae Heddlu De Cymru wedi nodi camfanteisio troseddol a rhywiol ar blant ymhlith y 10 risg uchaf a nodwyd i'r sefydliad, a rhoddodd dystiolaeth fel rhan o Adolygiad Jay o Blant y Camfanteisir arnynt yn Droseddol. Mae llythyr Plismona yng Nghymru yn pwysleisio'r gwerth y mae pob heddlu yn ei roi ar waith amlasiantaeth, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a gwaith ymyrraeth gynnar.[152]

**98.** Fodd bynnag, clywsom safbwyntiau gwahanol ynghylch sut mae asiantaethau heb eu datganoli, fel yr heddlu, yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau datganoledig neu sefydliadau'r trydydd sector. Teimlai rhai fod yr heddlu wedi dod yn fwy cydweithredol, a chlywsom adborth cadarnhaol am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn arbennig.[153] Ond yn amlach, dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gall gweithio ar draws y trothwy datganoli fod yn heriol. Soniodd Barnardo's Cymru

[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[151] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 74-84
[152] 'Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg' (Saesneg yn unig), 23 Awst 2024
[153] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 11-12

wrthym fod dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio gyda phlant a phobl ifanc rhwng asiantaethau a lywodraethir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn fwy uniongyrchol, gan nodi bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y pryd wedi'u hethol ar fandadau gwahanol, ac nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn cyd-fynd â pholisi cyfiawnder cymdeithasol Cymru.[154] Roedd gan dystiolaeth ysgrifenedig NYAS Cymru naws debyg.[155]

**99.** Teimlai rhai rhanddeiliaid nad yw Cymru yn cael cyllid digonol gan Lywodraeth y DU i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn effeithiol. Clywsom gan rai gweithwyr proffesiynol fod y Swyddfa Gartref yn categoreiddio rhanbarthau fel ardaloedd 'mewnforio' neu 'allforio' yn bennaf ar gyfer gweithgarwch llinellau cyffuriau. Ystyrir Cymru fel ardal fewnforio. Eglurwyd wrthym fod arian y Swyddfa Gartref yn cael ei roi yn bennaf i ardaloedd allforio. Roeddent yn teimlo bod hyn yn golygu bod cymorth ariannol anghyson i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant yng Nghymru. Roeddent yn dadlau bod y mater yn fwy cymhleth nag y mae'r model ariannu presennol yn ei awgrymu, a bod gorgyffwrdd sylweddol mewn gwirionedd rhwng ardaloedd mewnforio/allforio.[156]

**100.** Clywsom alwadau hefyd am ddatganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru, i ddarparu un ffynhonnell o oruchwyliaeth lywodraethol ac i sicrhau nad yw polisi Llywodraeth Cymru o ddad-droseddoli plant yn cael ei beryglu gan fframwaith cyfreithiol a oruchwylir gan Lywodraeth y DU.[157]

**101.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a gafodd unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch sicrhau bod plant y camfanteisir arnynt yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr, yn hytrach na'r rhai sy'n cyflawni troseddau, ac am ei barn ar ddatganoli cyfiawnder. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod yn ceisio dylanwadu ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chamfanteisio Troseddol ar Blant, gan gynnwys ymagwedd hawliau plant Llywodraeth Cymru at gyfiawnder ieuenctid. ALL Cadarnhaodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cymryd cam ymlaen ar ddatganoli cyfiawnder ieuenctid, a dadleuodd y byddai'n gwneud synnwyr i gyflawni ar gyfer pobl ifanc. Nododd yr argymhellion i'r perwyl hwnnw o adolygiad

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[155] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 12
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)

diweddar y cyn-Brif Weinidog Gordon Brown, ac anogodd ni i fyfyrio ar bwysigrwydd hyn i'r ymchwiliad.[158]

**102.** Aeth y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ymlaen i drafod cyfarfod yn y dyfodol â Jess Philips AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddiogelu a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched, ac ymrwymodd i adrodd yn ôl inni ar ganlyniadau'r cyfarfod hwnnw. Aeth ymlaen i nodi'r ffin hydraidd rhwng Cymru a Lloegr, a dadleuodd:

> *"Where we can align our safeguarding practices with England, I think we should take the opportunity to seek to do that. I think that would help in terms of the practice, and it would help in terms of everybody understanding that when a child moves across borders that we're all singing from the same song sheet. Because at the end of the day, what we should all be wanting is to make sure that these children are safeguarded, and safeguarded effectively, and it shouldn't really matter that one's in England and one's in Wales."*[159]

**Yr ymateb dan arweiniad Llywodraeth Cymru**

**103.** Eglurodd Llywodraeth Cymru fod y camau y mae'n rhaid i asiantaethau datganoledig eu cymryd mewn ymateb i blentyn sy'n profi camdriniaeth a/neu esgeulustod, neu sy'n wynebu risg o hynny, wedi'u nodi'n glir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r papur tystiolaeth yn datgan, os nodir bod plentyn/person ifanc yn profi camfanteisio (troseddol neu rywiol), bydd y gwasanaethau plant yn trefnu cyfarfod strategaeth gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu i ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i ddiogelu'r plentyn ac unrhyw blant eraill sy'n agored i niwed. Mae hefyd yn tynnu sylw at y canlynol:

- Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru, a ddatblygwyd gan ymchwilwyr CASCADE, fel rhan o astudiaeth a ariennir gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yng Nghymru, sy'n darparu cymorth i asiantaethau datganoledig wrth iddynt ymateb i hyn; a

[158] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 173-181
[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 175-188

- Fforwm Atal Caethwasiaeth Cymru, sy'n dod â phartneriaid amlasiantaeth at ei gilydd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi pobl sydd â phrofiad byw o gamfanteisio.[160]

**104.** Ond er gwaethaf y canllawiau a'r ymyriadau ar lefel genedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, clywsom y gall gwaith amlasiantaeth ymhlith cyrff datganoledig fod yn heriol. Yn ystod trafodaeth bord gron, clywsom y gall cydweithredu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai ac addysg fod yn anodd iawn.[161] Aeth Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, Barnardo's Cymru ac eraill mor bell â chwestiynu effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth.[162] Ar y llaw arall, mynegodd Gweithredu dros Blant a Chymdeithas y Plant bryder bod yr ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn anghyson ledled Cymru, gyda'r olaf yn awgrymu y gall dulliau gwahanol awdurdodau lleol o gofnodi ac ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant arwain at fethiannau mewn cyfathrebu. Roeddent hwy, ac eraill, yn galw am strategaeth/cynllun gweithredu cenedlaethol i sicrhau dull mwy cyson ar draws asiantaethau yng Nghymru.[163]

**105.** Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yn gefnogol i ddatblygu strategaeth genedlaethol i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant, cyfeiriodd at ganllawiau ar ddiogelu plant rhag camfanteisio troseddol yn y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, a phwysleisiodd yr angen am waith atal a gwaith amlasiantaeth. Yn anffodus, ni wnaeth ateb ein cwestiwn yn uniongyrchol.[164]

### Gweithio gyda phlant sy'n wynebu risg

**106.** Er gwaethaf yr ymrwymiadau yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, clywsom gan sefydliadau amrywiol nad yw rhai ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol wedi croesawu dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u llywio gan drawma. Dadleuodd NYAS Cymru fod plant yn aml yn cael eu troseddoli a'u gweld gan wasanaethau gorfodi'r

[160] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalennau 13-14
[161] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 11
[162] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 12
[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 13
[164] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 65-66

gyfraith fel troseddwyr eu hunain, yn hytrach na phlant y camfanteisir arnynt.[165] Yn yr un modd, soniodd CASCADE wrthym fod rhai gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrthynt fod plant a oedd yn derbyn gofal yn graff ac yn gwybod yn union beth maent yn ei wneud. Roedd yn dadlau y dylid herio'r 'oedolaeth' hwn, oherwydd ni all plant gydsynio i gamfanteisio.[166] Roedd eraill yn rhannu barn debyg.[167]

**107.** Pwysleisiodd y bobl ifanc a ymgysylltodd â'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yr angen am ddull gweithredu wedi'i dargedu, sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, at orfodi'r gyfraith, sy'n meithrin cydweithrediad â phobl ifanc, yn hytrach na'u troseddoli:

> *"There was an incident when I was 11. I kicked off and saw red. I was pinned down by six police officers, one on each limb and two on my shoulders. They stripped me naked in the police van to search me and then sectioned me in a mental hospital for adults cos they did not know what to do with me. It was humiliating."*

Clywsom fod profiadau fel hyn yn gadael pobl ifanc yn teimlo wedi'u bychanu, ac yn atgyfnerthu eu teimladau o fod yn agored i niwed. Argymhellodd y cyfranogwyr fentrau mewn ysgolion i gyflwyno plant i asiantaethau lleol ar gyfer gorfodi'r gyfraith yn gynnar yn eu bywydau, gan obeithio y gallai ymdrechion o'r fath helpu i bontio'r bwlch ymddiriedaeth rhwng yr heddlu a'r gymuned.[168]

**108.** Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, clywsom fod llawer o blant sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol yn teimlo'n fwy derbyniol ar ymylon cymdeithas nag y maent o fewn eu teuluoedd neu wasanaethau prif ffrwd. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym fod rhai plant yn awyddus i fod yn rhan o gang i deimlo eu bod yn perthyn, efallai yn lle ffigurau rhieni cryf. Dywedodd eraill wrthym nad yw rhai o'r plant y maent yn gweithio gyda hwy – sydd wedi bod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol – hyd yn oed yn

[165] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[167] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 6
[168] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 12

ymwybodol bod rhywun wedi camfanteisio arnynt, ac weithiau nad ydynt eisiau cymorth.[169]

**109.** Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, llawn ymddiriedaeth gyda phlant sy'n wynebu risg a'u teuluoedd yn hollbwysig os ydynt am gael eu dargyfeirio oddi wrth weithgarwch troseddol, ac i'w hamddiffyn os camfanteisir arnynt.[170] Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn argymell y dylai tîm bach o staff fod yn bwynt cyswllt â phlant sy'n wynebu risg o gamfanteisio, er mwyn helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol heb gynnwys gweithwyr cymdeithasol.[171]

**110.** Yn ei werthusiad o Wasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCEIS) Gweithredu dros Blant, priodolodd CASCADE lwyddiant y gwasanaeth i gefnogaeth ddwys sy'n canolbwyntio ar y plentyn a ddarparwyd gan ymarferwyr a mentoriaid, a oedd yn eu helpu i feithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth gyda phlant.[172] Mae Adolygiad Jay hefyd yn amlygu pwysigrwydd mentora cymheiriaid, gan gynnwys gan ymarferwyr sydd â phrofiad o gamfanteisio:

> *"Witnesses described the key qualities that made mentoring so valuable as being the consistency offered, the time taken to build up a trusted relationship with the child and their family, and truly understanding the child's perspective as a way to advocate on their behalf and help them, in turn, see the possibilities for the future."*[173]

**Astudiaeth achos: Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCEIS) Gweithredu dros Blant**

Nod Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCEIS) Gweithredu dros Blant yw nodi pobl ifanc sy'n ymwneud â throseddau

[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 5
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 7
[171] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)
[172] CASCADE, 'Gwerthusiad Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol: Crynodeb gweithredol', Mawrth 2024, tudalennau 8-10
[173] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalennau 36-38

cyfundrefnol difrifol, neu sy'n wynebu risg o hynny, gan fynd i'r afael â'r gwendidau a arweiniodd at eu cyfranogiad a'u cyfeirio at lwybrau mwy cadarnhaol.

Sefydlwyd y gwasanaeth yn Glasgow yn 2013. Ers hynny, mae wedi ehangu i helpu plant sy'n wynebu risg mewn wyth ardal yn y DU. Dechreuodd Gweithredu dros Blant ddarparu'r gwasanaeth yng Nghaerdydd yn 2020, ac ehangodd i Sir y Fflint yn 2023. Cyn lansio'r gwasanaeth mewn ardal newydd, gwnaed gwaith i bennu'r dichonoldeb a'r gofyniad am wasanaeth dargyfeirio camfanteisio troseddol drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol. Roedd y gwaith hwn yn pennu'r angen, y mathau o fygythiadau, a threfniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau na fyddai ymdrechion yn cael eu dyblygu ar draws asiantaethau.

Daeth gwerthusiad CASCADE i'r casgliadau a ganlyn am SOCEIS:

*"The Service has established itself as a specialist service for young people involved in serious organised crime or affected by exploitation. Findings showed high levels of engagement*

*The Service gave young people a safe space to reflect on their lives and consider their existing relationships and the potential consequences of remaining on those negative pathways.*

*Unlike time-limited interventions, the Service was able to stay with young people and deliver intensive, tailored support at the young person's pace which was cognisant of their developmental needs rather than age based provision. This was facilitated by the recruitment of highly skilled Practitioners and Peer Mentors from the local communities where young people lived."*[174]

Mae gwasanaeth SOCEIS Caerdydd bellach yn cael ei gynnal gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy Gyngor Caerdydd. Mae Gweithredu dros Blant yn adrodd bod gwerthusiad CASCADE wedi canfod, allan o gyfanswm o 30 o achosion a gaewyd, fod y gwasanaeth wedi arwain at y canlynol:

- Roedd 77 y cant yn profi llai o droseddu.
- Dangosodd dwy ran o dair ostyngiad mewn camfanteisio.
- Gwellhaodd 63 y cant eu penderfyniadau ynghylch risg.

[174] CASCADE,'Gwerthusiad Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol: Crynodeb gweithredol', Mawrth 2024, tudalennau 2-3 a 9-10

- Roedd ymgysylltiad dau o bob pump ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn well.
- Dywedodd dwy ran o dair fod perthnasoedd teuluol wedi gwella.[175]

**111.** Roedd cytundeb cyffredinol y dylai gweithwyr proffesiynol a allai ddod i gysylltiad â phlant sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol dderbyn gwell hyfforddiant i'w helpu i nodi'r peryglon ac ymateb yn briodol. Pwysleisiodd Barnardo's Cymru bwysigrwydd ymarferwyr yn deall pa mor gyflym y gall sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chamfanteisio waethygu, a nododd fod rhai yn ei chael yn anodd dad-ddwysáu sefyllfaoedd.[176] Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrthym nad yw rhai achosion yn cael eu cymryd yn ddigon difrifol gan rai gwasanaethau, gan adael pobl ifanc i lithro drwy'r rhwyd heb y cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt,[177] ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o blaid cymorth i athrawon reoli'r trawma sy'n gysylltiedig â chamfanteisio.[178] Rhannodd Gweithredu dros Blant ganfyddiadau gwaith ymchwil parhaus a gynhaliwyd gan CASCADE yn ei dystiolaeth ysgrifenedig: mae dadansoddiad interim o ddata o 116 o ymatebion i arolwg gan ymarferwyr Camfanteisio Troseddol ar Blant yn dangos mai hyfforddiant ffurfiol a chanllawiau polisi ac ymarfer oedd y ddau faes pwysicaf i ddylanwadu ar eu hymateb i blant y camfanteisir arnynt yn droseddol.[179] Clywsom alwadau cyson am gyfres safonol o hyfforddiant ar gyfer yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a sicrhau cyllid er mwyn ei gyflwyno i bawb sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu troseddoli.[180]

### Cefnogaeth barhaus i blant y camfanteisiwyd arnynt yn y gorffennol

**112.** Mae Adolygiad Jay yn egluro y gall y broses o symud oddi wrth gamfanteisio fod yn anodd iawn i blant a'u teuluoedd. Mae'n canfod y gall bygythiadau i blant waethygu ar adeg pan fo person ifanc yn ceisio rhyddhau ei hun, ac y gall plant wynebu risg o gael rhywun yn camfanteisio arnynt eto er iddynt gael eu symud i le diogel dros dro.[181] Roedd y bobl ifanc â phrofiad byw a ymgysylltodd â ni yn rhannu safbwyntiau tebyg. Cawsom wybod y gall 'dianc' ofyn am fesurau cryf,

[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[178] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)
[179] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 13
[181] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 31

megis adleoli, er mwyn sicrhau eu diogelwch ac i dorri cysylltiadau â dylanwadau negyddol. Ond pwysleisiwyd heb gymorth hirdymor, dibynadwy, y gall y cylch o weithgarwch troseddol deimlo'n amhosibl i ddianc rhagddo:

> *"It's hard to get out because you're known and you've got a history… You've got to safeguard yourself even going around wearing a stab-proof vest. Things should be put in place to make it easier for a person of such high status to get out."*[182]

**113.** Clywsom gan amrywiol randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol ar draws sectorau, unwaith y bydd plant sy'n agored i niwed yn gadael llety diogel, gofal preswyl arbenigol, neu hyd yn oed ofal maeth, mai ychydig iawn o ddarpariaeth 'cam i lawr' sydd i'w cefnogi i gymryd camau cadarnhaol ymlaen yn eu bywydau. Roeddent yn poeni, os bydd pobl ifanc yn gwneud cynnydd drwy'r cymorth a gânt gan weithwyr proffesiynol, unwaith y byddant yn gadael y lleoliad diogel hwnnw efallai na fydd ganddynt ddewis ond dychwelyd i'w hamgylchiadau cythryblus blaenorol, ac yn anochel y byddant yn wynebu'r un risgiau ag o'r blaen. Clywsom am brinder lleoliadau cymunedol ar gyfer plant sy'n agored i niwed sy'n gadael gofal diogel yn benodol. [183] Soniodd rhai pobl ifanc wrthym hefyd y gall cael cofnod troseddol o ganlyniad i wynebu camfanteisio troseddol fod yn rhwystr i gyflogaeth, a all ei gwneud yn anodd iawn gadael gweithgarwch troseddol. Roeddent yn ein hannog i ystyried ffyrdd o ddileu rhwystrau i gyflogaeth gyfreithlon i bobl ifanc sydd â chofnod troseddol o ganlyniad i wynebu camfanteisio troseddol.[184]

## Ein barn ni

### Diffiniad statudol o Blant y Camfanteisir arnynt yn Droseddol

**114.** Un o'r themâu mwyaf cyson yr ydym wedi'i nodi ar draws ein gwaith casglu tystiolaeth yw nad yw'r ymateb polisi i blant y camfanteisir arnynt yn droseddol bob amser wedi cadw i fyny â natur esblygol y camfanteisio. Mae oedolion sy'n camfanteisio yn symud yn gyflym i addasu eu tactegau gorfodi i osgoi mentrau diogelu a chyfiawnder troseddol. O'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu, mae diffyg diffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant wedi cyfrannu'n

[182] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 13
[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 7
[184] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 6

uniongyrchol at ddiffyg dealltwriaeth o'r Camfanteisio, diffyg arweiniad clir wrth fynd i'r afael ag ef, ac wedi tanseilio ymdrechion i erlyn y sawl sy'n camfanteisio.

**115.** Rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru ei diffiniad ei hun o Gamfanteisio Troseddol ar Blant, a nodir yn y Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, ac roeddem yn falch o glywed rhai rhanddeiliaid allweddol yn cydnabod gwerth y diffiniad anstatudol hwnnw i ysgogi cysondeb mewn arferion diogelu ledled Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfiawnder troseddol yn fater a gadwyd yn ôl, ac na all Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, ddeddfu i greu diffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Troseddol, y Trefnydd a'r Prif Chwip wrthym y bydd yn ystyried Bil Troseddu a Phlismona Llywodraeth y DU sydd ar ddod cyn dod i farn ynghylch a oes angen diffiniad statudol. Ond drwy ddarllen y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn, bydd yn deall y dadleuon o blaid diffiniad statudol. Credwn mai nawr, yn hytrach nag ar ôl i'r Bil gael ei ddrafftio, yw'r amser i ddylanwadu ar feddylfryd Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at Lywodraeth y DU i eirioli dros ddiffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant fel rhan o'i Bil Troseddu a Phlismona sydd ar ddod. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni gyda'r ymateb a ddaw i law, a ddylai hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol sydd wedi'u cynnal ers mis Medi 2024.

### Ymateb Cymru i Gamfanteisio Troseddol ar Blant

**116.** Cawsom ein calonogi i glywed adborth cadarnhaol gan ymarferwyr am y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, sy'n rhoi blaenoriaeth i atal plant rhag troseddu yn y lle cyntaf, yn hytrach nag ymdrin â chanlyniadau plant sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid. Rydym yn croesawu'n arbennig y dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn nodi bod y glasbrint wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol, ac mae'n haeddu cydnabyddiaeth. Gobeithiwn y bydd yr heddlu ac asiantaethau diogelu eraill ledled Cymru yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn, wedi'i ysgogi gan y dull plentyn yn gyntaf a'r dull sy'n seiliedig ar drawma o weithio gyda phlant sy'n agored i niwed sydd wedi'i hyrwyddo mor gyson inni gan randdeiliaid.

**117.** Fodd bynnag, ni chawsom ein calonogi gan bryderon ynghylch diffyg dull cyson ar draws asiantaethau yng Nghymru i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant. Felly, mae gennym ddiddordeb yng ngwerth y galwadau am strategaeth genedlaethol o ran Camfanteisio Troseddol ar Blant a glywsom wrth

gasglu tystiolaeth. Roedd yn anffodus felly, na rannodd Ysgrifennydd y Cabinet ei barn ar gynnig o'r fath yn ystod y gwaith craffu ar lafar.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar fanteision neu fel arall strategaeth genedlaethol i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn sgil y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch arferion anghyson ledled Cymru.

## Plant eraill sydd ar yr ymylon

**118.** Mae ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar blant coll a phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol. Fodd bynnag, gofynnwyd i randdeiliaid dynnu sylw at grwpiau eraill o blant sydd ar yr ymylon i'n helpu i ddeall y cyd-destun ehangach lle mae plant yn cael eu gwthio i'r ymylon. Rydym yn deall bod materion sy'n berthnasol i blant digartref a phlant y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn gynnil iawn. Ni fwriedir i'r paragraffau isod fod yn hollgynhwysfawr, ac nid ydynt yn gwneud cyfiawnder â chymhlethdod y materion hyn. Fe'u cofnodir yma fel adlewyrchiad cyflawn o'r dystiolaeth a gawsom, ac i'n cefnogi wrth inni ystyried plant coll a phlant wedi'u troseddoli yng nghyd-destun y materion ehangach, rhyng-gysylltiedig sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

### Plant digartref

**119.** Roedd Cymorth Cymru yn nodi ystadegau sy'n dangos graddfa digartrefedd ymhlith plant yng Nghymru. Ar 31 Ionawr 2024:

- Roedd cyfanswm o 11,501 o unigolion mewn llety dros dro yng Nghymru ac roedd 3,104 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed.

- Roedd 3,709 o bobl yng Nghymru yn aros mewn 'llety gwely a brecwast a gwestai', gyda 702 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed.

Gwnaethant hefyd amlygu gwaith ymchwil ar gyfer Crisis, a ganfu fod 50 y cant o'r 480 o bobl sengl ddigartref yn eu sampl DU gyfan yn dod yn ddigartref am y tro cyntaf cyn 21 oed. Canfu dadansoddiad pellach fod y grŵp o oedolion digartref sengl sydd â'r profiadau bywyd mwyaf niweidiol yn arbennig o debygol o fod wedi profi digartrefedd am y tro cyntaf fel person ifanc, roedd bron pob un ohonynt wedi'u gwahardd o'r ysgol, ac roedd tri chwarter wedi bod mewn gofal awdurdod lleol. Gwnaethant dynnu sylw at ganfyddiadau astudiaeth ar wahân, a gynhaliwyd

gan Shelter Scotland, a ganfu fod 84 y cant o bobl ifanc ddigartref wedi rhedeg i ffwrdd cyn 16 oed.[185]

**120.** Amlygodd rhai rhanddeiliaid fod plant digartref yn agored i risgiau uwch o gamfanteisio neu gam-drin. Amlygodd Adolygiad Jay fod plant digartref yn wynebu bod yn agored i niwed, gan gynnwys diffyg amgylcheddau byw diogel a sefydlog, diffyg rhwydweithiau cymorth, ansefydlogrwydd ariannol, a risgiau uwch o gamfanteisio a cham-drin.[186] Dywedodd Ymddiriedolaeth St Giles wrthym:

> *"Children who are homeless and/or in temporary accommodation are, in our experience, particularly likely to be exposed to the risk of exploitation and to be groomed by gangs."*[187]

Roedd Barnardo's Cymru yn cytuno, fel y gwnaeth Cymorth Cymru, a ychwanegodd fod plant digartref yn wynebu risg sylweddol uwch o gamfanteisio ar linellau cyffuriau yn benodol, ac yn cael eu cydnabod felly gan y Swyddfa Gartref.[188] Mynegodd NYAS Cymru bryder arbennig ynghylch y rhai sy'n gadael gofal – sy'n wynebu risg arbennig o uchel o ddigartrefedd – a'r risg uwch cysylltiedig o fynd ar goll a chael rhywun yn camfanteisio arnynt.[189]

**121.** Roedd y dystiolaeth a gawsom am ymateb i ddigartrefedd ymhlith plant, yn bennaf gan Cymorth Cymru, yn dadlau dros wasanaethau i ddeall effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar bobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd wedi profi digartrefedd. Roeddent yn dadlau y gall hyn gael effaith sylweddol ar eu gallu a'u parodrwydd i ymddiried mewn gwasanaethau, a gall hefyd effeithio ar eu gallu i reoleiddio eu hemosiynau pan fyddant yn ofidus neu'n rhwystredig. Roeddent yn argymell Tai yn Gyntaf ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, a oedd, yn eu barn hwy, wedi bod yn effeithiol pan gânt eu cynnig i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n gofyn am gymorth amlasiantaeth dwys, ac Upstream Cymru, fel enghreifftiau o ymyrraeth gynnar effeithiol.[190]

---

[185] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[186] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 22
[187] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)

**122.** Cyflwynodd Cymorth Cymru a NYAS Cymru dystiolaeth am ddeddfwriaeth ddigartrefedd arfaethedig Llywodraeth Cymru.[191] Roedd y cyntaf yn cefnogi'r cynigion i raddau helaeth.[192] Fodd bynnag, mynegodd NYAS Cymru bryder ynghylch effaith y syniad arfaethedig o ddileu'r categori cyffredinol o 'angen blaenoriaethol' o dan ddeddfwriaeth digartrefedd, categori sydd ar hyn o bryd yn rhoi blaenoriaeth ar gyfer llety i bobl ifanc 18-20 oed sy'n gadael gofal:

> *"Abolishing the priority need assessment would place more care-experienced young people in vulnerable situations, such as at risk of exploitation or missing incidents, and therefore NYAS Cymru recommends for the Welsh Government to not abolish it."*[193]

**123.** Mae data Llywodraeth Cymru yn nodi bod nifer y rhai sy'n gadael gofal (hyd at 25 oed) sy'n profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn ledled Cymru wedi codi o 170 yn 2020-21, i 315 yn 2022-23.[194] Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gan nodi canfyddiadau ein hymchwiliad yn 2022-23 i'r system ofal[195], gwnaethom ni, fel NYAS Cymru, fynegi pryder ynghylch canlyniadau negyddol anfwriadol posibl dileu asesiadau angen blaenoriaethol ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gwnaethom annog Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad effaith i nodi unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol diddymu angen blaenoriaethol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref.[196]

**124.** Yn ei hymateb, nododd a rhannodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd ein pryderon, ond pwysleisiodd fod "y Papur Gwyn a'r ddeddfwriaeth ddilynol yn gyfle pwysig i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a thrawsnewid profiad y bobl ifanc hyn wrth iddynt drosglwyddo o ofal tuag at fyw'n annibynnol."[197]

---

[191] Llywodraeth Cymru, 'Papur gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru', 23 Ebrill 2024
[192] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig)
[194] StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol'
[195] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 122 i 124
[196] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Newid Hinsawdd', 10 Ionawr 2024
[197] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 6 Chwefror 2024

## Plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol

**125.** Nid oes diffiniad statudol o Gamfanteisio Rhywiol ar Blant yng Nghymru.[198] Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diffiniad o Gamfanteisio Rhywiol ar Blant mewn canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 ac adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:


> *"Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, sy'n cynnwys elfen o gyfnewid rhwng y plentyn sy'n cael ei gam-drin (hyd at 18 oed) a'r person sy'n cyflawni neu'n hwyluso'r cam-drin."*[199]

**126.** Yn yr un modd â phlant coll a Chamfanteisio Troseddol ar Blant, dywedodd rhanddeiliaid fod diffyg diffiniad clir o Gamfanteisio Rhywiol ar Blant yn golygu ei bod yn anodd canfod gwir natur a graddfa Camfanteisio Rhywiol ar Blant yng Nghymru. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei fod yn 'fater cudd', ac ychydig iawn o'r goroeswyr sy'n codi llais yn ei gylch, yn enwedig bechgyn. Serch hynny, roeddent yn dadlau y gallwn fod yn sicr ei fod yn digwydd yng Nghymru, ac nad yw'n gyfyngedig i unrhyw ddaearyddiaeth, cefndir ethnig neu gefndir cymdeithasol penodol.[200] Cytunodd Voices from Care Cymru, gan ddweud wrthym fod camfanteisio rhywiol yn fater arwyddocaol sy'n wynebu plant ledled Cymru.[201]

**127.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data gan awdurdodau lleol yn nodi nifer y cyfarfodydd strategaeth am blant lle roedd camfanteisio rhywiol ar blant yn ffactor (gweler ffigur 5 isod). Ni ellir defnyddio'r data hyn i gymharu'n gywir y cyfraddau Camfanteisio Rhywiol ar Blant o un flwyddyn i'r llall oherwydd gwahaniaethau mewn canllawiau adrodd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod gwallau yn y data.

[198] Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, 'Camfanteisio rhywiol ar blant gan rwydweithiau cyfundrefnol – adroddiad yr ymchwiliad (Saesneg yn unig)', Hydref 2022
[199] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl. Cyfrol 7 – Diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol', Chwefror 2021
[200] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[201] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)

***Ffigur 5: Y gyfradd fesul 1,000 o blant o gyfarfodydd strategaeth am blentyn lle 'camfanteisio rhywiol ar blant' oedd y prif ffactor camfanteisio yn 2022-2023. Gall yr un plentyn fod yn gysylltiedig â sawl achos o gamfanteisio rhywiol ar blant.***[202]




**128.** Adroddodd Cymorth i Ferched Cymru ddata gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a ganfu fod tua 107,000 o droseddau cam-drin a chamfanteisio rhywiol ar blant yn 2024 ledled Cymru a Lloegr. Gwnaethant ychwanegu eu bod yn anfon ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar raddfa Camfanteisio Rhywiol ar Blant at awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a chomisiynwyr heddlu a throseddu, a soniwyd bod llai na hanner yn gallu darparu unrhyw ddata.[203]

**129.** Clywsom dystiolaeth yn herio rhagdybiaethau ystrydebol ynghylch beth yw camfanteisio rhywiol, a phwy sy'n dioddef ohono. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym nad yw o reidrwydd yn gywir cysylltu merched â chamfanteisio rhywiol a bechgyn â chamfanteisio troseddol. Dywed fod y patrwm hwn wedi newid, yn

[202] StatsCymru, 'Cyfanswm nifer y plant a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd camfanteisio ar blant yn ffactor, yn ôl awdurdod lleol'. Gweler y naratif yn y troednodyn sy'n gysylltiedig â ffigur 3 am ragor o wybodaeth am sut y cesglir y data hyn. Defnyddir y data hyn yn unol â: Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Amcangyfrifon y boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon', 8 Hydref 2024
[203] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)

arbennig o ran gweld bechgyn yn dod yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol.[204] Yn yr un modd, er i Ymddiriedolaeth St Giles ddweud wrthym fod bron pob un o'r merched y maent yn eu cefnogi fel dioddefwyr camfanteisio troseddol hefyd yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol, mae cyfran uchel o'r bechgyn hefyd.[205]

**130.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod y dulliau o gamfanteisio wedi newid, hefyd, fel yr eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *"They use sophisticated methods to steer victims into engaging in inappropriate sexual chat, sexual activity over a webcam or posting indecent images of themselves, often without any initial gain or payment. These exploitative relationships can quickly run out of control for young people who, having compromised themselves online, can be threatened and blackmailed. Online relationships can also have serious off-line consequences particularly when children and young people are encouraged to meet up with people in the real world who they first met online."*[206]

**131.** Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol bod gweithio amlasiantaeth yn hanfodol i ymateb yn effeithiol i Gamfanteisio Rhywiol ar Blant.[207] Fodd bynnag, clywsom bryderon hefyd nad yw'r ymateb i Gamfanteisio Rhywiol ar Blant bob amser yn effeithiol. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu bwriadau cryf yn y maes hwn gan Lywodraeth Cymru, ond roedd yn beirniadu'r strategaethau 'tameidiog'.[208] Roedd asiantaethau eraill yn rhannu pryderon tebyg. Dywedodd Barnardo's Cymru nad yw arfer wedi cadw i fyny â natur newidiol Camfanteisio Rhywiol ar Blant,[209] tra bod Cymorth i Ferched Cymru wedi sylwi ar ddiffyg gweithio cydgysylltiedig, a diffyg nodedig o gefnogaeth i bobl ifanc 16-18 oed, sy'n allweddol, meddai, i ymyrraeth gynnar ac atal camfanteisio pellach gan oedolion. Daeth i'r casgliad nad yw plant a phobl ifanc yn aml yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt mewn modd amserol.[210] Rhannodd Voices from

[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[206] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 14
[207] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM20 Estyn (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[208] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[209] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[210] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)

Care Cymru astudiaeth achos drasig gyda ni i ddangos canlyniadau methiant gweithio amlasiantaeth i fynd i'r afael â Chamfanteisio Rhywiol ar Blant:

> *"... during lockdown we were supporting a young woman who had been at the edge of prostitution and had issues with substance abuse. During lockdown it was harder for her exploiters to access her and we tried very hard to get support for her at that time, from housing, from mental health services and from social services, but no support was forthcoming. When lockdowns were lifted her exploiters accessed her again, and her situation became worse and worse. Since she had turned 18 social services treated her as a young adult free to make bad decisions. Mental health waiting lists were impossibly long and because of the chaos in her life she missed appointments and they refused to treat her. She wasn't able to maintain a tenancy. The only agency that took her situation seriously was the police, and they did try to protect her, but there was a limit to what they could without co-operation from other agencies. Sadly, she eventually took her own life. This is an extreme example, but not by any means unique."*[211]

**132.** Gwnaethom holi'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ynghylch y cynllun gweithredu ar gam-drin plant yn rhywiol sydd ar ddod, y bwriedir ei gyhoeddi yn 2025. Gwnaethom hefyd ofyn a oedd yn cytuno bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem gynyddol, ac am ei barn ar y newid yn natur camfanteisio rhywiol ar blant, wedi'i ysgogi gan dechnoleg sy'n datblygu. Mewn ymateb, dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru, byrddau diogelu rhanbarthol a phartneriaid statudol ac anstatudol eraill – gan gynnwys dioddefwyr camfanteisio rhywiol – yn cydweithio i adeiladu ar yr iteriad blaenorol o'r cynllun. Cadarnhaodd y bydd y cynllun newydd yn cynnwys ystyried camau ataliol, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin plant a sut i adrodd amdano, cefnogaeth i rieni, a sicrhau bod plant yn cael eu credu pan fyddant yn datgelu camdriniaeth.[212]

[211] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[212] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 86-87

## Ein barn ni

### Plant digartref

**133.** Mae digartrefedd yn symptom o wthio rhywun i'r ymylon. Mae plant a phobl ifanc ddigartref yn aml wedi profi trawma sy'n eu gwthio allan o'u cartrefi. Mae llawer wedi'u gwahardd o'r ysgol, yn agored i niwed yn ariannol, ac nid oes ganddynt rwydweithiau cymorth fel teulu cariadus.

**134.** Mae digartrefedd hefyd yn ffactor risg o ran gwthio rhywun ymhellach i'r ymylon. Mae plant a phobl ifanc digartref yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin neu o gamfanteisio. Rydym yn deall o'r ymchwiliad hwn a'n gwaith ar y system ofal bod llawer o bobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro fel hosteli neu lety gwely a brecwast yn agored i beryglon na fyddent yn dod ar eu traws fel arall. Gallant ddod i gysylltiad cynyddol ag alcohol, cyffuriau a gangiau troseddol. Cawsom ein taro gan ganfyddiadau Crisis a oedd yn nodi bod oedolion digartref sengl sydd â'r profiadau bywyd mwyaf niweidiol yn debygol o fod wedi profi digartrefedd am y tro cyntaf fel person ifanc. Dylem ddisgwyl y bydd plant a phobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ddioddef digartrefedd yn wynebu heriau sylweddol ac anorchfygol o bosibl drwy gydol eu hoes.

**135.** Felly, rydym yn parhau i bryderu ynghylch y canlyniadau anfwriadol sylweddol sy'n debygol o ddeillio o gynigion Llywodraeth Cymru i ddileu'r prawf angen blaenoriaethol ar gyfer pobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu sy'n cael eu bygwth â digartrefedd. Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn arbennig, lle mae gan y wladwriaeth gyfrifoldebau uniongyrchol drostynt fel rhieni corfforaethol, ac y mae digartrefedd yn annerbyniol o gyffredin yn eu plith, gall y cynnig polisi hwn gael canlyniadau hynod negyddol. Felly, rydym yn ailadrodd ein casgliadau yn ein hadroddiad yn 2023 ar y system ofal ac yn ein llythyr yn 2024 at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd.

**Argymhelliad 6.** Yn ei deddfwriaeth sydd ar ddod, dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, yn cael blaenoriaeth mewn perthynas â chategorïau eraill o ymgeiswyr; a

- chreu categori 'dewis rhesymol' gorfodol ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal (ni waeth beth fo'u statws digartrefedd) yng nghynlluniau tai cymdeithasol awdurdodau lleol.

**136.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu derbyn ein Argymhelliad 6, dylai gynnal a chyhoeddi asesiad effaith o'i phenderfyniad.

**Argymhelliad 7.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon cadw statws angen blaenoriaethol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai gynnal a chyhoeddi, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, asesiad cadarn o effeithiau dileu statws angen blaenoriaethol ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**Plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol**

**137.** Yn yr un modd â digartrefedd ymhlith plant, mae camfanteisio rhywiol ar blant yn fater hollbwysig a chymhleth sy'n gofyn am ymchwiliad Pwyllgor penodedig ei hun. Mae plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol, yn gwbl amlwg, yn grŵp sydd ar yr ymylon sy'n dioddef trawma annioddefol ac annirnadwy.

**138.** At ddibenion yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar blant coll a phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol, rydym yn nodi'r patrymau tebyg o gamfanteisio a meithrin perthynas amhriodol sy'n arwain at gamfanteisio rhywiol ar blant â'r rhai sy'n arwain at gamfanteisio troseddol ar blant. Rydym yn cydnabod bod rhai stereoteipiau di-fudd am ddioddefwyr tebygol camfanteisio yn parhau – yn benodol y camfanteisir yn rhywiol ar ferched, tra camfanteisir yn droseddol ar fechgyn. Mae angen herio'r rhagdybiaethau hyn.

**139.** Mae llawer o'r materion y byddwn yn eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i blant y camfanteisir arnynt yn rhywiol: gwaith amlasiantaeth, rhannu gwybodaeth, a dileu – neu gyfyngu ar effaith – y ffactorau risg sy'n arwain at blant yn cael eu gwthio i'r ymylon. Gobeithiwn y bydd yr argymhellion a wnawn yn y meysydd hynny yn cyfrannu at ymateb cyfannol mwy effeithiol i blant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol.

**140.** Ond rhaid inni gydnabod bod dulliau camfanteisio rhywiol yn esblygu'n gyson, yn union fel y bydd gangiau troseddol yn addasu eu technegau camfanteisio troseddol. Mae technoleg newydd a llwyfannau digidol yn darparu adnoddau i gamfanteiswyr rhywiol ddefnyddio a manteisio ar blant. Rhaid i lunwyr polisi sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyflymder y newid, a diweddaru eu hymateb yn barhaus yn unol â hynny. Rydym yn croesawu'r adolygiad a'r diweddariad o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn 2025, ac yn annog y Gweinidog i sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei lywio gan farn a phrofiad gweithwyr proffesiynol y rheng flaen a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o gamfanteisio rhywiol.

# 3. Themâu trawsbynciol sy'n berthnasol i blant sydd ar yr ymylon

Roedd rhai o'r materion a godwyd gyda ni wrth gasglu tystiolaeth yn ymwneud yn sbesiffig â grwpiau penodol o blant sydd wedi'u gwthio i'r ymylon, fel y trafodwyd uchod. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, ac mae'n bosibl iawn y bydd plant sy'n agored i niwed yn perthyn i fwy nag un grŵp. Bydd rhai o'r materion sy'n berthnasol i gefnogi plant yn un o'r grwpiau hyn hefyd yn berthnasol i blant mewn grwpiau eraill. Yma, rydym yn trafod materion trawsbynciol sy'n ymwneud â phlant sydd wedi'u gwthio i'r ymylon yn gyffredinol.

## Gwaith amlasiantaeth

### Y tu hwnt i wasanaethau cymdeithasol

**141.** Efallai mai'r neges gliriaf a mwyaf cyson a gawsom, sy'n adlewyrchu canfyddiadau astudiaethau eraill ar blant sy'n agored i niwed[213], oedd bod diogelu plant sy'n agored i niwed mewn modd llwyddiannus yn gofyn am waith amlasiantaeth effeithiol.[214] Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym:

> *"If we don't have the health service, the police service, education and social care working together with those very vulnerable children—. You can#t rely on social services alone. These are very complex matters that happen in People#s lives. My suggestion would be you look at it from a multi-agency*

[213] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 58
[214] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 9-10

*perspective. You're going to miss a fundamental thing, I believe, if you only focus on children's social services."*[215]

**142.** Mae gan Gymru chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac un Bwrdd Diogelu Cenedlaethol. Mae'r byrddau yn bartneriaethau amlasiantaeth gyda chyfrifoldeb i oruchwylio diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae'n amlwg bod Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn llwyfan allweddol ar gyfer gwaith amlasiantaeth i rai cyrff cyhoeddus.[216] Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid o asiantaethau statudol ac anstatudol wrthym nad yw'n ymddangos bod y byrddau diogelu rhanbarthol a chenedlaethol yn cyfarfod mor aml ag y dylent, a bod pryderon eu bod yn gwrthsefyll cymryd perchnogaeth o Gamfanteisio Troseddol ar Blant.[217]

**143.** Nid dim ond drwy'r byrddau diogelu y cyflawnir gwaith amlasiantaeth mewn perthynas â phlant sydd wedi'u gwthio i'r ymylon. Pwysleisiodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru werth eu gwaith yn cynnal arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Dywedodd Estyn wrthym fod yr arolygiadau wedi tynnu sylw at y gwaith amlasiantaeth sy'n cael ei wneud i nodi a chefnogi plant sydd wedi'u gwthio i'r ymylon. Mynegodd Estyn yn benodol siom, oherwydd yr heriau ariannol presennol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, nad oedd unrhyw gynlluniau wedi'u cadarnhau i barhau â'r arolygiadau.[218] Rhannodd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru adborth cadarnhaol tebyg ynghylch effaith yr arolygiadau ar y cyd yn ystod gwaith craffu ar lafar, a chadarnhaodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi hynny inni y byddai'r cyllid ar gyfer y rhain yn parhau.[219]

**144.** I rai, roedd gwaith amlasiantaeth llwyddiannus yn dibynnu ar gael un unigolyn neu sefydliad a oedd yn cydgysylltu cymorth i'r plentyn a'i deulu. Clywsom o'n hymweliadau ymgysylltu, heb fod un gweithiwr proffesiynol yn brif gyswllt, y gall teuluoedd gael eu llethu gan nifer y gweithwyr proffesiynol

---

215 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 338
216 Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024; Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
217 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 12
218 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM20 Estyn (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 59
219 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 109 a 122-126

gwahanol yn eu bywydau.[220] Pwysleisiodd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cymdeithas Seicolegol Prydain, yr angen i weithwyr proffesiynol ddeall pwy sy'n cydgysylltu'r cymorth i'r teulu er mwyn sicrhau bod gwaith asiantaethau gwahanol yn cydblethu'n effeithiol.[221] Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gallai cynorthwywyr gwaith cymdeithasol ymgymryd â rôl gydgysylltu drwy fod yn brif bwyntiau cyswllt ynghylch camfanteisio i'r meysydd addysg, iechyd a'r heddlu, a'r holl asiantaethau partner, a gallent hefyd gynnal cyfweliadau dychwelyd adref.[222]

**145.** Wrth ddarparu tystiolaeth lafar i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd am bobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol, daeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru, a'r holl bartneriaid cyflenwi o ran cyfiawnder ieuenctid, yn canolbwyntio'n fawr ar ganlyniadau cadarnhaol i blant. Cred y Bwrdd mai'r her weithiau yw gwneud yn siŵr fod pawb yn gweithio gyda'i gilydd.[223]

**146.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng yr heddlu, byrddau iechyd, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Pwysleisiodd fod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, gan gynnwys yr heddlu, byrddau iechyd, a thimau troseddwyr ifanc, i hybu cydweithrediad ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Aeth ymlaen i egluro bod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu gwaith ymchwil gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion i weithio gyda byrddau diogelu rhanbarthol i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwaith amlasiantaeth. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r byrddau diogelu rhanbarthol fyddai'n gyfrifol am y fframwaith hwnnw.[224]

**147.** Gwnaethom bwyso ar Lywodraeth Cymru ynghylch pa mor aml y mae'r byrddau diogelu yn cyfarfod, yn dilyn ymlaen o bryderon a fynegwyd inni gan randdeiliaid. Wedi hynny, nododd Llywodraeth Cymru fod y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cwrdd yn chwarterol, a bod y Bwrdd Diogelu Annibynnol

---

[220] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 10
[221] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM22 Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) (Saesneg yn unig)
[222] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)
[223] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 334
[224] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 107-108 a 157-167

Cenedlaethol yn cwrdd yn fisol. Fodd bynnag, nid oedd y llythyr yn cadarnhau pa mor aml y mae'r byrddau wedi cwrdd *mewn gwirionedd*, yn hytrach na pha mor aml y *dylent* gwrdd.[225]

**148.** Bu'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn trafod y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, sy'n cael ei chyflwyno o fis Hydref 2024. Eglurodd, yn hytrach na bod asiantaethau unigol yn goruchwylio adolygiadau diogelu, bydd y broses adolygiad sengl yn broses amlasiantaeth sy'n dwyn ynghyd unrhyw argymhellion sy'n deillio o adolygiadau unigol, ac yn eu gosod mewn un ystorfa er mwyn gwella'r broses o rannu gwybodaeth. Bydd yr ystorfa yn cael ei goruchwylio gan grŵp goruchwylio gweinidogol. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod y model newydd hwn yn 'arloesol' ac 'o'r radd flaenaf', ac y byddai'n cael ei ddefnyddio i lywio a chryfhau rolau'r byrddau diogelu rhanbarthol yn y dyfodol.[226]

**149.** Diben adolygiadau diogelu yw ystyried achosion ar ôl y digwyddiad, yn dilyn achosion difrifol o gam-drin neu esgeuluso plentyn y gwyddys neu a amheuir. Erbyn hynny, mae pethau wedi mynd o chwith – gyda chanlyniadau trasig i blant a'u teuluoedd. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am eglurder ynghylch pa werth yr oedd yr adolygiad yn ei gynnig i chwalu rhwystrau i rannu gwybodaeth *cyn* i bethau fynd o chwith:

> *"… the SUSR, yes, is about reviews when things have gone wrong, but more importantly, they're about how we prevent things from going wrong in the future. Without repeating everything that we've said before, it is about all of those agencies working together and working effectively and sharing information with each other."*[227]

**150.** Fodd bynnag, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi pryder ers hynny ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd y broses adolygu diogelu arfaethedig, gan gynnwys ynghylch sicrhau:

- y rhennir gwersi o adolygiadau ac y nodir camau gweithredu ar sail Cymru gyfan;

[225] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Phrif Chwip, a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024
[226] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 161, 171-174
[227] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 190-192

- bod cynlluniau gweithredu y bwriedir iddynt roi argymhellion o adolygiadau ar waith yn cael eu datblygu a'u cyflawni, a phwy fydd yn goruchwylio hyn; a
- bod argymhellion o adolygiadau wedi'u fframio'n addas fel nad ydynt yn berthnasol i'r ardal ranbarthol sy'n cynnal yr Adolygiad yn unig.[228]

**151.** Mewn sesiwn dystiolaeth ddiweddar gyda ni, trafododd ei phryderon yn fanylach:

> *"… that is the crux of the concerns that we have: it's, again, accountability. Who is ultimately responsible? Under the new guidance, under the new arrangements, it's still the case that the recommendations from CPRs [Child Protection Reviews] just continue to be owned by the safeguarding boards, by the owners of those reviews, and it's not anyone else's duty to actually implement those recommendations. So, there's a lack of oversight over whether and how recommendations are implemented… What the new arrangements bring that wasn't there previously is effectively a repository of previous and existing CPRs or SUSRs. So, it's a database… We still have many unanswered questions about the processes by which the repository will be utilised."*[229]

**152.** Aeth Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus y Comisiynydd ymlaen i fynegi pryder ynghylch rôl Llywodraeth Cymru yn benodol yn y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

> *"… all reports are sent to Welsh Government as matter of course, before they're published, and the action plans too. But Government don't have to do anything with those … There's no specific role for them to respond within a certain time or confirm what they would do. And that has just been copied across into the new system. So, again, when the repository was being created to house all of the previous reports, Government weren't even sure that they had copies of all the ones that had been sent to them previously, let alone that they'd done anything with them. So, there's no role for Government. They will*

[228] Comisiynydd Plant Cymru, 'Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24', Hydref 2024, tudalen 28
[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-98

> *send reports out and say, 'By the way, this has been published', but they don't have to provide that response, they don't have to commit to taking any actions. So, there will be recommendations that are 10 plus years old that have never had that national look or drive and direction."*[230]

## Yr heddlu

**153.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom am waith amlasiantaeth yn canolbwyntio ar yr heddlu: sut mae heddluoedd yn rhannu gwybodaeth ac yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill. Tynnodd Plismona yng Nghymru ein sylw at waith amlasiantaeth ar draws heddluoedd Cymru, gan gynnwys Uwchgynhadledd Plant Coll ym mis Ebrill 2024, a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru, a gwaith ymchwil am brofiadau bywyd plant sydd ar fin wynebu camfanteisio troseddol, a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent yn 2020, ochr yn ochr ag asiantaethau eraill. Yn y cyfamser, mae gan Heddlu Dyfed Powys arbrawf brysbennu integredig partneriaeth ar y gweill yn Sir Benfro, sydd â'r nod o atal a lleihau niwed a chamfanteisio ar blant gyda dull wedi'i dargedu'n fwy at gymorth cynnar ar draws yr holl asiantaethau. Mae cynlluniau i werthuso ac o bosibl ystyried parhad ac ehangiad y dull hwn yn ehangach ar draws rhanbarth Dyfed-Powys.[231]

**154.** Roedd rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod cyfarfodydd amlasiantaeth sy'n cynnwys yr heddlu yn hanfodol ar gyfer cynnal perthnasoedd gwaith da rhwng yr heddlu a phartneriaid.[232] Soniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrthym am eu Cyfarfodydd Rheoli Risgiau Camfanteisio yn ymwneud â phobl ifanc sy'n wynebu risg uchel:

> *"These generally take place fortnightly until situations calms and then decline to once a month to monitor. This is a professionals meeting involving Exploitation and missing police, YOS, drug and alcohol services, connecting families and education and any professional service working with the family."*[233]

[230] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[231] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[232] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM22 Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) (Saesneg yn unig)
[233] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)

**155.** Fodd bynnag, adroddodd Barnardo's Cymru fod swyddogion yr heddlu yn cael eu cylchdroi yn rhy gyflym, sy'n golygu eu bod yn treulio cyfnodau cymharol fyr o fewn rhai timau. Gwnaethant ddweud wrthym fod rhai ymarferwyr yn teimlo bod hyn yn effeithio ar eu harbenigedd a'u dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu plant sy'n agored i niwed. Roeddent yn dadlau y gallai'r heddlu wneud mwy i hybu gwybodaeth sefydliadol a hyfforddiant i swyddogion, gan nodi'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd fel enghraifft o arfer da.[234]

## Cyrff iechyd

**156.** Mae cyrff iechyd yn chwarae rôl ddiogelu allweddol fel rhan o ddull amlasiantaeth o nodi plant sy'n agored i niwed a allai wynebu, neu a allai fod mewn perygl o wynebu, cael eu gwthio i'r ymylon. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sut y mae'n cyfathrebu ar draws asiantaethau gwahanol:

> *"In terms of exploitation the health board receives the police cohort for both sexual and criminal exploitation bi-monthly for [Local Authorities in Gwent]... The safeguarding team collate a list of these children which is shared with A&E, CAMHS, sexual health and school health nursing. These services then add the necessary flags to children's record. For example, if a child on the exploitation cohort attends A&E, then there is a flag on their records to submit a duty to report to children's services."*

Mae'n mynd ymlaen i egluro bod Nyrsys Clinigol Arbenigol o ofal gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi bod ar secondiad i wasanaethau troseddau ieuenctid, a bod cynrychiolaeth o'r byrddau iechyd ar baneli Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ochr yn ochr â chydweithwyr yn yr heddlu ac awdurdodau lleol.[235]

**157.** Clywsom gan fyrddau iechyd y gofynnir cwestiynau ynghylch diogelu i bob plentyn sy'n mynychu gwasanaethau iechyd rhywiol, sy'n bwydo i mewn i asesiad risg camfanteisio rhywiol. Gwneir atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol os yw plentyn yn ymateb "ie" i gwestiynau penodol.[236] Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd wedi hyrwyddo llwybr gorddos, lle mae staff adrannau

---

[234] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[235] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Awst 2024
[236] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024; Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 30 Awst 2024; Llythyr gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024

damweiniau ac achosion brys yn gwneud atgyfeiriadau amddiffyn plant os bodlonir meini prawf penodol. Mae'r tîm sy'n goruchwylio'r broses hon yn rhan o gyfarfodydd Camfanteisio ar Blant Amlasiantaeth (MACE) Gwent, dan arweiniad Heddlu Gwent. Mae'n pwysleisio bod gweithio ar y cyd yn allweddol i weithio'n llwyddiannus i gefnogi plant sy'n agored i niwed.[237]

**158.** Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei fod wedi gwneud atgyfeiriadau yn ddiweddar i wasanaethau plant o dan 'ddyletswydd i adrodd' y bwrdd ar ôl i garfan fach o bobl ifanc sy'n ymwneud â gangiau gyflwyno i'w gwasanaethau. Mae'n ychwanegu bod Nyrsys Diogelu'r Cyhoedd sydd wedi'u lleoli yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn gweithio'n agos gyda thîm pobl coll yr heddlu ac yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth ynghylch pobl coll a chamfanteisio rhywiol ar blant.[238] Yn yr un modd, nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fecanweithiau ar gyfer atgyfeiriadau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru os oes gan staff mewn Unedau Mân Anafiadau, meddygon teulu a gwasanaethau y tu allan i oriau bryderon ynghylch lles plentyn.[239]

**159.** Fodd bynnag, mae tystiolaeth byrddau iechyd yn dangos bod cyfyngiadau i'r systemau a ddefnyddir i hwyluso gwaith rhyngasiantaethol. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wrthym ei fod wedi gweld nifer o gyflwyniadau ag anafiadau, gan gynnwys cwympiadau o feiciau modur neu sgwteri trydan, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a gorddosau o feddyginiaeth ar bresgripsiwn. Fodd bynnag, er bod y plant hyn yn hysbys i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant y camfanteisir arnynt, nid oes tystiolaeth bod y cyflwyniadau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â chamfanteisio gan nad oes datgeliadau wedi'u gwneud.[240] Ysgrifennodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei bod yn anodd mesur union raddfa a natur y plant sy'n cyflwyno anafiadau sy'n awgrymu y gallent fod yn ddioddefwyr camfanteisio troseddol, oherwydd y system o godio presenoldeb ar System Gweinyddu Cleifion Cymru.[241]

---

[237] 'Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 9 Awst 2024
[238] 'Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 30 Awst 2024
[239] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 30 Awst 2024; Llythyr gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[240] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Awst 2024
[241] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024

**160.** Galwodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am y canlynol:

- Rhywbeth sydd gyfwerth â'r asesiad risg camfanteisio rhywiol ar gyfer plant lle mae pryderon ynghylch camfanteisio troseddol. Gwnaeth Heddlu De Cymru alwadau tebyg, gan ddadlau y gall asesu risg a blaenoriaethu plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio wedi hynny fod yn heriol yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig ac absenoldeb adnodd asesu risg camfanteisio ar gyfer Cymru gyfan.[242]

- Hyfforddiant pwrpasol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ynghylch anafiadau a allai fod yn arwydd o gamfanteisio troseddol (a allai gynnwys yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu er mwyn gwella gwaith amlasiantaeth).

At hynny, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn galw am y canlynol:

- Prosesau casglu ac adrodd gwell ar gyfer data drwy sefydlu dull systematig o gasglu data ar blant a phobl ifanc sy'n cael anafiadau sy'n awgrymu camfanteisio troseddol mewn adrannau achosion brys.[243]

**161.** Cyfeiriodd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru at yr holiadur risg camfanteisio rhywiol a mentrau eraill – gan gynnwys hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' i gefnogi'r gwaith o nodi cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd – fel tystiolaeth o waith amlasiantaeth effeithiol. Cyfeiriodd hefyd at 'adolygiad diogelu atgyfnerthu', a fydd yn arwain at gynllun gweithredu, a fydd yn cael ei anfon allan ar gyfer ymgynghoriad ehangach yn fuan.[244]

## Rhannu gwybodaeth

**162.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar rannu gwybodaeth, gan gynnwys 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' (WASPI) a 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant: Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr'. Adnodd yw'r cyntaf i helpu

[242] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[243] Llythyr gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024; Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 30 Awst 2024
[244] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 121

sefydliadau sy'n cymryd rhan i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon, sy'n cynnwys Protocol Rhannu Gwybodaeth a Chytundeb Datgelu Data.[245] Bwriedir i'r olaf fod yn gyngor i bob rheolwr ac ymarferydd y rheng flaen sy'n gweithio gyda phlant i wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth bersonol fesul achos, lle mae pryderon diogelu.[246]

**163.** Er yr adnoddau a'r canllawiau hyn, tynnodd nifer o sefydliadau sylw at rannu gwybodaeth yn effeithlon fel ffactor allweddol mewn gwaith amlasiantaeth effeithiol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am un porth rhannu gwybodaeth unigol, gan ddefnyddio mewnbwn gan amrywiaeth o asiantaethau, yn yr un modd ag argymhelliad Cwm Taf Morgannwg uchod.[247] Adroddodd ymchwilwyr o Brifysgol Lerpwl a Phrifysgol John Moores Lerpwl fod cyfweleion mewn rolau plismona yn amlygu bod rhannu gwybodaeth mewn ymchwiliadau i bobl sydd ar goll yn cael ei effeithio gan dechnoleg.[248] Rhannodd Gweithredu dros Blant ganfyddiadau tebyg o waith ymchwil parhaus a gynhaliwyd gan CASCADE.[249] Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain:

> *"… local authorities and health boards continue to face barriers to sharing data on vulnerable children and young people. This disconnect and lack of joined up working raises concerns that vulnerable children are more likely to go unnoticed and could be denied the support they need".*

Fodd bynnag, gwnaethant hefyd annog Llywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd cyfrinachedd cleifion fel rhan o'i chynlluniau i greu Cronfa Ddata Plant Sydd Ar Goll Mewn Addysg.[250]

**164.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a oedd yn credu bod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhwystr i rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng partneriaid statudol ac anstatudol. Dywedodd y Gweinidog wrthym y gall y GDPR achosi heriau – er enghraifft, mewn perthynas â'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl y soniwyd amdano eisoes, a oedd yn gofyn am

[245] Llywodraeth Cymru, 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru'
[246] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant. Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr', Gorffennaf 2019
[247] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 10
[248] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM22 Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) (Saesneg yn unig)
[249] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)

waith helaeth gyda swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Eglurodd Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

> *"It did take time, about six months, to go through that, because it is absolutely an important consideration, particularly when you're sharing very sensitive data. But we also have to remember that this is often involving child abuse and neglect, and those circumstances, so it is very important that that information is shared… But you're quite right, it is an important consideration, and it's very complex… this is a very new field as well, and we had to use some external legal experts to work with us on that because of the complexities. I think the Information Commissioner's Office was very grateful for that."*[251]

**Astudiaeth achos rhannu gwybodaeth gan Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg: y Traciwr Diogelu Amlasiantaeth (MAST)**

Mae MAST yn ddatrysiad rhannu gwybodaeth digidol yn y cwmwl. Fe'i hariannwyd yn wreiddiol gan GIG Lloegr, y Gymdeithas Llywodraeth Leol a phartneriaid diogelu craidd o bob rhan o Orllewin Canolbarth Lloegr, fel rhan o Gyflymydd Arloesedd Digidol Gofal Cymdeithasol 2020/21.

Mae'r traciwr yn galluogi partneriaid sydd â chyfrifoldeb gorfodol dros ddiogelu i rannu prif data yn ddiogel, wedi'i ategu gan strwythur llywodraethu gwybodaeth wedi'i ddogfennu. Mae'r llwyfan yn rhoi mynediad uniongyrchol, amser real at weithgarwch diogelu dros y 12 mis diwethaf (wedi'i ddiweddaru'n awtomatig bob dydd) - y gellir ei chwilio yn ôl unigolyn a chyfeiriad.

Mae partneriaid technegol MAST, Policy in Practice, yn egluro:

*"MAST is a digital tool that allows social workers to easily see whether other safeguarding agencies are actively involved with a person or address. This information will support their professional judgement, and make it easier to have conversations with practitioners from other services. This means that social workers can better support vulnerable people."*

Ymgysylltodd Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg â thîm MAST yn 2021 i gynnal cynllun peilot ('prawf o gysyniad') ar gyfer MAST i weithredu ar draws Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Abertawe, Heddlu De Cymru a Bwrdd

[251] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 132-136

Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rhannwyd dros 400,000 o gofnodion fel rhan o'r peilot. Ymhlith mewnwelediadau allweddol y cynllun peilot roedd y canlynol:

- Y gallu i chwilio drwy unigolion a chyfeiriadau i weld tueddiadau yn y data, a gweld achosion yn trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- Unigolion y nodwyd eu bod wedi rhyngweithio â gwasanaethau plant/gofal iechyd a'r heddlu, nad oeddent wedi'u nodi o'r blaen.
- Nodi'r rhai sy'n gadael gofal a oedd yn y ddalfa, neu wedi bod yn y gorffennol.
- Tystiolaeth o unigolion sydd â chyswllt uchel â'r Gwasanaeth Iechyd (adrannau damweiniau ac achosion brys ac achosion lle maent wedi methu apwyntiad), gan gynnwys 93 o unigolion â rhwng 16-25 o ryngweithiadau â'r GIG dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Yn dilyn y prawf cysyniad llwyddiannus, mae Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg yn y camau olaf o gyflwyno MAST Gorllewin Morgannwg yn llawn. Mewn dogfennau a rennir gyda'r Pwyllgor, mae tîm MAST Gorllewin Morgannwg yn galw am MAST Cymru gyfan i wella'r broses o rannu gwybodaeth ymhlith asiantaethau sydd â chyfrifoldebau diogelu ledled y wlad.[252]

## Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol

### Manteision ymyrraeth gynnar

**165.** Dro ar ôl tro, clywsom weithwyr proffesiynol ac academyddion yn dadlau o blaid ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol i amddiffyn plant sy'n agored i niwed sydd ar yr ymylon. Amlinellodd Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd Cymru eu prosiectau ymyrraeth gynnar i gefnogi eu hymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant, gyda'r olaf yn pwysleisio y bydd atal yn sail i waith yn y dyfodol i gefnogi plant a phobl ifanc.[253]

**166.** Soniodd gweithiwr proffesiynol statudol arall wrthym am ei adolygiadau o ffeiliau achos ar gyfer plant y manteisir arnynt a oedd yn debyg i "edrych ar

[252] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM Gwybodaeth ychwanegol Partneriaeth Diogelu Gorllewin Morgannwg (Saesneg yn unig); Co-Fund a Collaborate to Innovate, 'Traciwr Diogelu Amlasiantaeth (Saesneg yn unig)'; Polisi ar Waith, 'Welcome to the Multi Agency Safeguarding Tracker (Saesneg yn unig)'
[253] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024

ddamwain car yn digwydd yn araf bach". Cawsom wybod bod y ffactorau risg yn glir i'w gweld o'r dechrau, ond bod yr anochel yn digwydd heb ymyrraeth gynnar.[254] Cytunodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, gan ddweud wrthym y gall pobl ifanc, heb ymyrraeth gynnar neu gymorth, gael eu llusgo i weithgarwch troseddol.[255] Rhoddodd Adolygiad Jay grynodeb o effaith gadarnhaol ymyriadau cynnar:

> *"We heard evidence on the range of early interventions and ways of working with children and families that had been shown to be successful. This included ensuring that parents are seen as a protective factor and that interventions are child-centred, trauma-informed and work with the family as a whole, including being aware of contextual factors such as ethnicity, poverty, unstable housing or employment and mental ill-health."*[256]

**167.** Dadleuodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod y trothwyon ar gyfer bod angen gwasanaethau cymorth yn uchel iawn, sy'n golygu y bydd achosion eisoes wedi cynyddu'n sylweddol pan fyddant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cymorth. Roedd o blaid ymyrraeth gynnar i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn llai tebygol o fod angen cymorth parhaus.[257] Roedd rhai o'r rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â hwy o'r un farn, gan ddadlau na ddylai trothwyon sefydlog ar gyfer ymyriadau fod yn sail ar gyfer cymryd camau bob amser. Dylai ymyrryd yn gynnar, gan sylwi ar arwyddion cynnar megis ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, dynnu'r ffocws oddi wrth waith adweithiol tuag at ymyrraeth gynnar.[258]

**168.** Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys RAY Ceredigion, werth gwaith ieuenctid yn y gymuned, y pwysleisiodd Cymorth i Ferched Cymru ei fod yn allweddol i brosesau'n ymwneud ag ymyrraeth gynnar ac atal.[259]

---

[254] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 14
[255] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[256] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 63
[257] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[258] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 14
[259] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM3 RAY Ceredigion (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig). Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)

**169.** Pwysleisiodd rhai gweithwyr proffesiynol inni bwysigrwydd gweithio gyda'r teulu cyfan, a hyd yn oed y gymuned ehangach, i ddadnormaleiddio gweithgarwch troseddol. Clywsom nad oedd llawer o rieni plant sydd wedi ymwneud â gweithgarwch troseddol hyd yn oed yn gwybod bod eu plant yn wynebu risg.[260] Eglurodd eraill fod ar rai teuluoedd ofn ymgysylltu â gwasanaethau statudol (er enghraifft, er mwyn adrodd bod eu plentyn ar goll, neu eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol) oherwydd eu bod yn ofni y bydd y plentyn yn cael ei roi mewn gofal. Galwodd eraill am fuddsoddi mwy mewn eiriolaeth rhieni er mwyn rhoi llais i rieni sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Roedd eraill yn argymell yn gryf Gynadledda Grŵp Teuluol fel symudiad diwylliannol tuag at waith sy'n canolbwyntio ar y teulu.[261]

**170.** Yn ystod y cwestiynu, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet inni bwysigrwydd gwaith atal fel cydran allweddol o'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru. Amlygodd y prosiect Bwlch yn Sir Gaerfyrddin, sef gwasanaeth cymorth ieuenctid sy'n dod â gwaith ieuenctid a staff cyfiawnder ieuenctid ynghyd, fel enghraifft gadarnhaol o waith amlasiantaeth i sicrhau un dull cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar atal.[262]

**Astudiaeth achos: Ymateb Cyflym Casnewydd (Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru)**

Lansiwyd y gwasanaeth Ymateb Cyflym ym mis Medi 2020. Mae'n un o sawl tîm sy'n dod o dan ymbarél Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Casnewydd, sy'n bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru.

Nod Ymateb Cyflym yw darparu ymyriadau hyd at chwe wythnos sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u llywio gan drawma. Mae'r tîm Ymateb Cyflym yn cymryd atgyfeiriadau lle mae teulu yn wynebu risg o chwalu. Ar ôl ymgynghori â'r gweithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio, bydd yr holl atgyfeiriadau i'r gwasanaeth yn cael eu dyrannu ar unwaith a bydd cyswllt yn cael ei wneud â theuluoedd o fewn 24 awr i'r pwynt dyrannu. Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth i'r teulu er mwyn helpu i sefydlogi'r sefyllfa a, lle bo'n bosibl, aros yn ddiogel gyda'i gilydd. Mae llwybr cymorth yn cael ei ddatblygu ar gyfer y teulu yn ystod yr ymyriad chwe wythnos i hyrwyddo eu hymgysylltiad, gyda chymorth cymunedol a theuluol i'w

[260] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 11
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 4 ac 8
[262] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 70-72

grymuso i nodi a diwallu eu hanghenion eu hunain yn ddiogel yn y dyfodol. Os canfyddir anghenion ychwanegol, yna bydd teuluoedd sy'n agored i'r gwasanaeth yn cael eu dyrannu naill ai i Dîm Cymorth i Deuluoedd neu Dîm Therapiwtig ar gyfer cymorth parhaus.

Mae Ymateb Cyflym yn brosiect bach gyda thri gweithiwr cymorth i deuluoedd ochr yn ochr â Hwb Diogelu Cyngor Dinas Casnewydd i ymateb ar unwaith i anghenion teuluoedd. Mae gweithwyr yn darparu ymyrraeth ddwys ar unwaith i deuluoedd sy'n wynebu risg uniongyrchol o chwalu. Heb y cymorth hwn, mae'n debyg y byddai'r person ifanc yn dod i ofal.

Mae Ymateb Cyflym wedi gweithio gyda 205 o bobl ifanc ers mis Medi 2020:

- Mewn 93 y cant (n. = 180) o'r achosion hyn arhosodd y person ifanc gartref gyda'i deulu.
- Mae 93 y cant o'r bobl ifanc hyn wedi aros allan o ofal am o leiaf chwe mis.
- Cefnogwyd 18 o'r bobl ifanc hyn i dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
- Dim ond saith person ifanc a wrthododd ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Byddai pob person ifanc yn argymell Ymateb Cyflym i deuluoedd eraill sy'n wynebu anawsterau tebyg.

## Ysgolion fel safleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar

**171.** Cawsom gorff sylweddol o dystiolaeth am fanteision ymyrraeth gynnar mewn ysgolion (a drafodir yma), a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â pheidio â mynychu'r ysgol (a drafodir o dan 'Ffactorau risg o ran gwthio i'r ymylon' yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Ysgrifennodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod athrawon a staff cymorth yn chwarae rhan allweddol wrth roi sefydlogrwydd i blant.[263] Cyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) safbwyntiau tebyg, gan bwysleisio'r rôl hollbwysig y mae ysgolion yn ei chwarae i nodi plant sy'n wynebu risg o ymddieithrio.[264] Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y dylai rhaglen ymyrraeth gynnar ddechrau ym Mlwyddyn 6, a dywedodd hefyd fod rhieni wedi gofyn am sesiynau gydag ysgolion i ddysgu mwy am gamfanteisio ac i roi cymorth i'w gilydd.[265]

[263] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[264] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[265] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig)

**172.** Fodd bynnag, clywsom bryderon hefyd nad oes gan ysgolion bob amser y capasiti a/neu'r sgiliau i ddarparu cymorth arbenigol o'r fath. Mynegodd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg bryder ymhlith ysgolion ynghylch diffyg mewn adnoddau a chapasiti i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. Maent yn cyfeirio at heriau mewn cadw cymorth ar ffurf cynorthwywyr addysgu bugeiliol o safon, y mae'n dadlau a all gael effaith ddifrifol ar ymateb ysgolion i ddisgyblion sy'n wynebu risg.[266] Mynegodd Cymdeithas Seicolegol Prydain bryderon tebyg, gan nodi bod ysgolion yn cael eu gorymestyn, ac, o'r herwydd, efallai'n cael trafferth mabwysiadu dulliau mwy 'perthynol' yn hytrach nag 'ymddygiadol'.[267] Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym, yn eu profiad hwy, y gall cynnwys staff ysgol hyd yn oed arwain at ganlyniadau anfwriadol negyddol. Er enghraifft, eglurodd un gweithiwr proffesiynol y rheng flaen y gallai ysgol wahardd plentyn y mae'n amau ei fod yn ymwneud â gwerthu cyffuriau, a all arwain at chwalfa deuluol, gan waethygu'r broblem.[268]

**173.** Clywodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion fod effeithiolrwydd ymyrraeth yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir gan yr ysgol ac athrawon unigol. Nodwyd bod ysgolion yn amrywio'n fawr o ran lefel eu hymrwymiad i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu risg. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn rhoi gwybod i awdurdodau am bryderon yn gyflym, a all greu ymdeimlad o ofn a diffyg ymddiriedaeth ymhlith myfyrwyr. Roedd yn galw am hyfforddi staff ysgol i adnabod ac ymateb yn effeithiol i arwyddion o gamfanteisio, gan alluogi ymyriadau amserol a phriodol. Fel y dywedodd un cyfranogwr:

> *"It all comes down to the teacher… You need the right kind of teacher, not just anyone who's been hired, you need a special team."*[269]

**174.** Roedd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yn galw am gyllid i ysgolion yn benodol i gefnogi plant a allai fod yn wynebu risg o gael eu gwthio i'r ymylon ac yn agored i gamfanteisio troseddol ar blant.[270] Yn yr un modd, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn pwysleisio bod angen hyfforddiant parhaus priodol ar staff addysgu a

[266] Llythyr gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[267] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[268] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 20
[269] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalennau 8-9
[270] Llythyr gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024

staff nad ydynt yn addysgu, gan gynnwys gan sefydliadau arbenigol fel y bo'n briodol.[271]

**175.** Dadleuodd eraill y gallai ymyriadau ataliol ddigwydd mewn ysgolion, ond y gallent gael eu darparu gan asiantaethau allanol. Er enghraifft, adroddodd CASCADE fod pobl ifanc sydd â phrofiad o gamfanteisio wedi galw am leoli gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion, safbwynt a rennir gan rai o'r rhanddeiliaid y siaradwyd â hwy.[272] Ysgrifennodd Heddlu Gwent eu bod wedi comisiynu Crime Stoppers Fearless i gynnal gweithdai gyda phlant mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid.[273]

**176.** Yn y cyfamser, amlygodd Heddlu Dyfed-Powys Raglen Heddlu Ysgolion Cymru Gyfan, a arweiniodd at yr heddlu yn mynd i 318 o ysgolion ledled ei hardal. Mae'r heddlu wedi buddsoddi mewn swyddogion sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion ac sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. Maent yn darparu gwybodaeth gyfredol am ystod o bynciau, gan gynnwys llinellau cyffuriau a chamfanteisio, i ysgolion, plant a phobl ifanc.[274] Fodd bynnag, mynegodd Barnardo's Cymru bryder ynghylch y ffaith bod Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn dod i ben yn 2024, yn dilyn toriadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/2025. Disgrifiwyd y rhaglen fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer helpu plant i ddeall rôl yr heddlu, dod i adnabod swyddogion lleol a meithrin cydberthnasau, a chyflawni gwaith atal ac ymyrraeth gynnar.[275]

## Gwasanaethau cymdeithasol

### Materion ynghylch y gweithlu

**177.** Roedd y pryderon a fynegwyd amlaf yn ystod ein hymchwiliad i ddiwygio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol.[276] Yma, unwaith eto, tynnodd ystod o

[271] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[272] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 8
[273] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg yn unig), 23 Awst 2024
[274] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg yn unig), 23 Awst 2024
[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 25-38

wahanol randdeiliaid sylw at oblygiadau'r pwysau ar dimau gofal cymdeithasol i blant o ran sut y gallant weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon.

**178.** Mae pryderon ynghylch recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ymhlith y themâu amlycaf yn ein gwaith casglu tystiolaeth. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru fod yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau arbenigol o ran recriwtio a chadw staff yn 'argyfwng acíwt.'[277] Dywedodd Barnardo's Cymru fod heriau o ran recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yn golygu ei bod yn anhygoel o anodd sicrhau bod plant yn cael mynediad at yr un gweithiwr i feithrin perthynas o ymddiriedaeth. Daethant hefyd i'r casgliad bod y sector gwaith cymdeithasol "mewn argyfwng", ac anogwyd Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod gwaith cymdeithasol yn opsiwn gyrfa deniadol.[278] Dadleuodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod cyfradd newid gweithwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol yn effeithio ar ba mor agored i niwed yw'r plant y maent yn gweithio gyda hwy,[279] a mynegodd nifer o randdeiliaid yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu bryder ynghylch effaith gweithwyr asiantaeth a'r trosiant uchel o staff gofal cymdeithasol[280]. Gwnaeth rhanddeiliaid eraill y cysylltiad rhwng yr hyn a welent fel difrïo gweithwyr cymdeithasol yn y cyfryngau a'r heriau recriwtio a chadw sy'n wynebu'r gweithlu gofal cymdeithasol.[281]

**179.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch effaith llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol ar eu gwaith gyda phlant sy'n agored i niwed. Dadleuodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru fod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol yn rhy uchel i gefnogi'r plant hyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol mewn modd effeithiol.[282] Roedd Barnardo's yn cysylltu llwythi achosion uchel â'r heriau recriwtio a chadw a wynebir gan y sector, fel y nodwyd uchod, a dadleuodd y dylid mynd i'r afael â'r materion hirsefydlog hyn er mwyn gwella canlyniadau i staff, plant a'u teuluoedd.[283] Yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu, clywsom nad yw gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i fod â'r capasiti i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau hŷn, a bod amser gweithwyr cymdeithasol yn canolbwyntio ar blant iau. Teimlai un gweithiwr

[277] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)
[278] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[279] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[280] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 15-16
[281] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 8
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[283] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)

proffesiynol y gall pobl ifanc hŷn yn eu harddegau gael eu diystyru, gan ddweud wrthym pan fyddant yn cyrraedd 18 oed eu bod yn wynebu ymyl clogwyn o gefnogaeth, a bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn cael y fargen waethaf.[284]

**180.** Roedd tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn crynhoi'r heriau y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn eu hwynebu:

> *"Given the extremely challenging public sector funding situation, services and the work-force delivering services are coming under increasing strain, with less money at the same time as ever increasing demand. As well as a reduction in capacity across services, there is a recruitment and retention crisis compounding an already challenging scenario. All of these factors impact on the ability of local government services to effectively engage with children, young people and their families/carers to either avoid them finding themselves on the margins of services and/or when they find themselves in difficult circumstances, carrying out the intensive work necessary to overcome barriers to accessing even basic provision."*[285]

**181.** Soniodd un gweithiwr proffesiynol wrthym fod rhai timau gwaith cymdeithasol yn croesawu'r model 'gweithiwr cymdeithasol cydnerth', yr oedd yn ei ddisgrifio fel gweithiwr cymdeithasol a ddylai ddisgwyl gallu amsugno'r drasiedi, y cam-drin a'r poen y maent yn ei brofi yn y swyddi, heb gymorth proffesiynol parhaus a therapi i'w helpu i reoli'r emosiynau hynny. Clywsom ei bod yn hanfodol bod staff gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi ei gilydd, ac yn mynegi pryderon ynghylch straen neu bryder amdanynt eu hunain neu eu cydweithwyr os oes angen.[286]

**182.** Clywsom wahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylai gwasanaethau cymdeithasol ymateb i blant sydd ar yr ymylon a sut i'w cefnogi hwy a'u teuluoedd. Teimlai rhai rhanddeiliaid y dylid cael timau arbenigol o weithwyr cymdeithasol i weithio gyda'r plant sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf, a'u teuluoedd; roedd eraill yn anghytuno'n gryf, gan ddweud y dylai pob aelod o staff gael ei gefnogi i gael y sgiliau hynny. Clywsom alwadau i weithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar eu dyletswyddau statudol, ac i weithwyr

---

[284] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 15
[285] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[286] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 8

elusen y trydydd sector arwain ar waith sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd. Roedd rhai grwpiau o weithwyr elusennol proffesiynol yn argymell dull partneriaeth, lle mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr elusennol mwy arbenigol, y mae eu rolau'n ymwneud ag ymgysylltu'n fwy anffurfiol â phlant a'u teuluoedd. Dadleuodd eraill y dylid neilltuo gweithwyr cymdeithasol i deuluoedd yn eu cyfanrwydd, yn hytrach nag i bobl ifanc penodol, gan egluro, os aiff y person ifanc ar goll, y bydd y teulu yn aml yn cael ei adael heb gymorth.[287] Fodd bynnag, roedd consensws cryf y dylai'r staff mwyaf profiadol a gwybodus fod yn gweithio gyda'r plant sydd fwyaf agored i niwed ac sydd ar yr ymylon, ac y dylai gweithwyr cymdeithasol gael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol cywir i weithio gyda phlant sy'n wynebu risg.[288]

**183.** Roedd y bobl ifanc sydd â phrofiad personol o droseddoli a siaradodd â'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu pryderon sylweddol ynghylch effeithiolrwydd systemau cymorth gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Disgrifiodd rai brofiadau o gael eu hesgeuluso neu ddiffyg cefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol, ac yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn canolbwyntio mwy ar gyflawni rhwymedigaethau biwrocrataidd nag ar gynnig cymorth ystyrlon. Mynegwyd ymdeimlad o ddiffyg ymddiriedaeth tuag at y gwasanaethau cymdeithasol, gan ddisgrifio sut roedd cymorth annibynadwy neu ddiffyg cymorth wedi gwaethygu eu hamgylchiadau. Mynegodd pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd rwystredigaeth gyda'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ymyriadau tocenistaidd neu fyrdymor. Clywsom fod meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd sy'n agored i niwed yn broses raddol sy'n gofyn am ymrwymiad parhaus, a dadleuwyd y gall diffyg cymorth cyson a thosturiol wneud i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, ac yn amharod i ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn. Clywsom alwadau am i wasanaethau cymdeithasol gael rôl fwy ragweithiol wrth gefnogi teuluoedd, ac i wasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio ar gymorth parhaus sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth yn hytrach nag ymyriadau byrdymor:

> *"It's not enough to just try to help a kid for a few weeks and then move on. You've got to put in the time to understand*

[287] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 16
[288] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 15; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 8

*what's going on in their lives. Building that trust doesn't happen overnight."*[289]

**184.** Gwnaethom holi'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei hasesiad o gapasiti'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gydnabod yr heriau a wynebir gan lwythi achosion uchel, trosiant staff a materion cysylltiedig eraill. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn arbennig o bryderus ynghylch y gweithlu gofal cymdeithasol. Tynnodd sylw at ymyriadau Llywodraeth Cymru i gryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys y fwrsariaeth gwaith cymdeithasol a llwybrau gyrfa gofal cymdeithasol. Nododd y Gweinidog a'i swyddogion, ers cyflwyno'r fwrsariaeth, fod cynnydd wedi bod yn y garfan o weithwyr cymdeithasol sy'n mynd drwy hyfforddiant (665 o fyfyrwyr ym mis Medi 2024, gan gynnwys myfyrwyr traddodiadol, y rhai sy'n manteisio ar y fwrsariaeth i weithwyr cymdeithasol a chynllun 'grow your own' awdurdodau lleol, yn ogystal â chyrsiau'r brifysgol agored[290]). Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y bydd y garfan hon yn cymryd amser i gwblhau eu hyfforddiant a dechrau swyddi gwaith cymdeithasol.[291]

**185.** Gwnaethom holi'r Gweinidog hefyd ynghylch gwerth, neu fel arall, gweithwyr cymdeithasol arbenigol i weithio ochr yn ochr â phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol. Dywedodd y Gweinidog fod y sector wedi gweld symudiad oddi wrth ymarferwyr arbenigol. Fodd bynnag, cadarnhaodd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod rhai ardaloedd sydd â lefelau uchel o achosion o gamfanteisio rhywiol ar blant a phlant coll wedi datblygu timau pwrpasol o ymarferwyr sydd wedi cael hyfforddiant mwy arbenigol yn y meysydd hynny.[292]

## Diogelu cyd-destunol

**186.** Mae rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom yn dadlau bod gwasanaethau cymdeithasol yn symud i ffwrdd o fodel diogelu sy'n canolbwyntio ar y teulu tuag at ddiogelu cyd-destunol, yn enwedig wrth weithio gyda phlant hŷn. Fel yr eglura Firmin a Knowles, mae diogelu cyd-destunol yn cynnwys:

[289] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalennau 10-11
[290] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Phrif Chwip a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Hydref 2024
[291] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 91-93
[292] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 137-145

> *"using techniques to explore how different contexts impact/influence each other when assessing the needs of young people, their families and extra-familial spaces… In terms of families, a critical element of this work is assessing the relationship between the extra-familial contexts and the influence/capacity of a parent to care for, and protect, their child. And further to this – the extent to which factors within the family home exacerbate issues external to the family home."*[293]

Mae Adolygiad Jay yn dadlau nad yw gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu bob amser yn briodol nac yn gallu cefnogi plant y camfanteisir arnynt y tu allan i'w cartrefi.[294] Roedd rhai o'n rhanddeiliaid yn cytuno, gan annog gwasanaethau cymdeithasol i nodi ardaloedd a chymunedau sy'n wynebu risg a sut y gellir mynd i'r afael â'r risg honno mewn ffordd gyfannol.

**187.** Clywsom fod mentrau eisoes yn canolbwyntio ar niwed y tu allan i'r teulu yng Nghymru. Eglurodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod gwasanaethau plant a theuluoedd un awdurdod lleol wedi ffurfio tîm Cyd-destunol, Coll, Camfanteisio, Masnachu (CMET) sy'n cefnogi plant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd cyd-destunol. Mae CMET yn fforwm gweithredol sy'n cydnabod y "rôl bwysig sydd gan gymunedau ac asiantaethau partner wrth greu mannau diogel i blant a phobl ifanc yr awdurdod dreulio amser ynddynt drwy gymryd dull mwy cyd-destunol o ddiogelu." Gwneir y gwaith hwn yn aml mewn ysgolion.[295]

**188.** Fodd bynnag, yn ystod ein digwyddiadau i randdeiliaid, mynegodd un gweithiwr proffesiynol bryder y gall diogelu cyd-destunol greu llwyth gwaith a'i gwneud yn fwy anodd i weithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill ddatblygu perthynas â'r plentyn a'i deulu.[296]

## Rôl y trydydd sector

**189.** Yn ystod ein digwyddiadau i randdeiliaid ac ymgysylltu, clywsom lawer am sut mae'r trydydd sector yn cefnogi gwasanaethau statudol i helpu plant sy'n agored i niwed. Teimlai rhai fod elusennau'n 'arwain y ffordd', tra dywedodd un

[293] Firmin, C. & Knowles, R., 'The legal and policy framework for Contextual Safeguarding approaches: A 2020 update on the 2018 legal briefing (Saesneg yn unig)', Hydref 2020, tudalen 7
[294] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 55
[295] 'Llythyr gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 23 Awst 2024
[296] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 17

rhanddeiliad wrthym yn blwmp ac yn blaen y byddai gwasanaethau cymdeithasol yn cwympo o dan y pwysau pe bai cefnogaeth y sector elusennol yn cael ei thynnu'n ôl.[297]

**190.** Eglurodd eraill mai gweithwyr annibynnol, fel gweithwyr ieuenctid, sydd â'r sgiliau i ymdrin â grwpiau o bobl ifanc sydd ar yr ymylon ar y strydoedd, gan eu cefnogi wyneb yn wyneb. Roedd un rhanddeiliad yn teimlo, yn sylfaenol, bod llawer o'r gwaith y mae gweithwyr elusennol medrus yn ei wneud wedi'i wreiddio mewn eiriolaeth plant a theuluoedd. Clywsom yn aml gan weithwyr proffesiynol y trydydd sector nad yw plant sy'n cael eu dal mewn gweithgarwch troseddol yn aml yn ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol statudol, a bod y sector elusennol yn aml yn gallu meithrin perthnasoedd mwy cadarnhaol â phlant sy'n agored i niwed na gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i asiantaethau statudol.[298]

**191.** Fodd bynnag, nododd eraill nad yw llawer o wasanaethau cymorth yn darparu cymorth hirdymor i blant, sy'n ffactor pwysig wrth feithrin ymddiriedaeth. Roedd yn amlwg o staff y rheng flaen yn y trydydd sector y buom yn siarad â hwy fod ganddynt brofiad a sgiliau sylweddol o ran gweithio gyda phobl ifanc sy'n agored iawn i niwed mewn sefyllfaoedd anodd. Fodd bynnag, clywsom hefyd gan weithwyr proffesiynol y trydydd sector eu hunain na fydd gan bob aelod o staff y profiad o weithio mewn lleoliadau risg uchel o'r fath.[299] Clywsom fod rhai staff elusennol yn dysgu llawer am y gangiau sy'n camfanteisio ar y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg. Dywedodd rhai hyd yn oed bod y sawl sy'n camfanteisio yn dilyn staff elusennol.[300]

**192.** Clywsom bryder nad yw gwasanaethau yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol i gefnogi plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol - boed yn cael eu darparu gan y sector anstatudol neu statudol - yn bodoli, neu nad oes ganddynt ddigon o adnoddau.[301] Dadleuodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod diffyg adnoddau yn y system i gefnogi ac ymyrryd, a bod ymyrraeth gynnar bron

[297] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 15
[298] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 7; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 15
[299] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalennau 10-11, 15
[300] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 16
[301] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 6

ddim yn bodoli[302] (trafodwn ymyrraeth gynnar yn fanylach isod). Cyflwynodd Cymdeithas y Plant dystiolaeth debyg, gan ddadlau bod diffyg gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar gyfer plant sy'n wynebu risg o gael rhywun yn camfanteisio arnynt/niwed y tu allan i'r teulu mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru.[303] Cytunodd Ymddiriedolaeth St Giles, gan ddadlau bod cyllid ar gyfer cymorth ar gyfer gweithgarwch llinellau cyffuriau wedi mynd i ardaloedd allforio (Llundain, Birmingham), yn hytrach na threfi a phentrefi llai lle gellir teimlo'r effeithiau mwyaf difrifol.[304]

**193.** Dywedodd Barnardo's Cymru y gall plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio aros ar restrau aros am wasanaethau, a oedd yn annerbyniol ganddynt o ystyried y risg uniongyrchol o gam-drin neu gamfanteisio y mae'r plentyn yn ei wynebu.[305] Dywedodd CASCADE wrthym y gallai'r lefelau cyfnewidiol o risg sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio Troseddol ar Blant olygu bod plentyn yn methu â chyrraedd y trothwy gofynnol ar gyfer rhai ymyriadau.[306]

**194.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a oedd yn teimlo y dylai'r trydydd sector arwain ar feithrin perthynas, gan adael yr asiantaethau statudol i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Cydnabu'r Gweinidog y gwaith 'anhygoel' y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ei wneud. Fodd bynnag, dadleuodd fod rôl i ymarferwyr statudol ac anstatudol i gyflawni rôl fugeiliol. Dadleuodd y dylai plant bob amser gael dewis gyda phwy y maent yn siarad am faterion anstatudol - gan gynnwys eu gweithiwr cymdeithasol os yw'n well ganddynt. Mynegodd y Gweinidog bryderon hefyd y gallai arfer gwaith cymdeithasol ddod yn rhy 'ddisgybledig' os yw'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar waith statudol ar draul eiriolaeth a chymorth bugeiliol.[307]

## Cyllid

**195.** Canfu Adolygiad Jay fod diffyg cysondeb o ran cyllid – ar gyfer gwasanaethau craidd ac ar gyfer rhaglenni sy'n mynd i'r afael yn benodol â chamfanteisio ar blant – yn rhwystr i ganlyniadau cynaliadwy ac yn osgoi ffocws ar atal neu ymyrraeth gynnar.[308] Mynegwyd pryderon tebyg ynghylch cyllid yn gyson gyda ni

[302] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[303] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[305] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[306] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[307] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 169
[308] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 64

gan weithwyr proffesiynol sy’n gweithio ar draws y sectorau statudol ac elusennol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.[309] Roedd Barnardo’s Cymru yn benodol yn dadlau bod toriadau yn y gyllideb yn golygu bod awdurdodau lleol yn cael trafferth buddsoddi mewn gwasanaethau anstatudol y byddai plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dibynnu arnynt yn y gofod atal..[310]

**196.** Sylwodd Cymdeithas Seicolegol Prydain pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll, mae’r heddlu, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, ac ysgolion yn aml i gyd yn gysylltiedig ag un achos. Fodd bynnag, gall heriau cyllidebol effeithio ar barhad y gofal y gall yr asiantaethau statudol hynny ei ddarparu.[311] Cyflwynodd ymchwilwyr o Brifysgol Lerpwl a Phrifysgol John Moores Lerpwl dystiolaeth debyg o’u gwaith ymchwil ledled y DU i ymatebion amlasiantaeth i ymchwiliadau plant coll, gan ganfod mai rhwystr allweddol i weithio rhwng timau oedd lefel y galw a roddir ar adnoddau cyfyngedig.[312]

**197.** Clywsom nad yw heddluoedd yn imiwn i heriau ariannu, ychwaith. Dywedodd Heddlu Dyfed-Powys fod ei ofynion gwasanaeth yn tyfu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth, gyda chynnydd o un flwyddyn i’r llall mewn troseddau a gofnodir, gan gynnwys digwyddiadau sy’n ymwneud â salwch meddwl ac ymchwiliadau cymhleth i gamfanteisio rhywiol ar blant a seiberdroseddu.[313]

**198.** Ar gyfer y sector elusennol, clywsom fod cyfyngiadau ariannu yn golygu llai o wasanaethau ataliol a gwarantau ariannu byrrach. Galwodd Gweithredu dros Blant am:

> *“A clear funding pathway that is long term and sustainable. Current funding is short term, fragmented and often does not focus on exploitation given the challenges with quantifying, defining and responding to the issue. Without a clear focus on exploitation and our response funding will not be prioritised.“*[314]

---

[309] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ‘Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid’, Medi 2024, tudalen 17; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ‘Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid’, Medi 2024, tudalen 10
[310] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo’s Cymru (Saesneg yn unig)
[311] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[312] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM22 Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) (Saesneg yn unig)
[313] ‘Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg’, 23 Awst 2024
[314] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)

**199.** Cytunodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ac eraill ariannu agenda ddargyfeirio ac atal effeithiol yn briodol.[315] Dadleuodd Ymddiriedolaeth St Giles er bod rhai gwasanaethau'n cefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed yn effeithiol, fod cyfyngiadau cyllid yn golygu nad yw'r prosiectau hynny bob amser yn gallu diwallu anghenion nifer y bobl ifanc a fyddai'n elwa o'r cymorth hwnnw. Aiff ymlaen i ddweud:

> *"Funding is often awarded for only 1 year which severely limits how effective projects are, given the length of time required for finding and training caseworkers, and how long it takes to build trusting relationships with young people".*[316]

Roedd eraill yn rhannu barn debyg.[317]

**200.** Roedd nifer o randdeiliaid yn dadlau'n angerddol dros fuddsoddi mewn gwaith ieuenctid i weithio gyda phlant sy'n agored i niwed. Roedd hyn yn aml yn mynd ochr yn ochr â galwadau am gael mwy o ofod ffisegol ar gyfer gwaith ieuenctid. Roedd un rhanddeiliad yn galaru am gau canolfannau ieuenctid yn arbennig, gan ddweud wrthym "Roedd gofyn i ni brofi gwerth ein gwaith ieuenctid, a doedden ni ddim yn gallu. Ond mae'r gwerth hwnnw yn amlwg ar ôl iddo fynd."[318] Roedd eraill yn cytuno'n gryf: Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru fod erydu clybiau ieuenctid a chefnogaeth ehangach arall o fewn cymunedau yn tanseilio mynediad at gefnogaeth a lle diogel.[319] Gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y pwynt yn arbennig o bwerus:

> *"With its non-formal education approach, youth work plays a crucial and valued role in supporting young people from all backgrounds and abilities. Youth workers are particularly skilled at engaging with young people aged 11-25, many of whom are reluctant to engage with other services. This is often due to the voluntary nature of the relationship, where the 'power' rests with the young person. Youth work takes place in a*

[315] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[316] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[317] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 7
[318] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 17
[319] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig)

*variety of settings including on the streets, in youth clubs, schools and hospitals."*[320]

**201.** Mewn symptom arall o heriau ariannu, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch cyflog isel ymhlith gweithwyr elusennol sy'n gweithio gyda phlant ar yr ymylon, gan ddadlau y gallwch ennill mwy yn gweithio mewn archfarchnad na gweithio gyda phlentyn sy'n wynebu risg o gael ei droseddoli.[321]

## Ein barn ni

### Gwaith amlasiantaeth

#### Yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

**202.** Mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn obeithiol iawn ynghylch ei phroses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl newydd, yn ei hymdrechion i wella gwaith amlasiantaeth o ran amddiffyn plant. Rydym yn croesawu unrhyw ymdrechion i ddod ag asiantaethau ynghyd yn adeiladol i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu pan aiff pethau o chwith i'w hatal rhag digwydd eto.

**203.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch llywodraethu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Er mwyn i'r adolygiadau sicrhau newid gwirioneddol ledled Cymru – ac rydym yn obeithiol iawn y byddant – rhaid i'r argymhellion a wnaed yn ystod yr Adolygiad gael eu cyflwyno'n gyflym i asiantaethau unigol ledled Cymru gyfan i'w gweithredu. Yn eu tro, rhaid dwyn yr asiantaethau hynny i gyfrif am wneud hynny.

**204.** Mae Llywodraeth Cymru yn ein sicrhau y bydd Storfa Ddiogelu Cymru yn cadw holl adroddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, ac y bydd canolbwynt cydgysylltu'r Adolygiad o fewn Llywodraeth Cymru - mewn partneriaeth â'r byrddau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol - yn lledaenu argymhellion o adroddiadau unigol ledled Cymru ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Ar sail y dystiolaeth a glywsom gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant nid ydym yn hyderus y bydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

**205.** Mae gan y byrddau diogelu lleol a chenedlaethol rôl amlwg i'w chwarae yma. Ond rhaid cael corff gorfodi cyfrifol i oruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar draws asiantaethau, a rhaid i'r

[320] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 16

corff hwnnw fod yn barod i gymryd camau os bydd angen. Dylai rhannu gwybodaeth yn effeithlon ac atebolrwydd cryf fod wrth wraidd proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau llywodraethu'r Adolygiad Diogelu Sengl er mwyn sicrhau bod y broses yn:

- cynnwys mecanwaith clir, effeithlon a thryloyw ar gyfer lledaenu argymhellion adroddiadau ar unwaith i bob asiantaeth unigol berthnasol ledled Cymru gyfan i'w rhoi ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob asiantaeth unigol berthnasol yn cael gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i roi'r argymhellion ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr argymhelliad hwnnw *yn* cael ei weithredu;
- nodi'n glir pa gamau gorfodi a gymerir os na chaiff argymhellion eu gweithredu, pwy fydd yn cymryd y camau gorfodi hynny, a phryd a sut y cânt eu cymryd.

## Y byrddau diogelu

**206.** Yng Nghymru mae gennym fforymau statudol ar gyfer gwaith amlasiantaeth i ddiogelu plant: y byrddau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol. Fel y clywsom, mae gan y byrddau hyn rôl hollbwysig i'w chwarae yn yr ymateb uniongyrchol a hirdymor i blant sy'n mynd ar goll a phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol. Maent hefyd yn ganolog i broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl Llywodraeth Cymru fel y trafodir uchod.

**207.** Felly, roeddem yn bryderus iawn pan awgrymodd rhanddeiliaid inni nad yw'r byrddau diogelu yn cyfarfod mor aml ag y dylent, ac y gallent fod yn gwrthsefyll cymryd perchnogaeth o Gamfanteisio Troseddol ar Blant. Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru ddwywaith – unwaith ar lafar, unwaith yn ysgrifenedig – am wybodaeth ynghylch pa mor aml y mae'r byrddau diogelu cenedlaethol a rhanbarthol yn cwrdd *mewn gwirionedd* (nid pa mor aml y *dylent* gwrdd). Nid ydym ddim callach. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 9.** Ar gyfer pob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24:

- dyddiadau cyfarfodydd gwirioneddol;
- cofnodion o ba asiantaethau/sefydliadau a fynychodd bob cyfarfod; ac
- agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys camau gweithredu y cytunwyd arnynt (wedi'u golygu fel y bo'n briodol).

**208.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw cynnal cyfarfodydd ynddo'i hun o reidrwydd yn golygu gweithredu ystyrlon. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r angen am drosolwg strategol o faterion hollbwysig a chymhleth fel y rhai a drafodir yn yr adroddiad hwn, ein prif bryder bob amser yw sut mae'r arolygiaeth strategol honno'n arwain at ganlyniadau gwell. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o'r graddau y mae'r byrddau diogelu yn ysgogi gwelliant mewn arferion diogelu.

**Argymhelliad 10.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o effeithiolrwydd y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o ran dod â phartneriaid lleol a chenedlaethol ar draws asiantaethau statudol ac anstatudol, datganoledig ac fel arall, ynghyd i gyflawni gwelliannau diriaethol mewn arferion diogelu.

**209.** Wrth gwrs, nid yw'r cyfrifoldeb dros ddiogelu plant wedi'i gyfyngu i fyrddau diogelu. Mae'n gwbl amlwg bod arnom angen dull ymateb amlasiantaeth effeithiol i blant sydd ar yr ymylon sydd wedi'i wreiddio yn arferion gwaith o ddydd i ddydd amrywiaeth o asiantaethau statudol ac anstatudol. Pan fyddwn yn sôn am faterion hynod gymhleth fel y rhai a drafodir yn yr adroddiad hwn, sy'n anochel yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar draws ystod amrywiol o asiantaethau – y mae rhai ohonynt yn croesi'r trothwy datganoli – rhaid i'r ymateb amlasiantaeth hwnnw fod yn ddigon hyblyg i allu diwallu anghenion penodol pob plentyn. Nod yr argymhellion dilynol yn yr adran hon yw gwella'r ymateb amlasiantaeth hwnnw drwy wella'r canlynol:

1. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff, sy'n sail i ymatebion gweithwyr proffesiynol unigol i blant sy'n agored i niwed
2. Systemau a gweithdrefnau, sy'n galluogi asiantaethau i rannu pryderon ag asiantaethau perthnasol eraill, a thynnu ar eu harbenigedd er mwyn creu darlun mwy cyflawn o anghenion y plentyn

## Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff

**210.** Yn gyntaf: credwn fod angen dull 'dim drws anghywir' ar Gymru i ddiogelu plant sydd ar yr ymylon. Bydd anghenion y plant y byddwn yn eu trafod yn yr adroddiad hwn yn rhannu themâu cyffredin, ond mae eu hanghenion unigol a'r ymateb sydd ei angen i'w diogelu yn unigryw. Efallai mai'r arwydd cyntaf bod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei fod yn wynebu camfanteisio yw ei fod yn mynd ar goll. Efallai bod ganddo ddillad newydd drud mwyaf sydyn. Efallai ei fod yn cyflwyno math penodol o anaf yn rheolaidd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Neu efallai ei fod yn mynd i drafferth gyda'r heddlu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n amhosibl gwybod pwy fydd y gweithiwr proffesiynol cyntaf sydd â'r cyfle i sylwi ar yr arwyddion rhybudd cynnar hynny, a phwy y gallai'r plentyn deimlo'n ddigon diogel gyda hwy i ddatgelu arwyddion cynnar hanfodol o gam-drin.

**211.** Y drafferth yw, os nad yw'r gweithiwr proffesiynol hwnnw'n deall dangosyddion penodol iawn camfanteisio troseddol, efallai na fydd yn gwneud yr atgyfeiriad amddiffyn plant hollbwysig hwnnw. Neu os oes ganddo bryderon, efallai na fydd yn gwybod beth ddylai'r ymateb cywir fod. Gyda'r bwriadau gorau, gallai hyd yn oed yn anfwriadol roi'r plentyn mewn mwy fyth o berygl.

**212.** Nodwn adborth gweithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau sydd wedi dweud wrthym, o gymharu â chamfanteisio rhywiol ar blant, fod dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol y rheng flaen o gamfanteisio troseddol ar blant yn anghyson. Bydd gweithwyr ieuenctid, athrawon, yr heddlu, ymarferwyr iechyd meddwl a staff gofal iechyd i gyd ar y rheng flaen o ran rhyngweithio â phlant y camfanteisir arnynt yn droseddol, heb o reidrwydd sylweddoli natur y camfanteisio y mae'r plentyn yn ei brofi. Mae hyn yn amharu ar yr ymateb amlasiantaeth i blant y camfanteisir arnynt.

**213.** Er mwyn gwella ein hymateb cenedlaethol ar y cyd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru – gan ddefnyddio gwaith presennol megis Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru Prifysgol Caerdydd ac arbenigedd ar draws y sector statudol ac elusennol – ddatblygu cyfres o adnoddau a deunyddiau hyfforddi wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed ac sy'n wynebu risg o gamfanteisio troseddol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol ac anstatudol, gan ddefnyddio gwaith sy'n bodoli eisoes, megis Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru Prifysgol Caerdydd, i ddatblygu

cyfres o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i wella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol y rheng flaen o gamfanteisio troseddol a'r mathau eraill o wthio rhywun i'r ymylon a drafodir yn yr adroddiad hwn, a'u hymateb iddynt. Dylai'r adnoddau a'r deunyddiau hyn gael eu targedu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau ac sydd â chyswllt uniongyrchol â phlant sy'n agored i niwed (fel gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, sefydliadau addysg, byrddau iechyd, ac ati). Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol y rheng flaen ar draws y sector statudol – gan gynnwys y rhai a gyflogir gan sefydliadau a gomisiynir gan y sector statudol, megis elusennau – yn cael yr hyfforddiant hwnnw.

**Systemau a gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth**

**214.** Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion cynhwysfawr a gawsom gan fyrddau iechyd a heddluoedd ledled Cymru i'n ceisiadau am dystiolaeth am eu rôl diogelu amlasiantaeth. Rydym wedi ystyried eu galwadau (a galwadau eraill) am offeryn asesu risg camfanteisio troseddol ar blant i helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd i nodi arwyddion camfanteisio troseddol. Nodwn hefyd mai un o ganfyddiadau allweddol Traciwr Diogelu Amlasiantaeth Gorllewin Morgannwg (a drafodir uchod ac isod) oedd ei fod yn gallu nodi unigolion sydd â chysylltiadau cyson â'r gwasanaeth iechyd. Mae'n debyg na fyddai'r unigolion hyn wedi cael eu hadnabod o reidrwydd *heb* y traciwr, sy'n awgrymu inni y gallai cam buddiol mewn prosesau adrodd diogelu fod ar goll.

**215.** Yn seiliedig ar farn arbenigol y byrddau iechyd, Heddlu De Cymru ac eraill, rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu offeryn asesu risg camfanteisio ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer plant y camfanteisir arnynt yn droseddol i fynd i'r afael â'r bwlch adrodd hwnnw. Credwn y dylid datblygu'r offeryn hwn ochr yn ochr ag asiantaethau statudol ac anstatudol allweddol. Dylid ei gyflwyno i weithwyr proffesiynol ochr yn ochr â'r pecyn o ddeunyddiau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yr ydym yn eu heirioli yn Argymhelliad 11 i ateb y galwadau cysylltiedig gan fyrddau iechyd am well hyfforddiant i staff gofal iechyd y rheng flaen.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â byrddau iechyd, heddluoedd ac asiantaethau statudol ac anstatudol perthnasol eraill i ddatblygu offeryn asesu risg camfanteisio troseddol ar blant Cymru gyfan i'w ddefnyddio gan staff y rheng flaen, gan gynnwys mewn lleoliadau gofal iechyd. Dylai'r rhaglen o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yr ydym yn ei hargymell yn Argymhelliad 11 gyd-fynd â chyflwyno'r offeryn asesu risg.

**216.** Mae gwaith amlasiantaeth effeithiol yn dibynnu ar lwyfannau rhannu gwybodaeth effeithiol ac amser-effeithlon. Dylai datblygiadau mewn technoleg allu cefnogi'r ymdrechion hyn, ond gall llwyfannau digidol ar gyfer rhannu gwybodaeth fod yn llawn problemau ac yn ddrud i'w cyflwyno. Felly, roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am Draciwr Diogelu Amlasiantaeth Gorllewin Morgannwg (MAST), yr ydym yn ei archwilio fel astudiaeth achos ar dudalen Error! Bookmark not defined.. Fe'n calonogir i glywed am ganlyniadau'r prawf cysyniad, sy'n ymddangos fel pe bai'n dangos bod gan y llwyfan y potensial i fynd i'r afael â rhai o'r heriau difrifol sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol y rheng flaen wrth rannu gwybodaeth ddiogelu rhwng asiantaethau.

**217.** Wrth gwrs, mae llawer o ystyriaethau i'w gwneud cyn i unrhyw lwyfan digidol fel MAST ddod yn nodwedd ganolog o waith amlasiantaeth yng Nghymru: materion hollbwysig yn ymwneud â moeseg, diogelu data, cost, hyfforddiant staff, ac ati. Rhaid i unrhyw ehangu ar y llwyfan fod yn destun gwaith cwmpasu manwl, gan adeiladu ar y prawf cysyniad a gynhaliwyd gan Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg. Yn seiliedig ar y canlyniadau addawol hyd yma, credwn fod digon o botensial yma i Lywodraeth Cymru archwilio'r llwyfan ymhellach.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb llwyfan rhannu gwybodaeth diogelu Cymru gyfan, megis Traciwr Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, i wella trefniadau rhannu gwybodaeth ledled Cymru.

**218.** Drwy gydol yr ymchwiliad hwn rydym wedi clywed y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)/diogelu data yn gyffredinol yn cael eu crybwyll fel rhwystrau posibl i rannu gwybodaeth. Nid yw hyn yn syndod: mae deddfwriaeth diogelu data yn gymhleth ac amlochrog, ac mae'n amlwg y byddai llawer, os nad y cyfan, o'r wybodaeth a rennir rhwng asiantaethau am blant sydd ar yr ymylon yn destun y gofynion diogelu data mwyaf llym.

**219.** Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau a chanllawiau hyd yma, gan gynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a'r canllaw anstatudol ar rannu gwybodaeth: 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl'. Fodd bynnag, rydym yn aneglur o hyd a yw deddfwriaeth diogelu data yn rhwystr gwirioneddol i waith amlasiantaeth, a yw asiantaethau'n camddeall eu rhwymedigaethau diogelu data, neu hyd yn oed a yw diogelu data yn cael ei ddefnyddio weithiau fel esgus pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mor effeithiol ac effeithlon ag y dylai fod.

**220.** Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith ochr yn ochr â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i ddeall effaith

deddfwriaeth diogelu data ar waith yr Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl arfaethedig. Credwn fod gan waith berthnasedd ehangach i gyrff statudol ac anstatudol sy'n gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei chyngor cyfreithiol i nodi'n glir ei dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth diogelu data ar waith amlasiantaeth mewn perthynas â diogelu plant sy'n agored i niwed.

**Argymhelliad 14.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl ei dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth diogelu data ar waith amlasiantaeth mewn perthynas â diogelu plant sy'n agored i niwed er mwyn helpu cyrff statudol ac anstatudol i ddeall eu rhwymedigaethau diogelu data wrth gydweithio i gefnogi plant sydd ar yr ymylon a'u teuluoedd.

## Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol

**221.** Rydym yn cytuno â'r consensws llethol ar draws y dystiolaeth a gawsom: mae ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol yn gwbl allweddol i leihau cyfraddau camfanteisio a cham-drin. Pan fo arian yn brin, mae cyllid yn tueddu i gael ei flaenoriaethu i wasanaethau adweithiol. Mae hyn yn aml yn ymdrech ofer, oherwydd gall y gost i ymateb pan fydd pethau wedi mynd o chwith fod gymaint yn fwy na'r gost i ymyrryd cyn i hynny ddigwydd. Rydym yn cymeradwyo'r gwaith a wneir gan wahanol weithwyr proffesiynol ledled y wlad sy'n ceisio helpu plant a'u teuluoedd *cyn* iddynt gael eu gwthio i'r ymylon. Rydym yn tynnu sylw at weithwyr ieuenctid yma, yn arbennig, a amlygwyd dro ar ôl tro drwy gydol yr ymchwiliad hwn am eu sgiliau wrth ddiogelu a gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

**222.** Rydym hefyd yn nodi'r corff sylweddol o dystiolaeth sy'n amlygu ysgolion fel safle hollbwysig ar gyfer ymyrraeth gynnar. Yn ogystal â'u manteision addysgol, mae ysgolion yn un o'r mannau ffisegol olaf sy'n weddill sy'n cysylltu plant a gweithwyr proffesiynol fel mater o drefn. Dyma pam y gall peidio â mynychu'r ysgol gael canlyniadau trychinebus i rai plant, fel y trafodir yn y bennod nesaf.

**223.** Gofynnir eisoes i staff yr ysgol wneud cymaint, ac mae cyfran sylweddol o'r gwaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i addysg. Ond fel y bydd staff ysgolion yn cytuno, mae diogelu yn rhan hanfodol, sylfaenol o'u rôl. Gobeithiwn y bydd yr hyfforddiant a'r trefniadau codi ymwybyddiaeth a nodir gennym yn Argymhelliad 11, y dylid ei gyflwyno i staff ysgol yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill y rheng flaen, yn helpu gweithwyr addysg proffesiynol i nodi'r ffactorau risg ac arwyddion camfanteisio troseddol, ac ymateb yn briodol.

**224.** Rydym wedi clywed y gall ymyrraeth gynnar o fewn ysgolion ond a ddarperir gan weithwyr proffesiynol allanol fod yn arbennig o werthfawr. Rydym wedi clywed adborth cyson gadarnhaol am Raglen Ysgolion Heddlu Cymru, ac yn siomedig ac yn bryderus bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i ariannu'r rhaglen hollbwysig hon ym mis Ebrill 2024. Rydym yn falch bod heddluoedd penodol wedi gwneud y penderfyniad i ariannu eu gwaith eu hunain gydag ysgolion, ond, fel gwasanaeth atal cenedlaethol hollbwysig, nid ydym yn credu y dylai fod yn rhaid iddynt wneud hynny. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y rhaglen.

**Argymhelliad 15.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol hirdymor Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, gan amlinellu pa ddarpariaeth a ariennir yn ganolog, os o gwbl, fydd yn disodli'r fenter hollbwysig hon.

### Gwasanaethau cymdeithasol

**225.** Yn ein gwaith ar y system ofal yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi clywed dro ar ôl tro am y pwysau sylweddol ar y gweithlu gofal cymdeithasol a'r effaith y mae'r pwysau hynny yn ei chael ar berthnasoedd gweithwyr cymdeithasol â phlant a theuluoedd sy'n agored i niwed. Rydym yn drist, ond nid ydym yn synnu, o glywed themâu tebyg iawn eto yma: pryderon ynghylch llwythi achosion uchel, trosiant staff, staff asiantaeth, a gallu cyfyngedig i gyflawni'r gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd y mae gweithwyr proffesiynol y rheng flaen yn gwybod ei fod yn effeithiol.

**226.** Nid ydym yn cydnabod y darlun gor-syml a baentiwyd gan y rhai sy'n dymuno pardduo gweithwyr cymdeithasol. Mae'r realiti yn llawer mwy cymhleth, yn cael ei effeithio gan yr heriau gweithlu a nodir uchod a lefelau cynyddol a chymhlethdod yr angen, ymhlith pethau eraill.

**227.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn rydym wedi clywed am, ac wedi cwrdd â phlant sy'n hynod agored i niwed, y mae llawer ohonynt wedi dangos ymddygiad heriol, hyd yn oed treisgar, o ganlyniad i'w profiadau bywyd a'r camfanteisio maent wedi'i brofi. Gwyddom y gall y staff sy'n gweithio gyda'r plant hyn eu hunain fod yn wynebu risg o ganlyniad i'w gwaith i gyfyngu ar gamfanteisio ar blant gan droseddwyr. Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau o blaid timau arbenigol o weithwyr cymdeithasol i weithio ochr yn ochr â'n plant a'n teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed. Clywsom – yn gadarnhaol – am rai awdurdodau lleol a oedd wedi sefydlu timau penodol gyda hyn mewn golwg. Roedd eraill yn teimlo'n wahanol,

ac yn dadlau y dylai pob gweithiwr cymdeithasol feddu ar y sgiliau cywir i weithio gyda'r plant yr effeithir arnynt gan y materion yn yr adroddiad hwn.

**228.** Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Yn anffodus, nid oeddem yn teimlo bod ein cwestiwn wedi cael sylw yn ystod gwaith craffu ar lafar. Gofynnwn eto yma.

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar rinweddau neu ddiffyg rhinweddau timau arbenigol o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, y camfanteisir arnynt yn rhywiol a/neu'n droseddol.

# 4. Ffactorau risg o ran gwthio i'r ymylon

Nid oes templed i ddisgrifio plentyn sy'n mynd ar goll neu y camfanteisir arno'n droseddol. Gall unrhyw blentyn, ni waeth beth fo'i nodweddion personol neu brofiadau bywyd, gael ei wthio i'r ymylon. Ond mae ffactorau risg sy'n gwneud rhai plant yn fwy agored i gael eu gwthio i'r ymylon nag eraill. Mae plant sy'n destun ffactorau risg lluosog, dwysach yn arbennig o agored i niwed.

**229.** Drwy gydol ein hymchwiliad, pwysleisiodd rhanddeiliaid y gall unrhyw blentyn wynebu cael ei wthio i'r ymylon. Mae Adolygiad Jay yn crynhoi'r hyn a glywsom gan weithwyr proffesiynol ac academyddion niferus:

> *"There is no single cause that leads to one child being exploited when another is not, much like other forms of abuse. Witnesses noted that it was vital to 'hold in mind that this form of harm can ensnare even the happiest, healthiest and well-loved children and young people'."*[322]

**230.** Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid hefyd nifer o ffactorau risg clir ar gyfer plant, a allai eu gwneud yn fwy agored i fynd ar goll, cael rhywun yn camfanteisio arnynt, wynebu digartrefedd neu fathau eraill o gael eu gwthio i'r ymylon heb yr amddiffyniad a'r cymorth cywir.

## Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg

### Rôl amddiffynnol ysgolion

**231.** Codwyd y risgiau sy'n wynebu plant sydd wedi'u gwahardd neu blant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol gyda ni fwy nag unrhyw ffactor risg unigol arall ar gyfer gwthio rhywun i'r ymylon. Clywodd Adolygiad Jay dystiolaeth debyg:

[322] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 19

> *"The significant impact of being excluded – whether officially or unofficially – from education was a running theme across all the stories we heard from those with lived experience. The correlation with exploitation is clear and children and parents often described that as being the tipping point at which things began to go wrong quickly."*[323]

Roedd y dystiolaeth a gawsom yn ategu'r casgliadau hynny. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym yn rheolaidd mai ychydig iawn, os o gwbl, o blant y camfanteisiwyd arnynt neu sy'n mynd ar goll yn aml sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd.[324] Ysgrifennodd Gweithredu dros Blant fod dros 90 y cant o blant sy'n cael eu hatgyfeirio at eu gwasanaethau yng Nghymru wedi wynebu gwaharddiadau addysg.[325]

**232.** Dywedodd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg wrthym fod ysgolion yn chwarae rhan hanfodol fel amgylchedd amddiffynnol i bob plentyn, yn enwedig i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Eglurodd mai ysgolion yw'r unig gysondeb sydd gan lawer o'r bobl ifanc hyn lle mae ffiniau'n glir ac mae disgwyliadau'n uchel.[326] Gwnaeth Adolygiad Jay, a llawer o'r dystiolaeth a gawsom, ddadleuon tebyg.[327] Dywedodd Voices from Care Cymru y gall plant nad ydynt mewn ysgolion fod heb oruchwyliaeth, cefnogaeth gan athrawon a chyfoedion, a mynediad at adnoddau a chyfleoedd. Roeddent hefyd yn dadlau y gall ysgolion roi'r sgiliau i blant adnabod ac ymateb i berygl, gan rymuso plant i fynnu eu hawliau ac amddiffyn eu hunain rhag niwed.[328] Roedd y bobl ifanc a siaradodd â'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cytuno, ac roedd yn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol ymyrraeth

---

[323] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 59
[324] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 19
[325] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[326] Llythyr gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[327] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. Adolygiad Jay o Blant sy'n cael eu Camfanteisio'n Droseddol, Mawrth 2024, tudalen 20; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS Cymru) (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM20 Estyn (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 295; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 19
[328] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)

gynnar gan addysgwyr, sy'n aml yn y sefyllfa orau i sylwi ar newidiadau mewn ymddygiad, sy'n arwydd o risgiau allanol:

> *"You have to look for it in school, it all stems from school…You'll definitely see changes if there's something going on outside, so that's the best place to pick it up."*[329]

Rydym yn trafod gwerth ysgolion fel safleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar ar dudalen 74.

**233.** Fel y dadleuodd cyn-Gomisiynydd Plant Lloegr yn 2019 fod gan ysgolion ystod o gyfrifoldebau diogelu, y maent yn eu cyflawni o fewn yr ysgol neu drwy hysbysu asiantaethau eraill. Dywed fod hyn i gyd yn cael ei golli pan fydd plentyn yn cael ei wahardd neu ei dynnu oddi ar y gofrestr.[330] Mynegodd sawl sefydliad bryder ynghylch cynnydd canfyddedig mewn gwaharddiadau, amserlenni â llai o oriau, tynnu oddi ar y gofrestr a mathau eraill o absenoldeb o'r ysgol.[331] Clywodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion bryderon cryf gan bobl ifanc sydd â phrofiad byw o droseddoli am yr arfer o roi dysgwyr sy'n agored i niwed ar amserlenni â llai o oriau:

> *"Reduced timetables got to stop, even if those kids have to go to special lessons or do work experience or learn skills or something, just to chuck them on the street and say, 'Fuck you, fend for yourself,' that's a…joke!"*[332]

**234.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data yn ddiweddar a ganfu nad oedd modd dod o hyd i tua 6.4 y cant o blant (27,000) mewn data cofrestru meddygon teulu yng nghofnodion addysg y wladwriaeth ar 20 Ebrill 2021.[333] Yr hydref hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau i fwrw ymlaen â mecanwaith i awdurdodau lleol nodi plant sy'n colli addysg drwy weithredu

---

[329] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 8
[330] Comisiynydd Plant Lloegr, 'Keeping kids safe: Improving safeguarding responses to gang violence and criminal exploitation' (Saesneg yn unig), Chwefror 2019, tudalen 24
[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 20; Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 5 Rhagfyr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 140 a 295
[332] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 9
[333] Llywodraeth Cymru, 'Plant sy'n colli addysg y wladwriaeth: amcangyfrif niferoedd gan ddefnyddio data gweinyddol cysylltiedig', 18 Medi 2024

Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru). Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fel a ganlyn:

> *"Er mwyn sefydlu effeithiolrwydd y rheoliadau ar gyfer adnabod plant a allai fod yn colli addysg, a nodi unrhyw anawsterau ymarferol y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy, rwyf wedi cytuno y bydd trefniadau o ran y cronfeydd data yn cael eu treialu ar draws nifer bach o awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso'n llawn, a bydd unrhyw newidiadau gofynnol yn cael eu gwneud cyn cyflwyno'r cynllun yn ehangach ledled Cymru."*[334]

**235.** Mae Adolygiad Jay hefyd yn egluro y gall gwahardd plentyn o addysg brif ffrwd fod yn drawmatig iddynt ynddo'i hun drwy greu ymdeimlad cynyddol o wrthod, methiant a llesiant isel.[335] Ychwanegodd Gweithredu dros Blant y gallai plant nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg hefyd fod yn wynebu heriau ehangach, megis perthnasoedd teuluol yn chwalu, anawsterau emosiynol neu feddyliol, ac ymddygiad troseddol.[336]

**236.** Roedd Gweithredu dros Blant a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod angen mwy o gymorth ar ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau, gan annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag ysgolion i ddatblygu adnoddau i'w helpu i reoli ymddygiad ac atal gwaharddiadau o'r ysgol.[337] Aeth rhai rhanddeiliaid ymhellach drwy awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisïau dim gwahardd ar gyfer ysgolion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn elwa ar amgylchedd ysgol amddiffynnol. Roeddent yn siarad yn gadarnhaol am bolisi dim gwahardd Cyngor Southwark, ac awgrymwyd y byddai cael rhywbeth felly yng Nghymru yn gosod naws wahanol i ddisgyblion ac athrawon.[338]

**237.** Cydnabu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod gwaharddiadau yn cael effaith fawr ar blant a phobl ifanc ac y gallant eu rhoi mewn perygl ychwanegol o gael eu gwthio i'r ymylon. Gwnaethant ddweud wrthym fod

---

[334] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Canlyniad yr ymgynghoriad ar Reoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru), 11 Medi 2024
[335] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children', Mawrth 2024, tudalennau 20 a 59
[336] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[337] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[338] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 20

cyfleoedd i ddiogelu plant yn cael eu colli pan nad ydynt yn yr ysgol, a chytunwyd bod gwaharddiad - yn enwedig gwaharddiad parhaol – "yn brofiad llawn trawma i blentyn neu berson ifanc, a all deimlo fel eu bod yn cael eu gwrthod". Amlygwyd bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried amgylchiadau lliniarol – gan gynnwys gwthio i'r ymylon – mewn perthynas â gwaharddiadau, yn ogystal â sicrhau bod polisi ymddygiad yr ysgol yn seiliedig ar ddulliau sy'n seiliedig ar drawma. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno y dylid lleihau'r defnydd o wahardd, maent yn dadlau bod lle i wahardd "mewn achosion difrifol o dorri polisi neu pan mae diogelwch cymuned yr ysgol mewn perygl".[339]

## Plant sy'n cael eu haddysgu gartref

**238.** Cawsom farn arbennig o gymysg ynghylch pa mor agored i niwed yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Roedd Education Otherwise yn honni:

> *"'… children not in mainstream education' [as a potential at-risk group] sweeps up home educated children wrongly classifying them as at risk of criminal exploitation. Welsh Government is aware that research finds home educated young people considerably less likely than their schooled counterparts to commit an offence leading to a disposal and consequently, less likely to be on the margins of or involved with criminal enterprise. These are not at risk children and any findings must reflect that."*[340]

Roedd cyfres o ymatebwyr unigol eraill yn rhannu safbwyntiau tebyg[341], gan honni bod cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref fel rhan o grŵp sy'n wynebu risg yn 'ymddygiad cwbl annerbyniol'[342], 'difenwol'[343], 'niweidiol'[344], 'sarhaus ac anghyfreithlon'[345].

**239.** Fodd bynnag, er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno bod llawer o blant sy'n cael eu haddysgu gartref mewn amgylcheddau diogel, gofalgar a meithringar ac yn derbyn addysg briodol sy'n berthnasol i'w hoedran a'u gallu,

[339] Llythyr gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[340] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM4 Education Otherwise (Saesneg yn unig)
[341] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM10 Unigolyn (Saesneg yn unig)
[342] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM5 Unigolyn (Saesneg yn unig)
[343] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM6 Kelly Anderson (Saesneg yn unig)
[344] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM7 Christian Education for Deeside (Saesneg yn unig)
[345] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM9 Unigolyn (Saesneg yn unig)

ychwanegodd nad yw hyn bob amser yn wir.[346] Yn y cyfamser, amlygodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru risg fod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn mynd yn angof, ac roedd yn argymell gwiriadau diogelu rheolaidd, ac archwilio pam nad yw'r plentyn yn mynychu addysg y brif ffrwd.[347]

## Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**240.** Clywsom dro ar ôl tro fod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn arbennig o agored i gael eu gwthio i'r ymylon, oherwydd etifeddiaeth y trawma y mae llawer wedi'i brofi ac oherwydd y pwysau a'r heriau sy'n eu hwynebu yn eu bywydau o ddydd i ddydd.[348]

**241.** Clywsom fod achosion lluosog, dwys a chydgysylltiedig i'r bregusrwydd hwn:

- Mae prinder sylweddol o leoliadau maeth a gofal preswyl o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn arwain rhai plant i symud yn ôl i gartref eu teulu, neu gael eu rhoi mewn llety anniogel sydd heb ei reoleiddio, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o drawma neu o gael eu cam-drin unwaith eto.[349] Amlygodd Heddlu De Cymru bryderon ynghylch y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, y mae'n awgrymu y gallai achosi risg uwch i blant sy'n derbyn gofal a'u natur o fod yn agored i gamfanteisio (rydym wedi ysgrifennu at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd gyda phryderon tebyg).[350]

- Nid oes gan blant mewn gofal o reidrwydd strwythurau cymorth o'u cwmpas i'w hamddiffyn rhag peryglon mynd ar goll a/neu gamfanteisio.[351]

- Mae'n bosibl bod plant mewn gofal wedi profi trawma, a all eu gwneud yn fwy agored i gael eu cam-drin a'u defnyddio. Bydd rhai sy'n

[346] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
[347] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[348] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 25
[349] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 19; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 3
[350] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg yn unig), 23 Awst 2024; Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 18 Gorffennaf 2024
[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)

camfanteisio yn targedu plant mewn gofal yn fwriadol er mwyn camfanteisio ar y gwendidau hynny.[352]

- Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn ystyried gang troseddol fel teulu, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt, a hyd yn oed amddiffyniad canfyddedig, nad oes ganddynt efallai o fewn y system ofal.[353]

**242.** Amlygodd rhai rhanddeiliaid fod cyfraddau gwahardd neu wrthod mynychu o ran ysgol brif ffrwd, yn arbennig o uchel ar gyfer plant mewn gofal. Dadleuodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru mai'r ysgol yn aml yw'r prif ofalwyr sy'n rhoi gofal i blant mewn gofal:

> *"when this relationship [between the child and the school] becomes more challenging or difficult due to extreme SEBD [Social, Emotional and Behavioural Difficulties] issues, wider police issues or change of placement, this places the vulnerable child at even more risk. The lack of a main or consistent care giver, places the child at extreme risk."*[354]

Cyfeiriodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru at waith ymchwil o Loegr, a ddangosodd fod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol. Gwnaethant alw ar Lywodraeth Cymru i wyrdroi ei phenderfyniad i roi'r gorau i gasglu data ar nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu gwahardd.[355] Gwnaethom alwadau tebyg yn ein hadroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[356] Gwrthododd Llywodraeth Cymru ein hargymhelliad.[357]

**243.** Mae'r ystadegau cyfyngedig sydd wedi'u cyhoeddi yn ategu'r pryderon hyn, gan ddangos bod plant mewn gofal yn llawer mwy tebygol na phlant eraill o gael eu hadrodd ar goll. Er gwaethaf pryderon a fynegwyd ynghylch dibynadwyedd y

---

352 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children', Mawrth 2024, tudalen 25; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
353 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau gweithgareddau ymgysylltu', Medi 2024, tudalen 5
354 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
355 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
356 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 51-54
357 Llywodraeth Cymru, Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl 'Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 6-7

data hynny, fel y trafodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cytunodd sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal eu bod yn fwy tebygol o redeg i ffwrdd o leoliadau, yn enwedig y rhai mewn gofal preswyl a/neu'r rhai sydd wedi profi sawl lleoliad sydd wedi methu.[358] Ac, fel pan fydd unrhyw blentyn yn mynd ar goll, mae cyfnodau coll ymhlith plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ffactor risg ar gyfer camfanteisio, ac yn arwydd y gallai camfanteisio eisoes fod yn digwydd.[359]

**Astudiaeth achos: Cyngor Sir Ddinbych a'r Ap 'One' gan Mind of my Own**

Mae 'One' gan Mind of my Own yn llwyfan (ap a gwefan) ymgysylltu digidol sydd wedi'i gomisiynu gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych gan Mind of My Own - cwmni datblygu apiau sy'n arbenigo mewn gwasanaethau addysg, iechyd a gofal[360] - ers 2020.

Mae'r llwyfan yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc sy'n agored i Wasanaethau Addysg a Phlant Cyngor Sir Ddinbych fel ffordd hygyrch i ymgysylltu â'u gweithwyr. Gallant rannu eu barn cyn/ar ôl cyfarfodydd neu adolygiadau statudol, codi problemau, neu rannu newyddion da fel adroddiad ysgol cadarnhaol.

Buom yn siarad ag un fenyw ifanc mewn gofal maeth am yr ap:

*"The Mind of My Own ['One'] app has helped me tremendously since I started to use the app as I'm able to update it whenever and wherever I want. It even has a mini blog for me to update as much or as little as I like...*

*Since using this app, I have been able to have more confidence in myself and have been able to speak to my IRO [Independent Reviewing Officer] without having a LAC [Looked After Child] review I just send her my statement that she asks me questions about at my LAC review. I have also been able to express my emotions more and be able to say why I am feeling this way."*

Dywedodd wrthym hefyd ei bod wedi defnyddio'r ap pan aeth ar goll:

[358] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[359] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[360] Mind Of My Own, Ap 'One'

*"It made it easier to write why I had gone missing and not having to speak face to face with someone at the time, it showed my social worker had read my comments too."*

Dywedodd gofalwr maeth y fenyw ifanc wrthym:

*"From a carer's perspective I feel it gives young people complete autonomy in recording things that are personal to them, directly with the person or persons who are involved in their care. Also, they receive a notification when they have been read and can receive a reply. This shows that they have been listened to."*

Rhannodd Cyngor Sir Ddinbych farn ymarferwyr eraill:

*"I love the way it helps young people be part of the journey and involve them in choices whilst recognising they may have a completely differing opinion to a professional person."*

*"Mind of My Own has been a fantastic tool in ensuring the voice of the child is heard. Many children that I support find communication or expressing themselves difficult, through using Mind of my Own it has given them the space to be able to share their thoughts and experiences and open up conversations that we may not have been able to have if we hadn't used Mind of My Own."*

**244.** I lawer, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Barnardo's Cymru a Llywodraeth Cymru, mae gosod plant allan o'u hawdurdod lleol cartref yn sbardun penodol ar gyfer cyfnodau o fynd ar goll.[361] Mae NYAS Cymru, Cymdeithas y Plant ac Adolygiad Jay i gyd yn dadlau y gall lleoli plant y tu allan i'w hardal leol - hyd yn oed os gwneir y penderfyniad i ddiogelu'r plentyn oherwydd peryglon canfyddedig - wthio plant i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau, teulu a rhwydwaith cefnogi. Yn ei dro, gall hyn eu gwthio tuag at niwed y tu allan i'r teulu.[362] Dadleuodd Education Otherwise na ddylai plant gael eu gorfodi i fyw y tu allan i'w hardal oni bai am resymau diogelu hanfodol.[363]

[361] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 19; Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 9
[362] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant; Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 62
[363] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM4 Education Otherwise (Saesneg yn unig)

**245.** Mynegodd Cymdeithas y Plant bryderon wrthym ynghylch rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol yn dilyn lleoliadau y tu allan i'r ardal. Maent yn tynnu sylw at ddulliau awdurdodau lleol fel rhai anghyson, neu rai nad ydynt yn bodoli, y maent yn dadlau sy'n rhoi plant mewn perygl o gael eu cam-drin neu gael rhywun yn camfanteisio arnynt (rydym wedi mynegi pryderon ynghylch y mater hwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol[364]). Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar ddatblygu fframweithiau rhannu gwybodaeth cadarn a chyson ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.[365]

**246.** Er mwyn amddiffyn plant mewn gofal rhag cael eu gwthio i'r ymylon, dadleuodd Voices from Care Cymru dros ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar drawma ac yn seiliedig ar berthynas:

> *"The most effective way to address this is for children and young people to be cared for in a way that is loving and supportive and trauma informed, so that they do not end up vulnerable and isolated. Much more effective support is needed for young people leaving the care system. Early intervention is key."*[366]

Roedd Adolygiad Jay yn dadlau bod cyfran fawr o blant mewn gofal bellach yn eu harddegau, sydd wedi newid gofynion y system amddiffyn a gofal plant yn sylweddol ac yn gyflym heb raddfa debyg o newid mewn fframweithiau, canllawiau ymarfer, cyllid neu seilwaith sydd ei angen i ymateb.[367]

**247.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer cefnogi mwy o blant i aros gyda'u teuluoedd ac i lai o blant fynd i ofal. Mae'n cydnabod bod plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol yn wynebu mwy o risg o fynd ar goll, ac atgoffwyd y Pwyllgor am ei uwchgynadleddau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a hwylusir gan Voices from Care Cymru, sydd wedi rhoi cyfle i Weinidogion glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc am eu profiadau a'u barn ar ba newidiadau y mae angen eu gwneud. Mae hefyd yn amlinellu:

- Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Medi 2023, sydd, yn ei barn hi, â'r nod o "ysgogi dull gweithredu cyson ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gwella ymgysylltiad a chodi

[364] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 18 Gorffennaf 2024
[365] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
[366] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[367] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 55

safonau disgwyliadau pawb sy'n gweithredu fel rhiant corfforaethol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal";

- yr ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal (a ddarperir drwy'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), yr oedd y Senedd yn craffu arno ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), y mae'r papur yn honni y bydd yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal yn fwy effeithiol, gan arwain at well canlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd; a

- hawl plant mewn gofal i eiriolaeth, y dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ystyried a ddylid penodi ymwelydd annibynnol, a chyfarfodydd adolygu plant, dan gadeiryddiaeth Swyddog Adolygu Annibynnol.[368]

**248.** Ailadroddodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gadw plant allan o ofal. Yn groes i'n pryderon ynghylch darpariaeth yn y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) o ran lleoliadau y tu allan i'r ardal, pwysleisiodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i leoli plant mewn lleoliadau mwy priodol, yn nes at eu cartrefi.[369]

**249.** Yn ein hadroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gwnaethom alw am roi sylfaen statudol i rianta corfforaethol. Daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd siarter rhianta corfforaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru yn sicrhau newid pendant ac ystyrlon. Mae maint yr hyn sydd angen ei drawsnewid yn rhy fawr. Nid oes ganddo sylfaen statudol, ac nid ydym yn gweld unrhyw ffordd glir y gellir dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am gyflawni'r ymrwymiadau a wneir ganddynt yn y siarter, na chwaith pa gamau gorfodi y gellir eu cymryd - a chan bwy - os nad ydynt yn cyflawni'r ymrwymiadau hynny."*[370]

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi pryderon tebyg, gan ddadlau mai "mater i gyrff unigol yng Nghymru yw penderfynu a ydynt am ymrwymo o gwbl,

---

[368] Llywodraeth Cymru,'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 11
[369] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 11-13
[370] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalen 44

a/neu pa ffurf fydd i'w hymrwymiad." Daw i'r casgliad "y gallai ac y dylai mwy gael ei wneud i fynnu bod sefydliadau'n ymrwymo i gyfrifoldebau yn y maes hwn."[371]

**250.** Cydnabu Llywodraeth Cymru fod plant yn y system ofal yn arbennig o agored i gael eu gwthio i'r ymylon, gan nodi eu bod deirgwaith yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant eraill.[372] Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol am ei hargraffiadau o sut y mae rhieni corfforaethol yn ymateb i Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod tua 60 o sefydliadau wedi ymrwymo'n wirfoddol i'r siarter, a'i bod yn gobeithio ei hyrwyddo'n ehangach, gan gynnwys i'r sector preifat. Ychwanegodd Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ei fod wedi clywed adborth gan ymarferwyr nad diffyg canllawiau i'r rhai sy'n gadael gofal yw'r brif her, ond yn hytrach sicrhau bod beth *ddylai f*od yn digwydd rhwng adrannau tai a gwasanaethau plant wir yn digwydd yn ymarferol: er enghraifft, sicrhau bod cynlluniau llwybr ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu rhoi ar waith i'w paratoi ar gyfer gadael gofal.

**251.** Mae dyletswyddau deddfwriaethol a chanllawiau statudol eisoes yn nodi sut y mae'n rhaid i asiantaethau statudol gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal (o dan y Cod Ymarfer Rhan 6 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, er enghraifft).[373] Serch hynny, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"I think we see too much inconsistency. We see really good examples of really good practice in the way these issues are dealt with, and some very poor examples, and if one local authority and health board can do it really well, with good results, then others should be able to do it as well."*[374]

## Plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

**252.** Mae plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches wedi cael eu gwahanu oddi wrth y ddau riant biolegol ac nid ydynt yng ngofal gwarcheidwad. Fel arfer bydd y plant hyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol.

**253.** Cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o sefydliadau yn pwysleisio pa mor agored i niwed yw plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain. Ysgrifennodd

[371] Comisiynydd Plant Cymru, 'Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24', Hydref 2024, tudalen 26
[372] Llywodraeth Cymru,'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalen 9
[373] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya', Ebrill 2018
[374] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Medi 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 147-156

Cymdeithas y Plant fod plant a phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain yn rhai o'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, y mae'n ofynnol iddynt ymgysylltu â'r broses gymhleth o geisio lloches, yn aml wrth brofi trawma a chynnwrf.[375]

**254.** Clywsom fod y bregusrwydd hwn yn golygu bod plant sydd ar eu pen eu hunain ac sy'n ceisio lloches yn wynebu risg mawr o fynd ar goll neu o gamfanteisio. Ysgrifennodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Sefydliad Bevan, fod plant sydd ar eu pen eu hunain yn wynebu mwy o risg o gael eu herwgipio, eu masnachu a chamfanteisio. Gwnaethant ein cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth y DU sy'n nodi statws mewnfudo ansicr, megis plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid, fel un o'r ffactorau risg allweddol sy'n gwneud person yn fwy agored i gamfanteisio troseddol (gan gynnwys 'llinellau cyffuriau').[376]

**255.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder ynghylch gweithredu deddfwriaeth y DU gyfan sy'n ymwneud â phlant sydd ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. Dadleuodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (mae cymryd rhan ynddo bellach yn orfodol i bob awdurdod lleol yn y DU[377]) wedi arwain at nifer cynyddol o Blant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches yn cael eu lleoli yng Nghymru. Mae'n nodi y gall y plant hyn fynd ar goll gan nad ydynt yn teimlo y gellir diwallu eu hanghenion yn yr ardal, yn enwedig mewn rhannau gwledig o Gymru.[378]

**256.** Roedd Sefydliad Bevan a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru yn beirniadu Deddf Ymfudo Anghyfreithlon (2023), y maent yn dadlau sy'n gosod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sy'n agos at 18 oed mewn perygl o gael eu troseddoli neu gamfanteisio. Mae'n egluro bod plant yn debygol o ddianc er mwyn osgoi'r cyfnod cadw a'r posibilrwydd o gael eu symud fel y nodir yn y Ddeddf honno.[379]

---

375 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig)
376 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM17 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Jay, A. 118 tal, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Cymru yn unig), Cymru 2024, tudalen 26; Llywodraeth y DU, 'Criminal exploitation of children and vulnerable adults: county lines (Cymru yn unig)', 20 Hydref 2023; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Cymru yn unig)
377 Llywodraeth y DU, 'National Transfer Scheme Protocol for Unaccompanied Asylum Seeking Children (Saesneg yn unig)', 17 Awst 2003, tudalen 3
378 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM26 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)
379 Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM17 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)

**257.** Clywsom sawl galwad am Wasanaeth Gwarcheidwaeth Genedlaethol ar gyfer plant sydd ar eu pen eu hunain.[380] Mae'r achos dros Wasanaeth Gwarcheidwaeth Genedlaethol yn cael ei gyflwyno'n gynhwysfawr gan sesiwn friffio ar y cyd gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a'r Groes Goch Brydeinig. I grynhoi, mae'r papur briffio yn cynnig y dylai fod gan y gwasanaeth gwarcheidwaeth y ffactorau allweddol a ganlyn:

- Gwasanaeth cefnogol ac ymgysylltiol, gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth gyda'r plentyn, helpu'r plentyn i addasu i'w fywyd yn y DU, eirioli ar ran y plentyn, ei helpu i gael cyngor cyfreithiol, a chysylltu â chyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran y plentyn.
- Dylid dyrannu gwarcheidwad i bob plentyn sydd ar ei ben ei hun pan fydd yn cyrraedd Cymru.
- Dylai'r gwasanaeth fod yn annibynnol ar unrhyw gorff statudol.
- Dylai'r gwasanaeth gael ei staffio gan weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn, a fyddai'n gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr cyfreithiol a gwasanaethau'r trydydd sector a gwasanaethau statudol eraill. Dylai fod ag adnoddau da, yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar y plentyn.[381]

**258.** Mae'r papur briffio yn dadlau bod Gwasanaeth Gwarcheidwaeth yr Alban yn darparu model 'rhagorol', sy'n dangos bod gan wasanaeth Cymreig y potensial i wella bywydau Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches, cefnogi gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau eraill wrth iddynt gynnal asesiadau oedran, a lleihau nifer y cyfnodau o fynd ar goll, ac atal troseddoli, ymhlith manteision eraill.[382]

**259.** Ym mis Ebrill 2017, argymhellodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd y dylai Llywodraeth Cymru "sefydlu gwasanaeth gwarcheidwaeth i Gymru, gyda chymorth rhwydweithiau

---

[380] NYAS Cymru a Chymdeithas y Plant, 'Missing the Point' (Saesneg yn unig), Tachwedd 2020, tudalen 14; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM18 Cymdeithas y Plant (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM17 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig); Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 80
[381] Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a'r Groes Goch Brydeinig, 'A Guardianship Service for All Unaccompanied Children in Wales: A research briefing (Saesneg yn unig)', Ebrill 2024, tudalennau 30-31
[382] Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a'r Groes Goch Brydeinig, 'A Guardianship Service for All Unaccompanied Children in Wales: A research briefing (Saesneg yn unig)', Ebrill 2024, tudalennau 6 a 33-34

cyfoedion, fel rhan o'r broses o ailddatgan ymrwymiad Cymru i groesawu plant sy'n ceisio lloches sydd ar ben eu hunain."[383] Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor a dywedodd fod "gwaith yn mynd rhagddo i weld sut y gellid datblygu gwasanaeth o'r fath yng Nghymru".[384] Nid yw'n glir pa gynnydd sydd wedi'i wneud ers hynny.

**260.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn grŵp o blant sy'n wynebu risg uwch o gamfanteisio. Mae'n cydnabod y gall cyrraedd gwlad dramor ar eich pen eich hun gael "effaith ddinistriol a pharhaol ar fywydau plant a phobl ifanc". Mae'n nodi bod gan Gymru fynediad at wasanaeth Gwarcheidwaeth Masnachu Plant Annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr (ICTG), ond mae'n cydnabod y gallai'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches olygu bod angen gwasanaeth penodol i Gymru. Mae'r papur yn ymrwymo i ystyried y cymorth presennol sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain, ac i ystyried sut y gallai gwasanaeth gwarcheidwaeth weithio yng Nghymru, yr adnoddau sydd eu hangen i roi system o'r fath ar waith a sut y gallai ategu'r gwasanaethau statudol sydd eisoes ar gael.[385]

## Plant niwroamrywiol (a phlant sydd ag anableddau dysgu)

**261.** Cawsom gorff sylweddol o dystiolaeth ynghylch pa mor agored i niwed posibl yw plant niwroamrywiol a phlant sydd ag anableddau dysgu. Er yn cwmpasu grwpiau eang iawn o bobl sydd ag ystod o anghenion a phrofiadau gwahanol, mae ein tystiolaeth yn awgrymu y gall plant niwroamrywiol a phlant sydd ag anableddau dysgu fod yn agored ar y cyd i gael eu gwthio i'r ymylon. Clywsom fod y bregusrwydd cyffredin hwn yn deillio o'r heriau y gallent eu hwynebu wrth ymgysylltu â chymdeithas yn fwy cyffredinol.[386]

**262.** Amlygodd Anabledd Dysgu Cymru:

> *"Evidence suggests that children with a learning disability are more vulnerable to exploitation. This is reflective of the many*

[383] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun': Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru', Ebrill 2017, tudalen 55
[384] Llywodraeth Cymru, Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef 'Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun': Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, Mehefin 2017
[385] Llywodraeth Cymru, 'Plant a Phobl Ifanc ar y cyrion: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', Medi 2024, tudalennau 11-12
[386] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 21

> *barriers faced by children and young people with a learning disability more generally in their lives, consequently meaning they are more at risk of being exposed to predatory adults."*

Mae'n datgan bod pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn aml yn cael eu babaneiddio, yn cael eu goramddiffyn ar un cyfnod yn eu bywyd ac yn cael eu tan-amddiffyn mewn cyfnod arall. Mae'n egluro bod plant sydd ag anabledd dysgu yn wahanol, yn gynnil ac yn unigolyddol, ac yn amlygu efallai nad ydynt yn deall bod rhywun wedi camfanteisio arnynt, eu bod wedi'u hudo neu eu cam-drin. Mae'n dadlau y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu gwaith ymchwil i ddeall yn well faint o bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu y camfanteisir arnynt, ac y dylai gweision cyhoeddus gael hyfforddiant i ddeall sut y gallai'r gamdriniaeth y mae'r plant hyn yn ei hwynebu gael ei hamlygu a chael tystiolaeth ohoni.[387]

**263.** Nododd Adolygiad Jay fod niwroamrywiaeth wedi'i ddyfynnu ym mron pob un o'r enghreifftiau am blant y camfanteisir arnynt, gydag ADHD heb ddiagnosis neu heb ei drin wedi'i nodi fel ffactor risg sylweddol gan sawl tyst.[388] Nododd Adolygiad Jay, Voices from Care Cymru a Cymorth Cymru y gall plant niwroamrywiol hefyd brofi rhwystrau sy'n ymwneud ag argaeledd ac ansawdd gwasanaethau.[389] Roedd y rhieni sydd â phrofiad byw o Gamfanteisio Troseddol ar Blant a ymgysylltodd â'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu safbwyntiau tebyg:

> *"My kids have got ADD and Autism. I've got ADHD and PTSD. I would like the weight lifted off my shoulders, not in a way where someone is gonna carry me but in a way where I'm not begging for support that should have already been in place. My mental health is suffering, which is gonna have a knock-on effect on my children, I feel like a robot, I don't feel like a person."*[390]

**264.** Adroddodd Adolygiad Jay, Voices from Care Cymru a Cymorth Cymru i gyd y gallai plant niwroamrywiol neu blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd

---

[387] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM8 Anabledd Dysgu Cymru (Saesneg yn unig)
[388] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 25
[389] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 25; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[390] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 7

brofi rhwystrau'n ymwneud ag argaeledd ac ansawdd gwasanaethau.[391] Tynnodd eraill sylw at y tebygolrwydd cynyddol o blant niwroamrywiol yn cael eu gwahardd o leoliadau addysg, sy'n golygu nad ydynt yn elwa ar rinweddau amddiffynnol sefydliadau addysg, fel y trafodwyd uchod.[392]

## Plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

**265.** Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ei adroddiad ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. Canfu'r adroddiad, sy'n tynnu'n helaeth ar dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd fod gan tua 60 y cant o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac "n[a]d yw effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r siawns dwysach y byddant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol wedi cael y sylw y mae'n ei haeddu". Gwnaeth gyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o atal plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf, a'u cefnogi pan fyddant yno.[393]

**266.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru dri o'r argymhellion yn llawn, dau mewn egwyddor a gwrthododd ddau.[394] Fodd bynnag, ers hynny mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi mynegi siom ynghylch cyflymder gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, ac wedi sylwi ar "newid amlwg yn nhôn y Llywodraeth, sy'n ein siomi'n fawr iawn."[395] Maen wedi ymrwymo i barhau i fonitro ymateb ymarferol y llywodraeth i'r adroddiad. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei safbwynt yn parhau fel y'i nodwyd yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ac mewn gohebiaeth ers hynny, ac

[391] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children', Mawrth 2024, tudalen 25; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[392] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[393] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, '60% - Rhoi llais iddyn nhw. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid', 16 Ebrill 2023
[394] Llywodraeth Cymru, 'Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sef 60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid', 7 Mehefin 2023
[395] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 1 Gorffennaf 2024

ailadroddodd y cyfyngiadau sy'n deillio o'r gweithlu therapi lleferydd ac iaith cyfyngedig yng Nghymru.[396]

**267.** Cyflwynodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd farn gynhwysfawr ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant, a'u perthnasedd i'n hymchwiliad:

> *"While members of the public will often think of children who have difficulties with pronunciation (speech sounds) or stammering, in the cohort of vulnerable children, SLCN more commonly encompass difficulties understanding and remembering what is said to them, explaining and expressing themselves, or following the 'rules' of social interaction. In vulnerable children these needs often go unrecognised because behaviour and trauma can mask the difficulties a child or young person has communicating. For example, outbursts may be attributed to bad behaviour requiring punishment, rather than recognising that inadequate support of a communication need has led to an escalation in distress."*[397]

**268.** Roedd yn dadlau bod plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn wynebu mwy o risg o gael cyfres o ganlyniadau gwael, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, gwahardd o'r ysgol, diweithdra, ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Ymatebodd yn gadarnhaol i ganllawiau diweddar Llywodraeth Cymru ar bresenoldeb mewn ysgolion, a oedd yn cynnwys adran ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n amlygu'r angen i gael systemau clir ar waith i sicrhau bod plant yn datblygu eu sgiliau lleferydd ac iaith i'w llawn botensial. Mae hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu therapydd iaith a lleferydd i gynnal cyfweliadau â staff ysgol ynghylch y cysylltiad rhwng gwaharddiadau ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a menter ymyrraeth gynnar sy'n cael ei threialu'n ddiweddar o fewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghastell-nedd Port Talbot a Chaerdydd.[398]

[396] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 30 Awst 2024
[397] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM24, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Saesneg yn unig)
[398] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM24, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Saesneg yn unig)

**269.** Fodd bynnag, mae'n rhannu pryderon y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch cynnydd Llywodraeth Cymru ers adroddiad y Pwyllgor. Mae'n galw am y canlynol:

- canllawiau statudol a hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau ar gyfer plant, rhieni, gwarcheidwaid a theuluoedd sy'n agored i niwed er mwyn iddynt ddeall mwy am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, pa mor gyffredin ydynt, a sut i nodi a chefnogi plant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu;
- therapyddion iaith a lleferydd i gael eu gwreiddio yn yr holl wasanaethau perthnasol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed neu eu bod ar gael yn rhwydd iddynt; ac
- eglurder gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch a fydd ffrydiau ariannu cyfiawnder ieuenctid yn y dyfodol yn blaenoriaethu therapi iaith a lleferydd.[399]

## Plant sy'n byw mewn tlodi

**270.** Clywsom fod mwy o debygolrwydd o gamfanteisio a phlant yn cael eu gwthio i'r ymylon yn erbyn cefndir o dlodi.[400] Daw Adolygiad Jay i'r casgliad a ganlyn:

> *"Witnesses were clear that no strategy to reduce exploitation and violence would succeed without comprehensive systemic interventions to tackle poverty… Poverty and social deprivation were described as the 'backcloth' to exploitation, with children living in 'circumstances where the legitimate economy is not a way that they can see to earn the kind of status and living that they wish to earn'"*[401]

[399] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM24 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Saesneg yn unig); Gwybodaeth ychwanegol, CYPM24 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (Saesneg yn unig)
[400] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM27 Cymorth i Ferched Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM3 RAY Ceredigion (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM17 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig); Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 6
[401] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 24

**271.** Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom yn egluro y defnyddir tlodi gan y sawl sy'n camfanteisio i demtio plant i weithgarwch troseddol. Adroddodd CASCADE fod gwaith ymchwil wedi canfod bod camfanteisio troseddol yn rhoi llwybr i blant fyw 'bywyd braf fel pawb arall'.[402] Awgrymodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru y gall hyd yn oed mân ddyled ariannol fod yn fannau mynediad ar gyfer camfanteisio.[403] Roedd tystiolaeth gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru yn atgyfnerthu'r ddadl honno, gan amlygu mynychder uwch o gamfanteisio'n ymwneud â chyffuriau, gan gynnwys llinellau cyffuriau, mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol isel.[404] Nododd Gweithredu dros Blant hefyd batrymau tebyg o gynnydd yn y defnydd o gyffuriau a llinellau cyffuriau mewn ardaloedd gwledig tlawd.[405]

**272.** Teimlai eraill fod tlodi yn ffactor risg ar lefel fwy systemig. Dadleuodd Voices from Care Cymru fod tlodi yn rhoi pobl ifanc mewn perygl o brofi canlyniadau iechyd gwael, cyrhaeddiad addysgol ac allgáu cymdeithasol, sydd yn ei dro yn golygu eu bod yn wynebu risg o gael eu gwthio i'r ymylon.[406] Yn y cyfamser, dadleuodd Cymdeithas Seicolegol Prydain fod tlodi yn ymestyn capasiti gwasanaethau i ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed.[407] I Estyn a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, mae plant o gefndiroedd tlotach yn fwy tebygol o gael eu hallgáu o addysg, sy'n ffactor amddiffynnol pwysig i blant sy'n agored i niwed, fel y trafodwn uchod.[408]

## Plant sydd wedi profi trawma neu esgeulustod yn y cartref

**273.** Nid dim ond plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n profi trawma neu esegeulustod.[409] Roedd ansefydlogrwydd y teulu yn cael ei adrodd yn gyson inni fel ffactor risg sylweddol i blant: roedd Adolygiad Jay yn dyfynnu tystiolaeth yr oedd wedi'i derbyn a oedd yn galw trawma yn 'edau aur' ym mywydau plant y

[402] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)
[403] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[404] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)
[406] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[407] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM29 Cymdeithas Seicolegol Prydain (Saesneg yn unig)
[408] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM20 Estyn (Saesneg yn unig)
[409] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 3

camfanteisir arnynt.[410] Ymhelaethodd tystiolaeth Voices from Care Cymru ar pam y gallai hyn fod yn wir:

> *"Children experiencing trauma in the home, such as abuse, neglect, or domestic violence, are also at heightened risk of exploitation. Trauma can impact a child's sense of safety, self-esteem, and ability to trust others, making them more susceptible to manipulation and coercion by perpetrators."*[411]

**274.** Roedd ansefydlogrwydd teuluol ac esgeulustod yn thema allweddol ymhlith gwaith Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyda phobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad o gamfanteisio troseddol. Siaradodd rhai cyfranogwyr am eu mamau, yn arbennig, a oedd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w cefnogi er gwaethaf adnoddau cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd eraill yn disgrifio amgylcheddau lle roedd rhieni, a oedd weithiau'n cael trafferth gyda chamddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl, yn methu â rhoi'r gofal a'r sylw sydd ei angen:

> *"Too many kids are left on the streets all day, putting them in the spotlight. It's the kids out there unsupervised who get noticed. People can tell their parents don't really care."*[412]

**275.** Soniodd cyfranogwr arall am ei brofiad ag ansefydlogrwydd a diffyg gofal yn ystod ei arddegau:

> *"When I was 16, I was put in a hostel. I was responsible for myself but shouldn't have been. I should have been a looked-after child, but social services never helped me. I had all of the responsibilities of being older but none of the freedoms. I had to pay rent, put food in my freezer, I had to keep my room clean, I had to do my washin - that's a lot of responsibility for a 16-year-old. From the age of 16 to 17, I don't remember a day when I wasn't depressed. I took drugs in the hostel, acid, ecstasy, 2CB, I ended up doing sniff in hostel - it was just a bad place for me."*

Pwysleisiodd y cyfranogwyr nad oedd gan blant yn yr amgylchiadau hyn ddiogelwch a ffiniau hanfodol gartref, gyda fawr ddim atebolrwydd, os o gwbl.

[410] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 19
[411] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[412] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalen 6

Roeddent yn teimlo bod y diffyg strwythur hwn yn ei gwneud yn glir i'r sawl sy'n camfanteisio nad oedd gan y plant hyn oruchwyliaeth a'u bod yn wynebu risg.[413]

**276.** Soniodd Ymddiriedolaeth St Giles wrthym fod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym meysydd llinellau cyffuriau, camfanteisio rhywiol ac eithafiaeth yn nodi bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn gyffredin ar draws dioddefwyr pob math o gamfanteisio.[414] Cyflwynodd Barnardo's Cymru safbwyntiau tebyg, ac ychwanegodd fod plant sy'n cael eu magu yn yr un cartrefi â brodyr a chwiorydd sydd wedi mynd ar goll neu sydd wedi wynebu camfanteisio yn aml wedi profi'r un trawma, ac y collir cyfle pan na chaiff gwaith atal wedi'i dargedu ei wneud gyda brodyr a chwiorydd.[415] Cytunodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru fod trawma yn ffactor risg allweddol i blant sy'n mynd ar goll ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, ac awgrymodd y gallai rhieni plant sy'n mynd ar goll ei chael yn anodd gweithredu strategaethau rhianta cadarnhaol, ac a allai fod wedi bod yn absennol am flynyddoedd lawer.[416] Roedd Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn cydnabod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod mewn perthynas â phlant sydd ar yr ymylon.[417]

## Plant sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol

**277.** Amlygodd rhai rhanddeiliaid y gall cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol wthio rhai plant i sefyllfaoedd camfanteisiol. Anogodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru ni i ystyried pa mor agored i niwed yw plant y mae eu rhieni yn y carchar neu'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.[418] Eglurodd Voices from Care Cymru:

> *"… Children with incarcerated parents face numerous challenges, including stigma, emotional distress, and disruptions to family life. They may experience difficulties in maintaining relationships with their incarcerated parent, coping with the financial and practical impacts of*

[413] Y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, 'Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Hydref 2024, tudalennau 6-7
[414] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[415] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig)
[416] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
[417] Llythyr gan Plismona yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Awst 2024
[418] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)

*imprisonment, and accessing support services. Concerns may arise regarding the lack of targeted support for these children and the need for greater recognition of their unique needs within policy and practice."*[419]

**278.** Canfu Adolygiad Jay fod ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid yn ganlyniad ac yn achos troseddoli, gan nodi bod cyswllt blaenorol â'r system cyfiawnder ieuenctid – hyd yn oed ar gyfer mân droseddau nad ydynt yn gysylltiedig – yn ffactor risg ar gyfer camfanteisio diweddarach. Eglurodd yr adolygiad fod plant sydd â chysylltiadau teuluol â gangiau drwy eu cyfoedion, brodyr a chwiorydd neu aelodau o'r teulu hefyd yn wynebu risg gynyddol, ac yn brwydro i dorri'n rhydd o batrymau troseddu sy'n digwydd dro ar ôl tro.[420] Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru yn rhannu pryderon tebyg, gyda'r olaf yn ychwanegu bod plant sydd â chysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid y rhai sydd fwyaf agored i niwed, gyda'r anghenion mwyaf cymhleth mewn cymdeithas.[421]

## Plant sy'n wynebu gwahaniaethu systemig

**279.** Teimlai rhai rhanddeiliaid fod plant sy'n wynebu gwahaniaethu yn wynebu mwy o risg o gael eu gwthio i'r ymylon. Amlygodd Cymorth Cymru fod llawer o blant LHDTC+ mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol. Adroddodd hefyd y gallant brofi chwalfa deuluol a hyd yn oed cam-drin corfforol gan aelodau o'r teulu oherwydd eu rhywioldeb. Gall y plant hyn hefyd ddrwgdybio gwasanaethau a phrofi rhwystrau systemig o fewn gwasanaethau (fel rhaglenni ac arferion ar wahân ar sail rhywedd), a all arwain at fwy o unigedd, bregusrwydd a chamfanteisio o bosibl.[422]

**280.** Mynegodd Voices from Care Cymru bryderon tebyg ynghylch rhai plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a allai brofi gwahaniaethu sy'n eu hynysu oddi wrth wasanaethau cymorth, megis y system addysg.[423] Adroddodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru gasgliad Adolygiad Jay fod plant du yn parhau i gael eu gorgynrychioli ar draws pob math o gamfanteisio.[424] Eglurodd Ymddiriedolaeth St Giles y gallai rhieni plant y camfanteisir arnynt o grwpiau ethnig lleiafrifol fod yn

---

[419] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[420] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 21
[421] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)
[422] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM31 Cymorth Cymru (Saesneg yn unig)
[423] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM14 Voices from Care Cymru (Saesneg yn unig)
[424] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (Saesneg yn unig)

gyndyn o gynnwys yr awdurdodau, gan ofni y bydd yr ymateb a gânt yn feirniadol ac yn gosbol.[425] Amlygodd y therapydd iaith a lleferydd Emma Baldwin yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod plant o gymunedau sipsiwn, Roma a theithwyr, yn aml yn cael eu hanghofio gan wasanaethau cymorth.[426]

## Ffactorau risg eraill

**281.** Codwyd rhai ffactorau risg eraill yn llai aml ar draws y dystiolaeth a gawsom, gan gynnwys:

- Plant sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl. Eglurodd Adolygiad Jay fod camfanteisio'n aml yn targedu'r rhai sydd â llesiant emosiynol gwael, sy'n deillio o esgeulustod, cam-drin, bwlio neu brofedigaeth.[427] Yn ystod ein digwyddiadau i randdeiliaid, mynegodd rhai gweithwyr proffesiynol bryder ynghylch rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, neu ddiffyg gwasanaethau cymorth i blant sydd wedi profi trawma yn sgil eu camfanteisio.[428] Mae problemau iechyd meddwl hefyd yn gysylltiedig â llawer o'r ffactorau risg eraill a drafodwyd yn y bennod hon, fel y nodir uchod.

- Plant sydd, neu y mae eu rhieni, â phroblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau.[429]

[425] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM19 Ymddiriedolaeth St Giles (Saesneg yn unig)
[426] Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM2 Emma Baldwin, Therapydd iaith a lleferydd (Saesneg yn unig)
[427] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children' (Saesneg yn unig), Mawrth 2024, tudalen 19. Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM13 CASCADE, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM20 Estyn (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21 Barnardo's Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 NYAS Cymru (Saesneg yn unig);
[428] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Canfyddiadau yn dilyn digwyddiadau i randdeiliaid', Medi 2024, tudalen 20
[429] Jay, A. et al, 'Shattered lives, stolen futures. The Jay Review of Criminally Exploited Children', Mawrth 2024, tudalen 24; Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM11 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM25B Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)

## Ein barn ni

### Plant nad ydynt mewn lleoliad addysg

**282.** Rydym yn cydnabod y dystiolaeth aruthrol a gawsom sy'n dangos bod plant sy'n cael eu gwahardd o leoliadau addysg neu sy'n cael eu gosod ar amserlenni rhan-amser am gyfnodau estynedig o amser yn wynebu risg sylweddol uwch o fynd ar goll neu o gamfanteisio troseddol. Clywsom hefyd gyfeiriad at blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn aml, er eu bod yn ddisgyblion cofrestredig – y cyfeirir atynt weithiau fel 'gwaharddiadau answyddogol'. Cawsom ein synnu gan dystiolaeth gweithwyr y rheng flaen a ddywedodd wrthym, gydag ychydig iawn o eithriadau, nad yw pob un o'r plant y maent yn gweithio gyda hwy yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. A chawsom ein hargyhoeddi hefyd gan farn y bobl ifanc a siaradodd â Thîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd a dynnodd sylw at y peryglon cynhenid o orfodi plant sy'n agored i niwed allan o ysgolion, gan eu gadael yn wynebu risg o gamfanteisio gan gangiau.

**283.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth iddynt geisio cadw ein plant mwyaf agored i niwed yn yr ysgol. Nodwn y dystiolaeth a glywsom am ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys trais, tuag at ddisgyblion eraill a staff ysgol. Nid ydym yn diystyru pa mor galed y gall hynny fod i ysgolion gan eu bod yn cydbwyso anghenion y plentyn unigol ag anghenion y gymuned ysgol ehangach.

**284.** Credwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy yma i helpu ysgolion, drwy wneud risgiau gwahardd yn glir mewn canllawiau, a thrwy gefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau sy'n cadw plant sy'n agored i niwed rhag mynychu. I fynd i'r afael â'r cyntaf, dylid diweddaru canllawiau gwahardd ysgolion i adlewyrchu'n well y ffactorau risg ehangach a chanlyniadau camfanteisio, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn. Ac ar gyfer yr olaf, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i nodi a rhannu arferion gorau o ran cadw plant sy'n wynebu risg yn yr ysgol, a ddylai fod yn rhan o'r pecyn hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ehangach a gynigir i staff ysgolion ledled Cymru.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru canllawiau gwahardd i ysgolion er mwyn adlewyrchu ffactorau risg ehangach camfanteisio, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn, a sicrhau bod pob ysgol yn cael ei hatgoffa o ganlyniadau posibl gwahardd ac amserlenni rhan-amser. Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cronfa o enghreifftiau lle mae ysgolion wedi llwyddo i gefnogi plant sy'n agored i niwed i aros yn yr ysgol, gan rannu'r astudiaethau achos hynny i lywio arfer gorau ar draws y sector.

**285.** Cawsom dystiolaeth wedi'i geirio'n gryf gan rai a oedd yn dadlau nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn wynebu risg o gamfanteisio troseddol. Roedd eraill, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, yn teimlo y *gall* rhai plant sy'n cael eu haddysgu gartref fod yn agored i niwed.

**286.** Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi canolbwyntio ar blant y mae eu rhieni'n dewis eu haddysgu gartref ac sydd, wrth wneud hynny, yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys priodol o fewn amgylchedd gofalgar a meithringar y tu allan i leoliad addysg ffurfiol. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod y plant hyn yn wynebu mwy o risg o gamfanteisio na phlant sy'n derbyn eu haddysg yn yr ysgol.

**287.** Deallwn fod y ddadl ynghylch y gronfa ddata arfaethedig o blant sy'n colli addysg yn ymestyn y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn. Ein pryder yma yw plant sy'n wynebu risg o fynd ar goll, camfanteisio troseddol neu niwed arall. Rydym wedi cael tystiolaeth aruthrol bod y plant hyn yn debygol iawn o beidio â mynychu'r ysgol. Rydym wedi clywed bod y plant hyn fel arfer wedi'u gwahardd, wedi'u gosod ar amserlenni â llai o oriau, neu efallai'n gwrthod mynychu'r ysgol am resymau eraill. Credwn fod cronfa ddata arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol eraill ddiogelu *y plant hyn*, y mae eu bregusrwydd eithafol yn cyfiawnhau ymateb diogelu cymesurol gadarn.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ac adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis ar y defnydd o'r gronfa ddata plant sy'n colli addysg er mwyn i awdurdodau lleol nodi a diogelu plant nad ydynt mewn lleoliadau addysg ac a allai, o ganlyniad, fod yn wynebu risg o gamfanteisio.

## Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**288.** Er y gall plant mewn gofal gael eu gorgynrychioli mewn ystadegau am blant coll, mae'n amlwg eu bod yn anghymesur o debygol o fynd ar goll o gymharu â phlant nad ydynt mewn gofal. Mae mynd ar goll yn golygu eu bod yn wynebu risg o niwed pellach, gan gynnwys camfanteisio a cham-drin. Ac oherwydd y trawma y mae llawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i brofi, ac oherwydd efallai nad oes ganddynt strwythurau cymorth cyson a chariadus o'u cwmpas, maent yn arbennig o agored i ymddygiad camfanteisiol.

**289.** Ers inni ryddhau ein hadroddiad ar y system ofal ym mis Mai 2023 mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei Siarter Rhianta Corfforaethol. Y siarter hon oedd ateb Llywodraeth Cymru i alwadau am gyfrifoldebau rhianta corfforaethol cliriach

ar gyfer grŵp ehangach o gyrff cyhoeddus. Roeddem wedi argymell dyletswyddau rhianta corfforaethol statudol penodol ar gyfer amrywiaeth o gyrff cyhoeddus. Gwrthododd Llywodraeth Cymru ein hargymhellion.

**290.** Nid ydym wedi derbyn unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y siarter wedi arwain at welliannau diriaethol yn ansawdd y gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mewn gwirionedd, rydym wedi canfod yn ystod yr ymchwiliad hwn yr un heriau sylfaenol ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ag y gwnaethom eu canfod yn ystod ein hymchwiliad i'r system ofal yn ehangach: heriau ynghylch ansawdd lleoliadau, gwahardd o ysgolion, bygythiad o ddigartrefedd, ac effaith gwaith amlasiantaeth gwael, a goblygiadau heriau'r gweithlu gofal cymdeithasol.

**291.** Fel y daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad yn 2023, mae arfer da o ran sut mae cyrff statudol yn darparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya eisoes wedi'i nodi mewn canllawiau statudol. Y broblem, fel y cydnabu Llywodraeth Cymru ei hun yn ystod gwaith craffu ar lafar, yw nad yw'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd bob amser yn debyg i'r arfer da hwnnw. Felly, ni all Llywodraeth Cymru fod wedi synnu os nad yw siarter wirfoddol yn ysgogi'r arferion cyson y mae hyd yn oed canllawiau statudol wedi methu â'i gyflawni hyd yma.

**292.** Rhaid rhoi sylfaen gadarnach i ddyletswyddau rhianta corfforaethol, nid eu gwanhau. Dylai fod yn fwy cyson ledled Cymru, heb ei adael i bob corff unigol fynd ati drosto'i hun. Yn gyfreithiol orfodadwy, nid gwirfoddol. Rydym yn parhau i gredu mai gosod dyletswyddau rhianta corfforaethol clir yn y gyfraith yw'r ffordd orau o ysgogi gwelliannau yn y sector gofal. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i wneud hynny fel rhan o'i myfyrdodau ar ymateb cyrff cyhoeddus i'w siarter wirfoddol.

**Argymhelliad 19.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ar ôl ystyried effaith (neu fel arall) y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol ar ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i osod ei Siarter Rhianta Corfforaethol ar sail statudol; ac
- unrhyw gamau pellach y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â rhianta corfforaethol, a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.

**293.** Yng nghyd-destun system ofal sydd mor amlwg angen ei diwygio'n sylweddol – yn radical – er mwyn cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwirionedd, cawsom ein calonogi i glywed adborth cadarnhaol gan berson ifanc, gofalwr maeth a chan staff yr awdurdod lleol am lwyfan digidol gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer plant mewn gofal.

**294.** Deallwn mai mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu ar ymarferoldeb y ffordd y maent yn cyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Ond rydym yn synhwyro bod y llwyfan hwn yn cyffwrdd â materion sy'n sylfaenol bwysig i bob plentyn, yn enwedig i'r rhai mewn gofal. Mae'n rhoi mwy o reolaeth iddynt dros sut a gyda phwy y maent yn cyfathrebu, yn ogystal â bod yn arf diogelu defnyddiol ac ymarferol. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru a yw wedi ystyried ariannu arloesiadau megis ap sir Ddinbych ar gyfer ei gyflwyno'n genedlaethol, ac os nad yw wedi, a fyddai'n ystyried gwneud hynny.

**Argymhelliad 20.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa gymorth y mae wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w helpu i ysgogi/mabwysiadu arloesiadau digidol sy'n gwella cyfathrebu â phlant mewn gofal; ac
- a yw'n ystyried y gallai'r ap a ddefnyddir yn Sir Ddinbych (neu lwyfannau tebyg a ddefnyddir mewn mannau eraill) warantu ymchwiliad pellach, gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar draws awdurdodau lleol ledled y wlad.

### Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

**295.** Rydym yn cydnabod bod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ymhlith y plant sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Maent yn aml yn rhannu llawer o'r ffactorau risg yr ydym wedi'u trafod yn y bennod hon: profiad o drawma, diffyg strwythurau cefnogol, presenoldeb anghyson yn yr ysgol, a heriau cyfathrebu, i enwi dim ond rhai. Mae'r rhain yn ffactorau risg cymhlethu sy'n rhoi plant ar eu pen eu hunain mewn mwy o risg o gamfanteisio neu gamdriniaeth.

**296.** Rydym wedi clywed galwadau cyson am Wasanaeth Gwarcheidiaeth Cenedlaethol ar gyfer plant sydd ar eu pen eu hunain i'w cefnogi i ymgartrefu yn eu bywydau newydd ac i lywio prosesau mewnfudo cyfreithiol cymhleth. Nid ydym yn teimlo ein bod wedi cymryd digon o dystiolaeth fanwl i ddod i gasgliadau pendant ynghylch a ydym yn cefnogi gwasanaeth o'r fath ai peidio, ac ar ba ffurf y byddai'r gwasanaeth hwnnw. Ond mae'r oedi yng nghynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn ein taro ni: o'r hyn y gallwn ei weld, ychydig

iawn o gynnydd diriaethol, os o gwbl, sydd wedi'i wneud ers 2017, pan ddywedodd Llywodraeth Cymru ar y pryd yr un pethau wrth un o bwyllgorau'r Senedd ag a soniwyd wrthym yn 2024. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ei gwaith yn y maes hwn, gyda gwybodaeth glir ynghylch sut a phryd y bydd yn symud ymlaen.

**Argymhelliad 21.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa gynnydd y mae wedi'i wneud o ran sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a sut ac erbyn pryd y bydd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

## Plant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu

**297.** Mae plant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu wedi'u crybwyll yn rheolaidd drwy gydol ein hymchwiliad gan amrywiaeth o randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant ar yr ymylon. Mae'r heriau y mae llawer o blant yn eu hwynebu wrth ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas yn ehangach o ganlyniad i'w niwrowahaniaeth neu anabledd, ynghyd â llai o allu rhai plant i nodi pan fydd rhywun yn camfanteisio arnynt, yn eu gwneud yn grŵp a orgynrychiolir o blant sydd ar goll ac y camfanteisir arnynt.

**298.** Nid ydym yn credu bod maint llawn y camfanteisio ar blant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu yn cael ei ddeall yn ddigon da. Heb y ddealltwriaeth honno ni all Llywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol eraill obeithio rhoi ymyriadau ar waith i'w hatal rhag digwydd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth hwnnw fel cam cyntaf hollbwysig i ddiogelu'r plant hyn.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i ddeall yn well natur a graddfa camfanteisio ar blant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu, a maint y broblem honno, gyda'r bwriad o weithio ochr yn ochr ag asiantaethau perthnasol i ddatblygu ymateb mwy effeithiol i ddiogelu'r grwpiau hyn o blant.

## Plant sy'n byw mewn tlodi

**299.** Ni fydd yn syndod i unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed glywed bod tlodi yn aml yn un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno eu profiadau bywyd. Ac eto, er ei fod o bosibl yn sylfaen i wthio rhywun i'r ymylon ac yn gefndir i gamfanteisio a cham-drin, yn aml nid yw tlodi yn cael y sylw y mae'n ei haeddu. Rydym yn deall pam y gallai hyn fod yn digwydd. Mae achosion a datrysiadau tlodi yn ddadl sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r materion yr ydym yn eu trafod

yma. Ond, fel ein hadroddiad yn 2023 i'r system ofal, byddai'n esgeulus inni beidio â phwysleisio'r casgliad allweddol hwn: mae tlodi yn ysgogi ac yn bwydo camfanteisio. Mae wedi'i wreiddio'n sylfaenol ac yn gynhenid i gyd-destun y materion brawychus yr ydym wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn.

**300.** Pryd bynnag y caiff Llywodraeth Cymru ei herio ar ei chyflawniadau o ran tlodi, cawn ymateb tebyg: mae Llywodraeth Cymru yn rhestru'r camau y mae'n eu cymryd, ond yn datgan mai Llywodraeth y DU sydd â'r ysgogiadau i drechu tlodi yn y bôn. Ac mae hynny'n wir, i raddau. Ond ni fydd hynny'n fawr o gysur i'r llu o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yma yng Nghymru. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gydnabod ei chyfrifoldeb mewn perthynas â thlodi yng nghyd-destun y gwaith trallodus a dirdynnol yr ydym wedi'i wneud yn ystod yr ymchwiliad hwn.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod:

- y cysylltiadau sylfaenol a chynhenid rhwng tlodi a cham-drin a chamfanteisio ar blant;
- er bod yr ysgogiadau mwyaf pwerus ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn gorwedd mewn mannau eraill, *mae* ganddi bwerau i ddarparu cymorth ac i ddiogelu plant sy'n cael eu gwneud yn agored i niwed o ganlyniad i dlodi, a dylai gael ei dwyn i gyfrif, yn gwbl briodol, am ei llwyddiannau a'i methiannau wrth wneud hynny.

# Atodiad 1: Gweithgareddau ymgysylltu

Cysylltodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid allweddol yn haf 2024 i ofyn am gymorth i hwyluso ymweliadau ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol rheng flaen, plant, ac arbenigwyr polisi. Gwnaethom dderbyn cynifer o gyfleoedd ymgysylltu ag yr oedd ein blaenraglen waith yn eu caniatáu.

| Dyddiad | Sefydliad/digwyddiad cynnal | Crynodeb o weithgarwch ymgysylltu |
|---|---|---|
| **27 Mehefin 2024** | **Barnardo's (tîm Ymateb Cyflym)**<br>Casnewydd | Trafodaeth bord gron gyda staff a gyflogir gan Barnardo's fel rhan o'u tîm Ymateb Cyflym a staff Cyngor Dinas Casnewydd i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng.<br>Cyfarfod gyda phlentyn sy'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan y tîm Ymateb Cyflym. |
| **27 Mehefin 2024** | **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru (cyfarfod grŵp llywio 'Methu'r Pwynt')**<br>Caerdydd | Trafodaeth bord gron fel rhan o gyfarfod grŵp llywio 'Methu'r Pwynt'. Roedd yn cynnwys staff o NYAS Cymru, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Cymdeithas y Plant, Academi Cyfryngau Cymru (MAC), yn ogystal â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwr maeth a rheolwr cartref gofal preswyl. |
| **27 Mehefin 2024** | **Cyngor Bro Morgannwg**<br>Y Barri | Trafodaeth bord gron gyda staff y cyngor a staff Cyfiawnder Ieuenctid a gweithwyr cymorth y rheng flaen. |
| **8 Gorffennaf 2024** | **Gweithredu dros Blant**<br>Rhithwir | Trafodaeth ar-lein gyda staff Gweithredu dros Blant yn y DU. |

| | | |
|---|---|---|
| **10 Gorffennaf 2024** | **Cartref Plant Diogel Hillside**<br>Castell-nedd | Taith o amgylch y cartref, gan gynnwys trafodaeth â staff y cartref gofal a phlant y cartref.<br>Cyflwyniad a thrafodaeth bord gron gyda staff cartrefi gofal a chynrychiolwyr o Adran Addysg Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Gwasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot. |

# Atodiad 2: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau i randdeiliaid

## 15 Mai 2024 (plant sydd ar goll)

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** | Rachel Hawkins<br>Chris Frey-Davies |
| **Gweithredu dros Blant** | Sharon Maciver<br>Stuart Barter<br>Gary Bowen-Thomson<br>Lee Bridgeman<br>Hefin Daniels<br>Wynne Randles |
| **CASCADE** | Nina Maxwell |
| **Cymdeithas y Plant** | Tom Davies |
| **GISDA** | Lyndsey Thomas |
| **Llamau** | Yvonne Connolly<br>Emma Evans |
| **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** | Sharon Lovell<br>Johanne Jones<br>Phoebe White |
| **St Giles** | Lee Dutton<br>Evan Jones |

## 19 Mehefin 2024 (plant sy'n cael eu troseddoli)

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Gweithredu dros Blant** | Lee Bridgeman<br>Gary Bowen-Thomson |
| **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol** | Anneka Bartlett<br>Rachel Hawkins<br>Chris Frey-Davies<br>Toni Andrews |

| Sefydliad | Enw/Enwau |
|---|---|
| **Barnardo's** | Leah Ward |
| **CASCADE** | Nina Maxwell |
| **Comisiynydd Plant Cymru** | Rachel Thomas |
| **Cymdeithas y Plant** | Tom Davies<br>Holly Sayce |
| **Cyngor Sir Powys** | Ruth Cross |
| **Tîm Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE) Cyngor Dinas Caerdydd** | Steph Mckay<br>Gabi Bazzerra |
| **Llamau** | Emma Evans |
| **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** | Rob Hill<br>Sarah Jane Davies<br>Phoebe White |
| **St Giles** | Lee Dutton<br>Evan Jones |
| **VFCC** | Francesca Pritchard |

# Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

| Dyddiad | Enw'r sefydliad |
| --- | --- |
| **20 Mawrth 2024** | **Gillian Baranski, Prif Arolygydd,**<br>Arolygiaeth Gofal Cymru<br>**Vicky Poole, Dirprwy Brif Arolygydd,**<br>Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **19 Medi 2024** | **Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**<br>**Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**<br>**Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CYPM 01** | Annilys |
| **CYPM 02** | Emma Baldwin, Therapydd iaith a lleferydd |
| **CYPM 03** | RAY Ceredigion |
| **CYPM 04** | Education Otherwise |
| **CYPM 05** | Unigolyn |
| **CYPM 06** | Kelly Anderson |
| **CYPM 07** | Christian Education for Deeside |
| **CYPM 08** | Anabledd Dysgu Cymru |
| **CYPM 09** | Unigolyn |
| **CYPM 10** | Unigolyn |
| **CYPM 11** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **CYPM 12** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| **CYPM 13** | Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd |
| **CYPM 14** | Voices From Care Cymru |
| **CYPM 15** | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (Dyfed-Powys) |
| **CYPM 16** | Llamau |
| **CYPM 17** | Sefydliad Bevan |
| **CYPM 18** | Cymdeithas y Plant |
| **CYPM 19** | St Giles |
| **CYPM 20** | Estyn |
| **CYPM 21** | Barnardo's Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
| --- | --- |
| **CYPM 22** | Paige Monaghan, Dr Sara Waring, Dr Susan Giles (Prifysgol Lerpwl), a Dr Freya O'Brien (Prifysgol John Moores Lerpwl) |
| **CYPM 23** | Annilys |
| **CYPM 24** | Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd |
| **CYPM 25** | Gweithredu dros Blant |
| **CYPM 25B** | Gweithredu dros Blant |
| **CYPM 26** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **CYPM 27** | Cymorth i Ferched Cymru |
| **CYPM 28** | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru |
| **CYPM 29** | Cymdeithas Seicolegol Prydain |
| **CYPM 30** | Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru |
| **CYPM 31** | Cymorth Cymru |
| **CYPM 32** | Llywodraeth Cymru |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
| --- | --- |
| Partneriaeth Ddiogelu Gorllewin Morgannwg | 11 Gorffennaf 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 9 Awst 2024 |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | 23 Awst 2024 |
| Plismona yng Nghymru | 23 Awst 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 23 Awst 2024 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 23 Awst 2024 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 30 Awst 2024 |
| Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd | 13 Medi 2024 |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru | 19 Medi 2024 |